# LLYGAD Y DYDD

Papur Bro Dolgellau a'r Cylch


Rhydd i bawb ei farn, ac i bob barn ei llafar

Rhifyn 21 | Mehefin 2020 | £1


# BRI TRI AR 'T'

Mae gan ardal Dolgellau reswm arbennig i fod yn falch o'i phobl ifanc y mis hwn. Llongyfarchiadau gwresog i'r tri hapus yma a gipiodd rai o brif wobrau Eisteddfod T yr Urdd ddiwedd Mai. Eisteddfod rithiol a gwahanol iawn i'r arfer oedd hon oherwydd y sefyllfa bresennol, wrth gwrs.

Darllenwch hanes Mared a'i gwaith buddugol ar dudalen 3; ac am brofiad Celt yn ei eiriau ei hun, a llun o gampwaith Gwenno ewch i dudalen 4.








## Y LLENOR

Mared Fflur a ddaeth yn gyntaf yng nghystadleuaeth y prif lenor

## Y CYFANSODDWR

Celt John a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth y prif gyfansoddwr

## Y COGYDD

Gwenno Meirion a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth y prif gogydd

## TRISTWCH Y TÂN



*Llun: Rod Davies*

Hanes yr *Hall* tudalen 5

## GWALLT GWALLGOF?



Sut i'w ddofi - tudalen 7

9772632697002


*Welwch chi fi?* ....13
*A oes gwrachod yn Nolgellau?* ....15
*Holi Elen Evans* ....27
*Cofio Michael John* ....29

**MANYLION CYSWLLT:**

**golygydd@llygadydydd.cymru**

www.llygadydydd.cymru

**GOLYGYDDION A SWYDDOGION:**

***Cadeirydd Cymdeithas y Dydd:***
**Arfon Hughes**
***Rhif ffôn:* 01650 531237**
***Ysgrifennydd:* Buddug Hughes**
***Trysorydd:* Elfed ap Gomer**

*Golygyddion a Phrawfddarllenwyr y Rhifyn:*
Rhiannon Gomer a Beryl Davies
*Cysodydd:* Elfed ap Gomer
*Argraffwyr:* Y Lolfa

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Dyddiad ar gyfer derbyn deunydd i'r Rhifyn nesaf:

***6ed Gorffennaf***

Gwerthir y papur gan y canlynol:
- Siop y Cymro
- Eurospar
- Cwt Gwyn
- Garej Mallwyd
- Awen Meirion

**Lluniau: Rhaid i ffotograffau fod o ansawdd uchel (300 dpi neu fwy ar ffurf Jpeg), a'u derbyn drwy e-bost. Rhaid ichi gael caniatâd rhieni i enwi plant sy'n ymddangos mewn lluniau. Rhaid cael caniatâd y ffotograffydd i ddefnyddio lluniau. Byddwn yn cydnabod lle gallwn.**

Dylid rhoi enw a chyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost, os oes un, ar bob cyfraniad at gynnwys Llygad y Dydd. Cedwir yr hawl i olygu cyfraniadau, a chyfyngu ar eu hyd. Mae croeso i Newyddion, Teyrngedau, Gohebiaeth, Cyfarchion, dyddiadau i'r Dyddiadur, Cyhoeddiadau a Hysbysebion.

Manylion Tanysgrifio ar ein gwefan neu cysylltwch!

**TELERAU HYSBYSEBU**

| Maint | Du a Gwyn | Lliw |
|---|---|---|
| 1/16 tud | £10 | £15 |
| 1/8 tud | £15 | £25 |
| ¼ tud | £30 | £40 |
| ½ tud | £60 | £80 |

**Hysbysebu am flwyddyn: 2 fis am ddim**

**Cyfarchion: £5**

E-bost ar gyfer hysbysebion: hysbyseb@llygadydydd.cymru

**Cymdeithas y Dydd sydd wedi cynhyrchu'r papur hwn ac sy'n cymryd cyfrifoldeb amdano. Criw o wirfoddolwyr o ddalgylch y papur sydd wedi ffurfio Cymdeithas y Dydd.**

**Croesewir aelodau newydd!**

**Nid yw'r golygyddion o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y rhifyn.**

# Gair o'r Gadair

**Dwi'n ysgrifennu Gair o'r Gadair y mis yma - funud olaf - yn dilyn cyhoeddiad heddiw (Gwener y 19eg Mehefin) gan Lywodraeth Cymru ar lacio ar gyfyngiadau trigolion y wlad yma. Dydw i ddim am fanylu gan y bydd yn hen hanes erbyn i'r papur hwn gael ei gyhoeddi ond un peth sy'n sicr, bydd yn newid byd i ni gyd ar ôl tri mis o gaethiwed. Bydd rhai pobl yn siŵr o ystyried y cyhoeddiad fel rhyddid o garchar pedair wal, ond bydd eraill yn pryderu ei bod yn rhy fuan i godi'r cyfyngiadau gan fod y firws yn parhau. Yn sicr, i ni fel Pwyllgor Llygad y Dydd mae parhau i gynnig arlwy o wybodaeth ddiddorol yn flaenoriaeth gan y gwyddom fod nifer fawr ohonoch chi ddarllenwyr yn edrych ymlaen at ei weld.**

Yn rhifyn y mis yma mae amrywiaeth o erthyglau difyr ar bob agwedd o'n byd, fel sy'n arferol. Mae'n gyfle i gymryd stoc o beth sy'n bwysig i ni a'r cyfnod clo yn dechrau cael ei lacio, ac mae'n gyfle i ni drïo bod yn bositif am y dyfodol.

Mae gynnon ni holiadur byr yr hoffem i chi ei gwblhau ar lein er mwyn cael gweld os yw'r papur yn dal i blesio ac os oes lle i wella, ynghyd â chanfod ymateb i rifynnau digidol at y dyfodol. Dyma'r linc i'r holiadur :-https://www.surveymonkey.co.uk/r/QS9G2KW (bydd ar gael ar bapur fis nesa).

Mae'r Proc i'r Llygad yn siŵr o fod yn destun diddorol i'w drafod i chi sy'n byw yn Nolgellau, ac mae gennym le i longyfarch talentau ifanc lleol yn Eisteddfod T yr Urdd yn does! Ar nodyn trist, rydym yn ffarwelio gyda hen gyfeillion a sonir hefyd am drasiedi adeilad eiconig yn y Bontddu'n llosgi'n ulw a gwraig yn colli ei bywyd oherwydd y tân.

Gyda sawl wythnos arall cyn y bydd siopau trin gwallt yn ailagor, mae yma gyfle i gael tips gan Nia Fronalchen ar beth i'w wneud, ac os ydych â diddordeb mewn gwybod beth sy'n digwydd yn eich cyngor cymuned yna mae cyfle i chi ymuno â'r cynghorwyr yn eu cyfarfodydd ar gyfrifiadur drwy Zoom. Manteisiwch ar y cyfle i gysylltu â'r clerc os ydych chi'n dymuno gweld y trafod - o glydwch eich cartref. Ai hyn fydd y ffordd ymlaen ys gwn i!

Cofiwch mai eich papur chi yw hwn felly gyrrwch nodyn atom ni drwy'r holiadur neu fel arall i fynegi eich barn.

*Arfon*



# Proc i'r Llygad

### *Beth fydd effaith Covid-19 ar Ddolgellau?*

***Erbyn hyn 'rydym wedi profi Cyfnod Clo ers deng wythnos. Ar un llaw mae hwn yn gyfnod o gaethiwed a phryder i bob un ohonom a phawb yn gofidio beth sydd o'n blaenau. Ar y llaw arall mae Covid-19 wedi rhoi cyfle i fyd natur, ein hamgylchedd a ninnau fel trigolion i elwa'n sylweddol o'r Cyfnod Clo yma gyda llawer llai o lygredd, llai o deithio a llai o sŵn traffic.***

*Mae yna adroddiadau dyddiol yn y wasg a'r cyfryngau o ddinasoedd a threfi drwy'r byd yn cymryd y cyfle yma i ofyn i'w cynllunwyr trefol baratoi cynlluniau i wella amgylchedd eu hardaloedd.*

*Beth am Ddolgellau?*

*Mae'n hen bryd i ni yn Nolgellau feddwl am gynllun radical i weddnewid ein tref hanesyddol hardd ac unigryw er lles trigolion yr ardal, busnesau'r dref a'r miloedd o ymwelwyr a ddaw yma. Darllenais yn y wasg fod £200,000 wedi'i glustnodi gan Lywodraeth Cymru i wella'r gyfnewidfa fysus yn Nolgellau. Newyddion da meddyliais ond beth ydi'r cynllun?*

*Dyma gyfle i weithredu. Dyma rai syniadau – rhai ohonynt heb gost sylweddol!*

*Arafu traffic o bob cyfeiriad i mewn i'r dref drwy osod cyflymdra o 20 mya.*

*Cau nifer o strydoedd cul y dref i geir i ganiatáu i fusnesau eu defnyddio a chreu awyrgylch gymdeithasol a byrlymus. Un esiampl ydi Gwesty'r Ship sydd yn defnyddio'r llain o flaen y gwesty. Er enghraifft, cau'r ffordd o dafarn y Torrent i'r Stryd Fawr heibio'r Cross Keys, cau wtra Plas Coch i sgwâr Smithfield, cau stryd Waterloo. Dim ond syniadau!*

*Ehangu'r palmentydd ar y Stryd Fawr i ganiatáu i siopwyr ehangu OND cadw llefydd parcio a chyfyngu'r amser aros i hanner awr yn ystod y dydd. Buasai hyn yn dyblu'r cyfle i barcio ar gyfer siopa a gwneud iawn am golli ambell i le.*

*Gwneud defnydd o'r meysydd parcio a chodi tâl sydd yn gweddu i anghenion y dref. Rhaid cofio maent o fewn tafliad carreg i ganol y dref.*

*Byddai hyn yn golygu symud y safle cyfnewid bysus o'r Stryd Fawr i'r Marian a chreu cyfnewidfa bwrpasol fydd yn addas i'r unfed ganrif ar hugain. Yn ddios, byddai busnesau'r dref yn elwa o awyrgylch gyda llawer llai o lygredd, sydd ar hyn o bryd yn cael effaith niweidiol ar ansawdd bywyd ac iechyd trigolion Dolgellau.*

***Peredur Jenkins***

# Teyrnged i Taid

**Mared Fflur Jones wnaeth ennill Coron Eisteddfod T yr Urdd gyda'i stori fer i aelod annwyl o'i theulu a fu'n byw gydag Alzheimers am flynyddoedd. Hi felly oedd Prif Lenor Eisteddfod T, er nad oedd erioed wedi cystadlu am Goron yr Urdd o'r blaen. Dywedodd Mared fod penderfynu mentro yn Eisteddfod T "wedi talu ar ei ganfed" iddi.**

Roedd y ffaith bod y gystadleuaeth yn benagored o ran testun a'i bod yn gofyn am lai o eiriau na'r arfer – o dan 400 – hefyd wedi denu Mared i fentro.

"Roeddwn i wastad yn methu'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwaith creadigol i'r Urdd," meddai'r awdur o Ddolgellau. "Roedd o ar Fawrth 1, adeg arholiadau, neu rywbeth fel yna o hyd. Felly eleni mi wnes i benderfynu fy mod i am drïo, ac mi wnaeth o dalu ar ei ganfed."

Enillodd â stori fer a oedd yn deyrnged i'w thaid, Oswald Jones, o Dalerddig, Powys, a fu farw yn 2014 ar ôl byw gyda chyflwr Alzheimers am flynyddoedd lawer.

Yn y stori, mae'r wyres yn sylwi ar ei thaid yn dechrau canu geiriau emyn dôn 'Gwahoddiad' – sef teitl y darn - yn hytrach na dim ond mwmial y dôn, fel y byddai'n arfer ei wneud. Y diweddglo yw: 'Ma' Taid nôl.'

"Er nad oedd o yn ein hadnabod ni, na Nain, roedd o'n dal i gofio'r emynau - y tonau yn fwy na'r geiriau," meddai Mared, sydd ar fin cychwyn ei thrydedd flwyddyn yn astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor. "Weithiau, byddai ambell linell yn dod yn ôl i'r cof. Edrych yn ôl ar y cyfnod yna oeddwn i. Roedd hi'n neis cael y cyfle i feddwl yn ôl amdano fo eto achos roedd fy nhaid yn ddyn addfwyn iawn a byth yn codi ei lais," meddai Mared. "Mae gan bobol eraill o'r teulu eu hatgofion eu hunain a fi ydi'r ieuengaf o'r wyrion a'r wyresau i gyd, felly mi gefais i lai o amser efo fo. Felly fy nheyrnged i oedd hwnna, mewn ffordd."

Yn ôl y beirniad Manon Steffan Ros, mae'r awdur wedi "creu darlun yn y meddwl sy'n gwbl glir, yn gwbl deimladwy ac yn llawn cariad a gwewyr".

Cyn-ddisgybl o Ysgol y Gader, Dolgellau ydy Mared, a bu yn chweched dosbarth Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth. Mae hi'n ddiolchgar i'w hathrawes Gymraeg, Delyth Medi Jones, a fu'n ei hannog i ddal ati gyda'r sgrifennu.

"Llenyddiaeth ydi fy nghariad cynta' i wedi bod erioed," meddai. "Llyfr oeddwn i ei eisio 'Dolig bob amser. Dw i'n cofio Mam yn cynnig prynu Kindle i fi a finne'n gwrthod achos ro'n i'n hoffi'r teimlad o lyfr newydd."

Bu'n aelod o Ysgol Theatr Maldwyn am flynyddoedd, ac roedd yn falch o gael y cyfle i astudio'r Theatr Fodern Gymreig yn rhan o'i gradd eleni. "Mi wnaeth hynny roi syniad gwell i fi ar gyfer modiwlau Blwyddyn 3 ac ar beth ddylwn i wneud fy nhraethawd hir," meddai.

Mae ei bryd ar wneud ymarfer dysgu wedi'r brifysgol, i fod yn athro Cymraeg mewn ysgol uwchradd. "Mi gefais i gymaint o brofiadau da drwy gydol fy addysg i - fydden i'n licio gwneud yn siŵr bod yna blant yn cael yr un un cyfleoedd," meddai, "ac yn cael athro sydd â gwir ddiddordeb yn y pwnc sy'n cael ei ddysgu. Gobeithio wedyn nad ydyn nhw'n troi cefn ar y Gymraeg yn hwyrach ymlaen."

Yn ail am 'sgrifennu stori fer roedd Osian Wynn Davies o Gaerdydd, ac yn drydydd, Osian Wyn Owen o'r Felinheli, a enillodd dlws y Prifardd.

Dyma ddarn buddugol Mared Fflur Jones:

## Gwahoddiad

Mae o'n dal i syllu yn 'i flaen, fel taswn i'm yma. Syllu a syllu fel petai o'n trio llosgi twll trwy'r ffenest efo'i lygid. Falle bod o heb sylwi mod i yma. Nes i drio dod mewn fel llygoden rhag ofn fod o'n cysgu gan mod i 'di ddeffro fo wrth ddod fewn ddoe.

"Haia Taid, 'da chi'n iawn?"

Dim ateb. Dal i syllu tan ma' dagra'n llifo lawr i focha' fo.

"Ma'ch llygid chi'n dyfrio, s'gen o chi hances?"

Ar hynny ma'i lygid o'n symud, fel 'tae o di sylwi mod i'n siarad efo fo, neu 'di bod mewn rhyw fyd arall cyn glanio'n ôl. Dwi'n siŵr fod o'n mynd ar goll yn 'i feddwl 'i hun weithia. Atgofion yn gwibio heibio'n sydyn, eraill yn aros am sbel fel bod o'n ca'l 'i mwynhau nhw eto. Dwi fel arfer yn gallu deud pan fydd hynny'n digwydd achos dyna un o'r unig adega' pan fydd o'n gwenu o'i wirfodd.

"Oes" medda Taid yn diwadd, ac estyn i boced ei drywsus corderoi glas.

"Yde' chi isio i fi –"

"- Na. Nagoes, dim diolch" medda fo ar nhraws i, yn amlwg 'di cal digon ar bawb yn ffysian o'i gwmpas, fel tasa fo'n 'i glytia unwaith eto. Er, unwaith yn ddyn, dwywaith yn blentyn ma' nhw'n ddeud fyd nde. Trio'i helpu fo ydan ni gyd ond dio'm o hyd yn medru gweld hynny. Rhwystredig ydi o efo fo'i hun mwy na ni, am mai fo sy' methu, neu falla na isio llonydd mae o a ninna'n gwrthod rhoi hynny iddo fo. Ond fedrwn i'm gadael Taid ar ben ei hun ar ôl tro dwetha. Fuodd o ar goll am hydoedd a neb efo'r syniad cynta lle i fynd i chwilio, a neb 'di meddwl am eiliad y basa fo 'di mynd i ben y mynydd.

Mae o 'di dechra hymian emyna' rŵan, fel fydd o'n g'neud o hyd. Chwara teg iddo fo, er nad ydio'n cofio'r geiria', ma'r dôn o hyd yn sicr, a'r llais mor felfedaidd ag erioed. Dim ond canu Taid fydda'n gneud y tro pan oni'n crio. Dio'm yn hymian rwan. Ydio'n canu go iawn?
Mae o'n canu'r geiria', mae o'n cofio, a finna'n dechra morio canu efo fo fel rwbath ddim yn gall nes ma' ngwddw i'n llosgi. Ond ma' hyn werth y boen, achos am un eiliad, mae o efo fi. Ma' Taid nôl.

# Zoom i'r Adwy - Cyfarfodydd plwyf a chymuned yn ystod Gofid y Covid

**Mae'r misoedd diwethaf ers cychwyn y cyfnod clo wedi dod â llawer o newidiadau neu addasiadau yn ei sgil. Y rhyfeddod yw fod rhai o'r newidiadau wedi gorfod digwydd mwy neu lai dros nos.**

Cafodd Cyngor Cymuned Llanelltyd, Tai Cynhaeaf a Bontddu, a Chyngor Cymuned Brithdir, Rhydymain a Llanfachreth eu cyfarfod misol ar Zoom fis Mehefin, a dyna oedd hanes cynghorau Mawddwy, Dolgellau a Ganllwyd hefyd. Mae cyngor cymuned Arthog ar hyn o bryd wedi gohirio eu cyfarfodydd ond wedi cytuno i ailethol swyddogion am flwyddyn arall. Mae hawl i unrhyw aelod o'r cyhoedd ymuno yn y cyfarfodydd digidol hyn. Gall unrhyw un sydd am wneud hynny holi'r clercod cynghorau cymuned am y linc i'r dudalen berthnasol ar y we.

Daeth y cyfnod clo ar adeg bwysig i gynghorau cymuned a thref oherwydd roedd yn ddiwedd blwyddyn ariannol ac angen paratoi adroddiadau i Archwilwyr Mewnol ac Allanol. Roedd hi'n ofynnol iddynt gyfarfod er mwyn cyflawni eu dyletswyddau statudol. Oherwydd bod cyfryngau megis Zoom a Skype yn bodoli, ychydig iawn o ddewis oedd gan ein cynghorau ond eu defnyddio, oherwydd na fyddai modd cynnal cyfarfod wyneb yn wyneb oherwydd y cyfyngiadau. Mae hyn wrth gwrs yn wir am y cyngor Sir, y Senedd yng Nghaerdydd a San Steffan yn ogystal.

Amser a ddengys fesur eu llwyddiant. Tybed ai dyma'r ffordd y bydd ein haelodau yn dewis parhau i gyfarfod? Cawn weld, ond mae'n siwr y bydd nifer yn teimlo fod yna fanteision iddo, yn sicr, i'r cynghorwyr sir sydd yn teithio oddeutu awr a phymtheg munud i Gaernarfon ac yn ôl.

# Llwyddiant yn Eisteddfod T

## Celt John

**Braint anhygoel oedd cael dod yn ail yng nghystadleuaeth y Prif Gyfansoddwr yn Eisteddfod T eleni. Roedd yn brofiad rhyfedd iawn a dweud y gwir, ond eto mae'n gyfnod rhyfedd yn ddiweddar felly chymrodd hi ddim yn hir i mi ymgyfarwyddo gyda'r sefyllfa. Cefais wybod fy mod wedi dod i'r brig oddeutu bythefnos cyn yr Eisteddfod ei hun.**

I ddechrau roeddwn i'n credu mai dim ond dangos fy llun ar y sgrîn y byddent yn ystod y seremoni, a dyna ni. Ond yna rhyw wythnos cyn y seremoni cefais wybod y byddai Avanti yn gyrru gliniadur ac *all the bells and whistles* i mi fel fy mod yn medru bod yn bresennol yn y seremoni ei hun yn fyw ar y teledu. Roedd yn broses hir o geisio cael y sain i weithio'n iawn, ond rhaid i mi ddweud, roedd yn broses hollol broffesiynol ac rwy'n ddiolchgar iawn i Avanti am roi'r cyfle i mi weld sut mae'r byd darlledu yn gweithio tu ôl i'r sgrîn. Mae gennyf barch mawr tuag atynt yn enwedig yn ystod yr amseroedd hyn.

Er fy mod i'n hynod nerfus am fod ar y teledu roedd ychydig o gysur mewn gweld wyneb cyfarwydd ar yr un sgrîn â mi. Wrth gwrs, mae Cai Fôn a enillodd y gystadleuaeth, yn gyd-fyfyriwr gyda mi ym Mhrifysgol Bangor ac yn byw ond ychydig loriau uwch fy mhen yn Neuadd John Morris-Jones. Rydym hefyd yn canu drws nesaf i'n gilydd yng Nghôr Aelwyd JMJ, a chefais y newyddion da ychydig ddyddiau'n ôl y byddaf yn cymryd yr awenau fel arweinydd Côr SATB Aelwyd JMJ ym mis Medi.

Wedi i'r seremoni orffen, y noson honno cefais neges gan fy ffrind ysgol, Osian Lewis-Smith, hefyd o Ddolgellau, ac sydd ar hyn o bryd yn astudio cerdd a'r piano yng Nghaerdydd, yn cynnig chwarae'r darn piano a ysgrifennais ar gyfer y gystadleuaeth, yn broffesiynol. Mae'r recordiad yn un penigamp ac yn union fel y dychmygais y darn yn fy mhen. Rwy'n hynod o ddiolchgar i Osian - mae Dolgellau yn lwcus i gael talent fel Osian yn ein plith.

Roedd hon wir yn wythnos lwyddiannus iawn o ran y prif seremonïau i drigolion ifanc ardal Dolgellau. Ar wahân i'm llwyddiant i yn dod yn ail yng nghystadleuaeth y Prif Gyfansoddwr (a hefyd roeddwn yn y dosbarth cyntaf yng nghystadleuaeth y Prifardd) rydym fel ardal yn hynod o ffodus fod Mared Fflur Jones (sydd hefyd yn ffrind agos i mi ym Mangor - rhywbeth yn y dŵr yn y Fenai mae'n rhaid...) wedi ennill gwobr y Prif Lenor yn yr Eisteddfod hon.

Mae hyn yn profi'n ddi-ffael fod y celfyddydau yn hynod o bwysig ac yn elfen hanfodol i'n diwylliant yma yn Nolgellau a'i bod hi'n ddyletswydd arnom ni fel ei thrigolion i gefnogi'r celfyddydau hyn, nawr yn fwy nag erioed.

## Gwenno Meirion

**Un o'r cystadlaethau yn Eisteddfod T yr Urdd oedd 'Gornest y Gacen', sef creu cacen i weithwyr allweddol. Gan fod Gwenno wedi methu mynd i rownd derfynol CogUrdd yn yr eisteddfod, penderfynodd gystadlu.**

Aeth ati i greu 'Cacen Ffrwythau'r Enfys' ar gyfer gweithwyr allweddol a daeth yn ail.



Nid yw Gwenno yn ddiarth yn y maes yma, gan iddi gyrraedd y rownd derfynol yng Nghaerdydd y flwyddyn ddiwethaf.

Mae Gwenno yn ddisgybl yn Ysgol Bro Idris a bydd yn mynd i Flwyddyn 11 ym mis Medi. Un o'i phynciau TGAU ydi Bwyd a Maeth, felly rhagdybiwn y bydd coginio cacennau yn rhan o'i bywyd mewn un ffordd neu'i gilydd yn y dyfodol.

Llongyfarchiadau mawr iddi, a gobeithio y bydd Sir Ddinbych yn gallu croesawu'r eisteddfod y flwyddyn nesaf.

## Llongyfarch talent Gwynedd, yr Urdd ac Eisteddfod T

**"Mae'n hyfryd gallu llongyfarch tri pherson ifanc o Wynedd a ddaeth i'r brig mewn tair prif gystadleuaeth Eisteddfod rithiol yr Urdd, Eisteddfod T," meddai arweinydd Plaid Cymru Gwynedd, Dyfrig Siencyn.**

1. Dydd Llun (25 Mai) enillodd Cai Fôn Davies o Benrhosgarnedd wobr prif gyfansoddwr yr ŵyl
2. Dydd Iau (28 Mai) cafodd Mared Fflur Jones o'r Brithdir ei gwobrwyo fel prif lenor yr Ŵyl
3. Dydd Gwener (29 Mai), daeth Osian Wyn Owen, Felinheli i'r brig fel Prifardd yr Eisteddfod.



"Mae hi wastad yn bleser gweld ieuenctid yr ardal yn llwyddo" meddai'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn.

"Hoffwn ymuno â'r genedl gyfan i longyfarch Mared, Cai ac Osian ar eu campau gan ddymuno pob llwyddiant a llewyrch iddynt wrth iddynt barhau i feithrin eu talentau. Pleser hefyd ydy llongyfarch Celt John a Gwenno Meirion o Ddolgellau ar eu gorchestion hwythau." (Gweler y dudalen flaen ac i'r chwith.)

Ychwanegodd y Cynghorydd Sir dros y Brithdir, Llanfachreth, Y Ganllwyd a Llanelltyd, Peredur Jenkins "Pleser oedd clywed i ferch o'r ardal, Mared Fflur Jones o'r Brithdir ddod i'r brig fel prif lenor Eisteddfod yr Urdd eleni. Rydym, fel ardal, yn ymfalchïo yn ei champ ac yn ei llongyfarch yn wresog iawn. Mae hi'n ferch dalentog, yn serennu mewn sawl maes, ac rydym yn falch bod un o'r ardal hon wedi cyrraedd y brig fel prif lenor, ac yn dymuno pob lwc iddi i'r dyfodol."

Ychwanegodd Dyfrig Siencyn: "Hoffwn hefyd longyfarch nifer o blant a phobl ifanc eraill o Wynedd sydd wedi llwyddo a serennu yn Eisteddfod T yn ddiweddar. Mae'r talent sydd gennym ledled y sir yn anhygoel, a'r profiadau mae'r bobl ifanc wedi eu cael o fod yn aelodau o'r Urdd yn amhrisiadwy.

"Diolch i'r holl rieni, athrawon ac hyfforddwyr sydd wedi bod yn gweithio'n ddygn yn paratoi dros yr wythnosau diwethaf, ac sydd, dwi'n sicr, wedi dysgu llawer wrth ymrafael â'r dechnoleg.

"Yn olaf, hoffwn longyfarch Urdd Gobaith Cymru am eu mentergarwch. Diolchwn i'r mudiad am herio traddodiad, am addasu ac wynebu sialens Covid-19 ar ei ben. Mae Eisteddfod T wedi bod yn brofiad cwbl wahanol i bawb, ond mae hi wedi bod yn llwyddiant ysgubol ac wedi rhoi llwyfan a phrofiad hwyliog i'n hieuenctid mewn amgylchiadau anodd. Llongyfarchiadau i dîm yr Eisteddod, Yr Urdd a'i phartneriaid ar eu llwyddiant!"


# Tân ym mhentref Bontddu

**Gyda chryn syndod, clywodd yr ardal am y tân a ddinistriodd westy blaenorol y *"Bontddu Hall"* oedd yn sefyll yn fawreddog ar gyrion y pentref. Bydd nifer o'n darllenwyr wedi bod yn gweithio yn y gwesty, a nifer fawr wedi bod yn yr adeilad ar gyfer priodas, neu ddathliad arbennig. Hyd yn oed os na fuoch yno erioed, byddai'n anodd i chi beidio â sylwi ar yr adeilad oedd i'w weld dros ardal eang ac yn glir o ochor arall y Fawddach. Mynychodd 6 injan dân i geisio diffodd y fflamau,ond mae'n ymddangos fod y tân wedi cael gafael gan adael dinistr ar ei ôl. Yn drist iawn, bu farw gwraig oedd yn yr adeilad ar y pryd. Tŷ preifat oedd y cyn-westy ers rhai blynyddoedd.**

Wrth ymateb i'r newyddion am farwolaeth yn y Bontddu, dywedodd y Cynghorydd Peredur Jenkins, sy'n cynrychioli'r ardal ar Gyngor Gwynedd:

"Mae'r newyddion am golli bywyd o ganlyniad i dân mewn cyn-westy, sef y Bontddu Hall Hotel ger Dolgellau yn tristhau'r ardal. Rydym fel trigolion lleol yn cydymdeimlo'n ddwys â theulu'r wraig a fu farw. Mae trasiedi fel hyn yn ysgwyd cymuned gyfan.

"Rhaid talu gwrogaeth i'r gwasanaethau brys, yn arbennig y swyddogion tân sy'n ymddwyn yn broffesiynol a dewr mewn argyfwng o'r fath. Gyda chefnogaeth parafeddygon a swyddogion yr Heddlu, maent wedi'u hyfforddi i arwain a chefnogi unigolion a chymunedau pan fyddant yn wynebu argyfwng fel hyn. Dyw'r gair bach 'diolch' ddim yn swnio'n ddigonol, ond mae ein gwerthfawrogiad iddynt yn enfawr. Bydd ymchwiliad i ddarganfod amgylchiadau'r tân nawr ar waith."


***Bryntirion (Bontddu Hall)***

Gofynnwyd i Merfyn Tomos, ein colofnydd a hanesydd lleol, am hanes yr adeilad, a dyma oedd ganddo i'w ddweud:

"Codwyd y tŷ presennol yn nechrau'r 1870au gan ei orffen erbyn 1874. Y pensaer oedd Andrew Phipson o Birmingham, ac fe'i codwyd ar gyfer William John Beale (1807-1883), cyfreithiwr a gŵr busnes cefnog o Birmingham, fel cartref i ymddeol ymhell o fwg a stŵr y ddinas. Tua'r un adeg, roedd cyfaill iddo, Samuel Holland y diwydiannwr, a fu'n Aelod Seneddol y sir, wedi symud i fyw i Gaerdeon gerllaw. Adeiladwyd y plas mewn steil neo-gothig Fictorianaidd a hynny ar safle hen dŷ a losgwyd yn yr 1840au. William Jones, tad yr argraffydd cynnar o Ddolgellau - Richard Jones, oedd yn byw yn yr hen Bryntirion, ystad o tua 276 acer ar ddechrau'r 19eg ganrif.

Roedd y Beales yn deulu cefnog yn cynnwys cyfreithwyr, gwŷr busnes a gwleidyddion oedd wedi dod i'r amlwg fel masnachwyr yn Birmingham erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif. Sefydlwyd Cwmni Beale & Co., Birmingham gan William John Beale (1807-1883) a bu ei feibion yn y busnes yn Llundain yn ogystal. Bu W J Beale yn Arglwydd Faer Birmingham a'i fab Charles Gabriel Beale (1843-1912) ar bedwar achlysur. Roedd brawd arall, Syr William Phipson Beale, yn fargyfreithiwr ac yn aelod seneddol Rhyddfrydol a mab arall iddo, James, a gododd plasdy o'r enw Standen yn swydd Sussex sydd erbyn heddiw yng ngofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Roedd y teulu yn perthyn trwy briodas i'r gwleidydd Joseph Chamberlain ac i Neville Chamberlain y cyn Brif Weinidog a oedd yn nai i Charles Gabriel Beale. Bu Joseph Chamberlain yn aros yn Mryntirion yn achlysurol a byddai'n mwynhau cerdded o gwmpas yr ardal. Yr oedd yna rodfeydd trwy dir y plas a gardd arbennig o 3 acer yn


***Bryntirion - cerdyn post***

ogystal. Roedd gan William John Beale ddiddordeb byw mewn garddwriaeth a bu'n flaenllaw yn yr ymgyrch i sefydlu sioe flodau yn Nolgellau.

Roedd y teulu yn anghydffurfwyr, yn Undodiaid yn dal syniadau rhyddfrydol a dyngarol. Bu tad William John Beale er enghraifft yn amlwg yn yr ymgyrch i ryddhau caethweision. Bu'r teulu yn gyfrifol am ariannu capel newydd i'r Wesleaid ym mhentref y Bontddu ac yn cefnogi'r ysgol gynradd. Sefydlodd ysgol nos yn ogystal ar gyfer oedolion y pentref yn ystod gaeaf 1879.

Roedd William John hefyd yn gefnogwr brwd i Ysgol Dr Williams i Ferched ac eisteddai ar y fainc yn Nolgellau lle gwerthfawrogwyd ei brofiad cyfreithiol. Bu'n Ddirprwy Raglaw ac yn Uwch Sirydd Feirionnydd. Bu ei fab Charles Gabriel Beale, a ddaeth i Bryntirion ar ei ôl, hefyd yn llywodraethwr DWS ac yn Uwch Sirydd dros y sir. Byddai'r ysgol yn cael ei gwahodd i Fryntirion am de o bryd i'w gilydd.

Yn 1887, gwerthwyd y Plas i Pritchard Morgan AS, y gŵr busnes lliwgar a wnaeth ddatblygu'r gwaith aur yn Gwynfynydd. Erbyn 1890, roedd Morgan mewn trafferth ariannol ac fe geisiodd cyfeillion iddo


***Charles G Beale***

ym Merthyr Tudful (roedd yn AS dros Merthyr) brynu'r ystad yn 1892 trwy greu cwmni i ddatblygu'r plas fel hotel a chodi tai gwyliau ar y safle ond erbyn Mawrth 1893, roedd Charles Gabriel Beale a'i deulu yn ôl ym Mryntirion.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd bu'r plas yn gartref i ysgol ferched o Birmingham am gyfnod. Yna ar ôl yr Ail Ryfel Byd gwerthwyd y plas, ac o 1948 hyd 1985, bu'n westy - Bontddu Hall Hotel - a gedwid gan William a Sheila Hall, un o bedwar o frodyr Hall a gadwai westyau yn yr ardal. Bydd rhai yn cofio'r stori am Richard Burton yn aros yno yn 1949 adeg ffilmio'r *'Last Days of Dolwyn'* yn ardal Rhyd-y-main. Adroddai Clement Owen, gŵr lleol, fel y bu'n chauffeur yn ei gludo'n ôl ac ymlaen. Ar ôl i William *'Billy'* Hall ymddeol, prynwyd y gwesty yn 1985 gan Michael a Gretta Ball a oedd â gwestyau yn y Bermo ac Aberystwyth yn ogystal. Bu rhai o sêr y sgrin yn cynnwys Sean Connery a Richard Gere yn aros yno wedyn pan ffilmiwyd *'First Knight'* yn y cyffiniau yn 1994.

Yna, prynwyd y plas gan y perchnogion presennol, sef cwmni *Bontddu Castle* Cyf."

Diolch i Merfyn am rannu yr hanes yma gyda darllenwyr Llygad y Dydd.

Bydd hyn yn dipyn o golled i'r ardal, ond i'r rhai a fynychodd i ddathlu yno, neu i weithio yno, mae yna stôr o atgofion ac o bosib sawl llun, fydd yn ysgogi'r cof o'r dyddiau a fu. Dim ond gobeithio y bydd tro ar fyd, oherwydd mae'r olygfa wych o aber y Fawddach a gafwyd o erddi'r gwesty yn parhau yno ac mae cystal ag erioed.


***Llun: Rod Davies***

# O Lanfachreth i Wounded Knee

**Soniais i'r mis diwetha fy mod wrth fy modd efo ffilmiau cowbois pan yn blentyn. Mi fyddwn fel arfer yn cydymdeimlo efo tranc yr 'indians,' y trigolion brodorol yn y ffilmiau hynny. Flynyddoedd yn ddiweddarach y deuthum i wybod am y ffordd y cafodd y pobl yma'u trin gan y dyn gwyn wrth iddo ymestyn ei diriogaeth i'r gorllewin a dwyn eu tiroedd. Ac wrth gwrs, mae cydymdeimlad mawr am eu tranc wrth i'r un peth yn union ddigwydd i genedl y Cymry.**

Doedd gan Robert Owen Pugh ddim llawer o gydymdeimlad efo'r brodorion yma pan gyrhaeddodd Efrog Newydd yn 1863, ac yntau'n hogyn un ar bymtheg oed. Ond newidiodd ei deimladau yn llwyr maes o law. Hwyliodd o borthladd Lerpwl ar ei ben ei hun i geisio'i ffortiwn yng ngwlad y llaeth a'r mêl. Cafodd Robert ein eni yn 1846 yn Llanfachreth yn fab hynaf i David a Catherine Pugh, Tŷ Isaf.


INDIAN LAND FOR SALE

GET A HOME OF YOUR OWN EASY PAYMENTS

PERFECT TITLE POSSESSION WITHIN THIRTY DAYS

FINE LANDS IN THE WEST

IRRIGATED IRRIGABLE — GRAZING — AGRICULTURAL DRY FARMING

IN 1910 THE DEPARTMENT OF THE INTERIOR SOLD UNDER SEALED BIDS ALLOTTED INDIAN LAND AS FOLLOWS:

| Location. | Acres. | Average Price per Acre. | Location. | Acres. | Average Price per Acre. |
|---|---|---|---|---|---|
| Colorado | 5,211.21 | $7.27 | Oklahoma | 34,664.00 | $19.14 |
| Idaho | 17,013.00 | 24.85 | Oregon | 1,020.00 | 15.43 |
| Kansas | 1,684.50 | 33.45 | South Dakota | 120,445.00 | 16.53 |
| Montana | 11,034.00 | 9.86 | Washington | 4,879.00 | 41.37 |
| Nebraska | 5,641.00 | 36.65 | Wisconsin | 1,069.00 | 17.00 |
| North Dakota | 22,610.70 | 9.93 | Wyoming | 865.00 | 20.64 |

FOR THE YEAR 1911 IT IS ESTIMATED THAT **350,000** ACRES WILL BE OFFERED FOR SALE


For information as to the character of the land write for booklet, "INDIAN LANDS FOR SALE," to the Superintendent U. S. Indian School at any one of the following places:

CALIFORNIA: Hoopa. COLORADO: Ignacio. IDAHO: Lapwai. KANSAS: Horton. Nadeau. MINNESOTA: Onigum. MONTANA: Crow Agency. NEBRASKA: Macy. Santee. Winnebago. NORTH DAKOTA: Fort Totten. Fort Yates. OKLAHOMA: Anadarko. Cantonment. Colony. Darlington. Muskogee. Pawnee. OKLAHOMA—Con. Sac and Fox Agency. Shawnee. Wyandotte. OREGON: Klamath Agency. Pendleton. Roseburg. Siletz. SOUTH DAKOTA: Cheyenne Agency. Crow Creek. Greenwood. Lower Brule. Pine Ridge. Rosebud. Sisseton. WASHINGTON: Fort Simcoe. Fort Spokane. Tekoa. Tulalip. WISCONSIN: Oneida.

WALTER L. FISHER, Secretary of the Interior. ROBERT G. VALENTINE, Commissioner of Indian Affairs.

Wedi cyrraedd America, aeth am y gorllewin ac i Wyoming. Mae hanes amdano'n gweithio ar *ranch* yno, ac un dydd roedd ar ei ben ei hun mewn caban


*Robert Owen Pugh hefo'i wn (gyda chaniatâd Gwasg y Lolfa)*


*Robert Owen Pugh (gyda chaniatâd Gwasg y Lolfa)*

unig pan ddaeth mintai o'r Shoshone ac amgylchynu'r caban gan ddechrau ymosod arno. Gan feddwl yn sydyn, rhoddodd ddrylliau ei gydweithwyr yn y ffenestri a dynwared lleisiau eraill fel bo'r brodorion dan yr argraff fod nifer yn amddiffyn y caban. Wedi'u twyllo, i ffwrdd â nhw.

Oddi yno, teithiodd Robert Owen Pugh i Fryniau Duon, Dakota. Yno, dechreuodd weithio fel clerc i asiant yr Indiaid lleol yn Pine Ridge. Erbyn hyn roedd agwedd Robert tuag at y trigolion brodorol wedi newid yn llwyr, ac yn 1888 priododd '*Istachtonka*' (Robert Big Eyes) fel y'i galwyd, â Jenny Blue Horse (Robinson), merch neu wyres i'r pennaeth Blue Horse o'r Oglala Sioux.

Efallai bod agwedd Robert wedi newid, ond nid felly ei deulu nôl yng Nghymru! Mae'n debyg i Mary ei chwaer deithio'r holl ffordd i Dde Dakota i geisio'i breswadio i beidio priodi a dod adref. Ofer oedd y siwrnai a llugoer fu'r croeso iddi yno mae'n debyg.

Mae Tecwyn Ifan yn canu 'Gwaed ar yr Eira Gwyn' - cân sy'n adrodd hanes cyflafan Wounded Knee a diwedd y rhyfel rhwng y dyn gwyn a'r trigolion brodorol. Lladdwyd dros 400 o'r brodorion gan y fyddin y bore hwnnw, y mwyfarif ohonynt yn blant a gwragedd pan drowyd gynnau Hotchkiss y cotiau gleision arnynt yn ddisymwyth. Gweithred a sicrhaodd fedalau 'dewrder' i nifer o'r milwyr a oedd yn rhan o'r gyflafan. Roedd Robert Owen Pugh yn Pine Ridge, heb fod ymhell o Wounded Knee Creek ar y pryd, ac fe'i brawychwyd gan weithredoedd y milwyr.

Yn y blynyddoedd dilynol daeth Robert Owen Pugh yn ddyn uchel iawn ei barch gan yr Indiaid ac etholwyd ef yn aelod o'r *First Council* a Phwyllgor Holman, lle bu'n cynorthwyo'r brodorion mewn nifer o drafodaethau efo'r Llywodraeth ynglŷn â hawliau'r trigolion brodorol. Dyma ddyfyniad o'i dystiolaeth gerbron ymchwiliad y Barwn Risker yn 1906:

"Deuthym i'w plith 36 mlynedd yn ôl, gydag argraffiadau arferol y dyn gwyn eu bod yn debycach i fwystfilod na dynion; ond rwyf wedi newid fy meddwl erbyn hyn, ac o'r farn y dylent gael eu trin fel dynion. Nid yw'r Llywodraeth wedi bod yn deg â hwy; mae eu polisïau tuag atynt wedi bod yn anghywir; fe'u gyrrir o le i le yn groes i unrhyw gyfiawnder".


*Blue Horse*





Yn ddiweddarach bu'n cadw swyddfa bost yn ardal Pine Ridge ac enwyd stryd ar ei ôl yn nhref Martin. Bu farw yn Ne Dakota a'i gladdu yn Hot Springs yn 1922. Un arall wedi gwneud cryn argraff yn yr Unol Daleithau ar ôl gadael yr ardal yn fachgen ifanc iawn.

***Ywain Myfyr***



# Covid-19 - Cyfnod y gwalltiau gwallgof

**Pwy fydde'n meddwl y bydde'r feirws ’ma wedi cael y fath effaith ar ein bywydau? Ac ar ein gwalltiau! Yn ogystal â'n hewinedd, croen ac unrhyw driniaethau harddwch oedd yn arferol i ni!**

Mae'n gyfnod ‘naturiol’ iawn i ni ferched! Mae'n dod yn ffasiynol cael gweld lliw gwreiddiau naturiol, a thyfiant amlwg y cyflwynwyr a'r darlledwyr ar y cyfryngau sy'n dioddef, fel ninnau.



Ceisiwch beidio ildio i’r demtasiwn o liwio neu dorri eich gwallt eich hun, ond os bydd yr ysfa yn eich trechu dyma ychydig o bethau i'w cadw mewn cof.

Os ydych am drio lliwio eich gwallt eich hun defnyddiwch gynnyrch lled-barhaol, neu bowdr/mascara i wallt, sydd yn cael ei werthu i orchuddio’r gwreiddiau. Gwnewch yn siwr eich bod yn hollol sicr o’r lliw cyn ei ddefnyddio, i arbed argyfwng. Er gwybodaeth, mae rhif y lliw yn dynodi pa mor olau neu dywyll yw’r lliw e.e. 2- brown tywyll iawn (bron yn ddu!), 10 yn *blonde* golau. Mae lliwiau mewn bocsus yn gallu bod yn dywyllach na lliwiau salon ac felly ceisiwch fynd am o leiaf un neu yn ddelfrydol ddau arlliw *(shade)* yn oleuach na’r hyn sydd eisiau. Mae’n ddigon hawdd mynd yn dywyllach tro nesaf, ond tipyn anoddach goleuo heb niweidio'r gwallt yn ormodol. Os mai dim ond y gwreiddiau sydd yn eich poeni, ceisiwch roi'r lliw ar y gwreiddiau'n unig. Mae peryg i’r gwreiddiau fynd yn rhy olau neu dywyll oherwydd eu bod wedi eu lliwio o’r blaen wrth roi’r lliw dros y gwallt i gyd.



*francesco*

Mae lliwiau bocs yn gallu bod yn fwy ffyrnig na lliwiau salon ac nid ydynt mor garedig i’r gwallt - gall ei sychu a’i niweidio.

Ond y cyngor gorau y gallaf ei roi yw i gysylltu gyda'ch cynllunydd gwallt arferol. Anfonwch neges atynt a ’dwi’n siŵr y byddent yn falch o helpu neu gynnig cyngor am gynnyrch tebyg i’r hyn rydych yn arfer ei gael. Ond yn bwysicaf oll, pan fyddwch yn gallu mynd yn ôl i’r salon cofiwch ddeud y gwir ynglŷn â pha liw y gwnaethoch ei ddefnyddio yn ystod yr argyfwng, i arbed adwaith rhyngddo â chynnyrch proffesiynol salon gwallt.

Ar y llaw arall, mae torri eich gwallt eich hun yn her wahanol iawn i liwio! Mae’n haws i rai efo gwallt hir ei glymu i fyny neu ei hel yn ôl o’r wyneb. Ond os yw eich gwallt yn fyr a’ch bod wedi arfer efo gwallt cwta mae’n siwr o fynd ar eich nerfau yn o fuan! Os ydech yn mynnu estyn am y siswrn, gwnewch yn siwr fod y gwallt yn sych am fod gwallt gwlyb yn ymestyn mwy ac yn



*francesco*



byrhau yn sylweddol wrth sychu! Felly torrwch ychydig ar y tro; mae’n haws torri mwy i ffwrdd, ond dwi’n dal heb ddod o hyd i’r fformiwla i’w roi yn ôl os ydych yn torri gormod! Fel arfer, y tu blaen sydd angen ei dorri, felly clipiwch weddill y gwallt o’r neilltu a chanolbwyntio ar y *fringe*. Daliwch y gwallt yn syth i lawr eich talcen ar bont y trwyn a thorri mymryn ar y tro - peidiwch â’i ddal allan ar ongl 90º (heb ordynnu na rhoi tensiwn, ond yn hytrach, yn llac neu bydd yn saethu fyny a bydd yn rhy fyr). Mae torri gwalltiau dynion beth yn haws gan y byddwch yn gallu defnyddio *clipper* gyda chribau sy'n glynu ’mlaen iddo. Sicrhewch fod y grib wedi clicio mewn i’w lle yn iawn, rhag ofn iddi ddod i ffwrdd tra yn torri a gadael rhan foel. Beth bynnag yw maint y grib, dyna hyd y gwallt fydd ar ôl ar y pen - eto ewch am grib fwy nag ydych eisiau ac mi aiff yn fyrrach wrth ei dacluso wedyn. Os ydych yn torri steil fyr o amgylch y cefn a’r ochrau a hirach ar y top, peidiwch â thorri'n rhy fyr yn uchel i fyny’r pen. Ni fyddwn yn argymell i chi dorri mwy na thua modfedd neu fodfedd a hanner yn uwch na’r glust er mwyn medru blendio’r top a’r ochrau i’w gilydd yn daclus.

Pan fydd salonau yn ailagor, peidiwch â chymryd atoch os bydd y salon yn gofyn i chi ddilyn canllawiau penodol. Maent hwythau yn gorfod cydymffurfio gyda rheolau llym e.e. bydd disgwyl i chi fynd i salon am driniaeth gyda gwallt glân, newydd ei olchi a hynny ar union amser eich apwyntiad (dim rhy fuan a dim munud yn hwyr), er mwyn ceisio lleihau niferoedd o fewn y salon ar yr un pryd. Efallai bydd yn rhaid i chi ystyried beth rydych yn ei gario gyda chi i’r salon hefyd, a dim ond mynd â lleiafswm o eiddo personol gyda chi. Ni fydd papurau newydd na chylchgronau yn y salon felly os byddwch yno am sbel, efallai yr hoffech fynd â rhywbeth i ddarllen efo chi. Ewch â diod hefyd, gan y bydd canllawiau llym ar gynnig paned neu ddiod oer ac oherwydd hyn ni fydd y ddarpariaeth ar gael gan rai sefydliadau. Byddwch yn barod i wisgo masg os gofynnir i chi wneud. Gwnewch yn siwr fod eich cerdyn gennych i dalu am eich triniaeth, gan na fydd rhai pobl yn derbyn arian parod. Amlinelliad ydi hyn o reolau y bydd yn rhaid i ni gydymffurfio â nhw a dwi’n siwr y bydd eich salon arferol yn eich hysbysu o’u cynlluniau gweithredu pan fydd sicrwydd gan y Llywodraeth am ddyddiad ailagor. Byddwch yn amyneddgar a pheidiwch â disgwyl i’r cynllunydd gwallt fedru gwneud pawb ar y diwrnod cyntaf yn ôl yn y gwaith! Yn y cyfamser, byddwch yn ofalus a chadwch yn saff. Edrych ’mlaen i wneud gwalltiau eto yn fuan...gobeithio!



*francesco*

# Dwyn i gof gyda Merfyn Tomos



## Dr Edward Jones (1834-1900), meddyg a dyn y werin bobl

**Ar droad y ganrif ddiwethaf bu farw'r Dr Edward Jones, Cae'rffynnon, meddyg teulu poblogaidd a wasanaethai nid yn unig y dref, ond ardal eang bryd hynny o Ddinas Mawddwy i Drawsfynydd, ac o Gorris i'r Friog. Ond nid meddyg yn unig mohono. Roedd yn ŵr amlwg ym myd gwleidyddiaeth ac ym mywyd cyhoeddus y dref a'r sir. Dr Edward oedd llywydd cyntaf y Gymdeithas Ryddfrydol Sirol a bu'n mentora T E Ellis, Aelod Seneddol carismataidd Meirionnydd a fu farw yn llawer rhy ifanc yn 1899 yn ddeugain oed.**



Ganed Edward Jones yn y dref ar 21 Ionawr 1834 yn fab i Hugh ac Anne Jones. Paentiwr a gwydrwr oedd ei dad yn ôl ei alwedigaeth ac fe'i magwyd yn Stryd Waterloo i ddechrau, cyn i'r teulu symud i rif tri Rhes Eldon ar y Stryd Fawr. Yn ŵr ifanc, derbyniodd ei addysg yn lleol yn yr hen ysgol ramadeg, eglwysig ym Mhenbryn, un arall o hen adeiladau'r dref sydd bellach wedi diflannu. Bu'n gweithio gyda'i dad am ychydig ond roedd yn fachgen deallus a'i fryd ar helpu'i gyd-ddyn a chafodd fwrw prentisiaeth gyda meddyg lleol - Dr Lloyd, Plas Brith yn y Lawnt. Ar ôl cyfnod o bedair blynedd, aeth ymlaen i ddilyn cwrs meddygol ym Mhrifysgol St Andrew's yn gyntaf, ac yna yn Glasgow.

Ar ôl iddo orffen ei gwrs, daeth yn ôl i'r dref gan sefydlu'i hun fel meddyg teulu. Priododd yn 1859 ag Anne Jones a bu'r pâr priod yn cartrefu ym Mhenbryn i ddechrau cyn iddynt symud yn 1872 i'w cartref newydd yn Heol Plas Uchaf, neu Stryd Newydd i hen drigolion y dref. Ac fel Doctor Edward, Cae'rffynnon y cafodd ei adnabod am weddill ei oes. Ganed saith o blant iddynt. Bu dau o'i feibion, John a Hugh Jones, hefyd yn feddygon yn y dref a bu mab arall yn dwrnai lleol, sef Rowland Guthrie Jones.

Roedd gan Edward Jones ddiddordeb byw mewn addysg. Yn yr 1870au roedd yn bleidiol iawn i'r Byrddau Ysgol Lleol a sefydlwyd gan Ddeddf Addysg 1870. Roedd hefyd yn gefn i'r ysgolion uwchradd. Bu'n is-gadeirydd ysgol arloesol Dr Williams i Ferched am flynyddoedd a bu'n amlwg iawn yn mynd â'r maen i'r wal er mwyn sefydlu'r ysgol ganolradd newydd i fechgyn yn y dref yn 1897, Ysgol y Jiwbili.

Cymerodd ran flaenllaw ym mywyd cyhoeddus y dref, ond hefyd y sir ac ymhellach. Pan ffurfiwyd Cyngor Sir Meirionnydd yn 1889, penodwyd ef yn Gadeirydd. Gwasanaethodd hefyd fel Ynad Heddwch poblogaidd. Roedd ganddo enw am ddangos cydymdeimlad tuag at y potsiar tlawd, yn aml yn erbyn dymuniad ei gyd-ynadon ar y fainc megis Richard Meredydd Richards Caerynywch a Hugh Reveley, Brynygwin. Ond, ar y llaw arall, gallai fod yn ddigon llawdrwm gyda'r meddwon. Roedd hyn yn adlewyrchu nid yn unig ei safbwynt fel meddyg ond ei gred fel blaenor anghydffurfiol agos at ei le.

Roedd yn ŵr cadarn yn ei benderfyniadau, rhywbeth nad oedd bob amser yn plesio pawb. Cefnogodd ddatblygiad achos Saesneg y Methodistiaid Calfinaidd yn y dref yn 1877, er enghraifft, a gadawodd Salem am gapel bach Seisnig Cae Tanws, y Theatr Fach erbyn heddiw.

Bu hefyd yn gadeirydd cwmnïau dŵr a nwy Dolgellau ac ymdrechodd i sefydlu'r llyfrgell rydd a agorwyd yn gyntaf yn Rhes Eldon yn 1893, cyn i'r adeilad pwrpasol sydd mor gyfarwydd i ni gael ei godi yn 1911. Roedd Dr Edward yn Gadeirydd y cwmni agorodd fynwent gyhoeddus yn y dref yn 1892 a chafodd ei rheoli gan Gyngor Dinesig Dolgellau o 1895 ymlaen. Yn ogystal, bu'n feddyg i gymdeithasau cyfeillgar y dref ac i Undeb Dolgellau, sef y corff a gynhwysai'r wercws. Roedd Dr Edward yn barod iawn i herio'r Bwrdd Lleol a'r Cyngor am beidio gwella safon iechyd a diogelwch yn rhannau mwy difreintiedig y dre, a allai arwain at achosion o golera a theiffoid. Yn wir, mae'n gwestiwn sut oedd ganddo'r amser i ddilyn ei alwedigaeth fel meddyg teulu.

Roedd Dr Edward yn ŵr arall a gyfrannodd yn hael i fywyd cyhoeddus y dref trwy ei ymdrechion i wella iechyd cyhoeddus ac i sicrhau fod plant y dref yn cael cyfle i dderbyn addysg o safon. Roedd ei gynhebrwng ym mynwent gyhoeddus Dolgellau ar 8 Chwefror 1900 yn un o'r rhai mwyaf a welodd y dref gyda miloedd yn ôl y sôn wedi dod i dalu'r gymwynas olaf i'r gŵr hoffus a fu'n eu gwasanaethu - gan gynnwys O M Edwards a gwŷr amlwg eraill, a darllenwyd teyrnged iddo gan Lloyd George.


## Clock Lodge, Lodge Garth Bleuddyn neu Lodge Coed y Moch

**Derbyniwyd gwybodaeth gan un o'n darllenwyr cyson, ar ôl sylwi ar yr enw *'Clock Lodge'* wrth gyfeirio at y tŷ sy'n gysylltiedig â Nannau ac sydd ar ochr y ffordd ar y chwith wrth deithio i fyny i Lanfachreth. Yr enw gwreiddiol mae'n debyg yw 'Coed y Moch' er fod nifer ohonom yn defnyddio'r enw *' CLOCK LODGE'.***

Felly dyma holi ein colofnydd a'n hanesydd lleol, Merfyn Tomos am ei ymateb.

Meddai Merfyn-

"Dwi wedi clywed Lodge Garth Bleuddyn yn ogystal â *Clock Lodge. Lodge* Coed y Moch sy'n cael ei arfer yn swyddogol. Mae Coed y Moch tu cefn i'r adeilad ac mae'n debyg y gyrrwyd moch yno ers talwm i fwyta mes, er enghraifft. Y term Saesneg am hyn ydy *pannage*."




Er chwilio yng ngeiriadur yr Academi nid oedd y gair *pannage* yno. Ond mae'n debyg doedd hynny ddim yn poeni'r moch!


Cacennau Cíl y Coed



**Cacennau at bob achlysur**

**Yn awr yn cynnig archebion gyda cludiant a post**

**Ffoniwch am wybodaeth**

**Eirian Wyn Thomas**
**cilycoed1@btinternet.com**
**01341 422978 / 07951211142**
**FB - Cacennau Cil y Coed**
**Cil-y-Coed, Brithdir.**
**Sgôr hylendid bwyd - 5**

## Gwasanaeth Llyfrgell ar fin ei adfer yng Ngwynedd

**Bydd pobl Gwynedd yn gallu archebu eitemau newydd i’w darllen a dychwelyd eu llyfrau llyfrgell yn fuan, dan gynllun adfer gwasanaethau llyfrgell y Cyngor.**

Model newydd 'archebu a chasglu' fydd y gwasanaeth hwn yn y lle cyntaf ac mae disgwyl y bydd y system yn weithredol o ddechrau mis Gorffennaf.



Bydd gofyn i unrhyw un sydd eisiau benthyg llyfrau neu eitemau eraill gysylltu gyda’r llyfrgell i’w harchebu, neu archebu trwy’r catalog ar-lein yn y ffordd arferol. Bydd y llyfrgell wedyn yn cysylltu gyda’r defnyddwyr pan fydd yr eitemau yn barod i’w casglu, a threfnu amser ar gyfer gwneud hynny. Y bwriad fydd i ddefnyddwyr ddychwelyd eitemau trwy focsys fydd y tu allan i bob llyfrgell fydd wedi ail-agor.

Meddai’r Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sydd â chyfrifoldeb am lyfrgelloedd: “Rydan ni’n falch iawn o allu cadarnhau ein bwriad ar gyfer ail-gyflwyno elfen o’r gwasanaeth llyfrgelloedd yn fuan.

“Mi wyddom fod llyfrau yn cynnig cysur arbennig i bobl o bob oed, ac felly mae’n bwysig ein bod yn gallu dechrau’r daith at gyflwyno’r gwasanaeth mewn modd newydd yn cynnwys y Gwasanaeth Cludo i’r Cartref ar gyfer rheini sydd methu casglu o’r llyfrgelloedd.

“Yn amlwg, diogelwch defnyddwyr a staff ydi’r flaenoriaeth, a bydd ein llyfrgelloedd yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar sut i drin llyfrau llyfrgell, er mwyn helpu diogelwch a llesiant pobl.

“Byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion am yr union drefniadau yn fuan, ac mae’n bwysig fod trigolion yn deall na fydd modd i ni ailagor adeiladau Llyfrgell i’r cyhoedd yn y dyfodol agos. Ond rydan ni’n gobeithio y bydd y trefniadau newydd fydd ar waith o'r mis nesaf ymlaen yn cynnig cam yn ôl tuag at normalrwydd ar gyfer y rhai o bobl Gwynedd sy’n gwerthfawrogi ein gwasanaeth llyfrgelloedd.”

Ar gyfer y sawl sy’n methu ag ymweld â’u llyfrgell i gasglu eitemau - am ba bynnag reswm - bydd modd archebu ar gyfer eu cludo i’r cartref. Bydd y Cyngor yn cynnig y gwasanaeth hwn i unrhyw un drwy Wynedd sydd ei angen. Bydd staff hefyd yn cysylltu gyda defnyddwyr y Gwasanaeth i’r Cartref presennol, er mwyn cychwyn ymweld â defnyddwyr presennol unwaith yn rhagor.

Mae modd archebu ystod o ddeunyddiau gan y Gwasanaeth Llyfrgell, yn cynnwys llyfrau Print Bras a Llyfrau Llafar, yn Gymraeg a Saesneg. Bydd y Cyngor hefyd yn trefnu i ddosbarthu Pecynnau Dechrau Da i deuluoedd babis a phlant bach. Mae Bag Books hefyd ar gael, sy’n wych ar gyfer rhoi profiad stori aml-synhwyraidd, ac sy’n addas i ddefnyddwyr gydag anawsterau neu anableddau dysgu. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd mae DVDs ar gael yn rhad ac am ddim, ac nid yw’r gwasanaeth yn codi dirwyon ar unrhyw eitem chwaith.

Bydd mwy o wybodaeth am y gwasanaeth newydd hwn yn cael ei gyhoeddi’n fuan, gyda manylion llawn am sut i gysylltu gyda’r Gwasanaeth Llyfrgelloedd.

Cofiwch hefyd bod modd i chi ymaelodi gyda Llyfrgelloedd Gwynedd i fenthyg e-lyfrau ac e-lyfrau llafar yn ogystal ag e-gylchgronau, yn Gymraeg a Saesneg, a hynny yn rhad ac am ddim drwy www.gwynedd.llyw.cymru/llyfrgell

Mae llyfrgelloedd ar draws gogledd Cymru yn ymrwymo i ail-gyflwyno gwasanaethau llyfrgell gam wrth gam dros yr wythnosau nesaf yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Bydd gwasanaeth ‘Archebu a Chasglu’, a Gwasanaethau Llyfrgell Cartref, ar gael ar draws y rhanbarth erbyn dechrau Gorffennaf.


CYFREITHWYR SOLICITORS

GUTHRIE JONES & JONES

01341 422 604 dolgellau@guthriejj.co.uk

Yr ydym yn cynnig ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys:

- Trawsgludo preswyl a masnachol
- Ewyllysiau a phrofiant
- Cyfraith tir ac amaethyddiaeth
- Anghydfodau a hawliau cyfreithiol
- Cyfraith gyflogaeth
- Cyfraith teulu, plant ac ysgariad.

# FWAG

**Yn ystod y cyfnod arswydus yma, mae'n anodd darganfod elfennau positif i godi calon a gobaith i'r dyfodol . Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod llawer ohonom wedi cael tipyn mwy o amser i feddwl dros beth sy'n bwysig mewn bywyd drwy ganolbwyntio ar ein hiechyd ein hunain, ein teuluoedd, ffrindiau ac yn y blaen.**

Un o'r elfennau sy'n dod i'r amlwg yw bod nifer o bobl wedi meddwl yn fwy manwl am beth maent yn ei fwyta ac o ble mae'r cynnyrch yna yn dod. Gall hyn fod yn newyddion da i ffermwyr, cynhyrchwyr a darparwyr bwyd drwy Gymru. Mae pobl yn ystyried beth sydd orau i'w sustem imiwnedd ac yn gwerthfawrogi bwyd ffres ac o safon gyda'r holl faetholion yn dal ynddo. Mae problemau cludo a chyflenwi bwyd a nwyddau eraill wedi dod i'r amlwg yn ystod y pandemig a phobl yn dechrau sylweddoli unwaith eto bod cynnyrch a chyflenwad lleol yn bwysig dros ben.



*Meillion coch*

Mae llawer mwy o goginio cartref yn mynd ymlaen a hefyd garddio i dyfu llysiau a ffrwythau. Mae hyn yn naturiol, yn meddwl bod pobl â dealltwriaeth well o'r ymdrech sydd yn mynd i mewn i gynhyrchu bwyd a gallent gydymdeilo'n arw efo ffermwyr pan mae pethau fel cyfnod o rew caled annisgwyl yng nghanol mis Mai yn effeithio ar eu cnwd tatws, er enghraifft. Mae'n amlwg bod pobl yn gyffredinol yn poeni'n arw am gytundebau masnachol mae'r Llywodraeth yn Llundain yn siarad amdanynt gyda Unol Daleithiau America.



*Pys y ceirw*

Golyga hyn y byddant yn caniatáu cig, llysiau ac yn y blaen ddod i mewn i'n gwlad sydd wedi'i gynhyrchu o dan reolau sydd â safonau iechyd anifeiliaid ac amgylcheddol llawer iawn is nag sydd yma.



*Clychau'r gog neu buches-y-gog; a drain gwynion*

Y dyddiau hyn mae hyd yn oed pobl y trefi a'r dinasoedd wedi sylweddoli pa mor bwysig yw byd natur, glesni, awyr iach ac yn y blaen i'n



*Plu'r gweunydd*

hiechyd meddwl – hyn yn rhywbeth hollol amlwg i bobl cefn gwlad; mor amlwg efallai bod ni'n cymryd hyn yn ganiataol a byth yn tynnu sylw ato? Da yw gweld pobl yn cerdded a beicio mwy yn eu milltir sgwâr ac yn cymryd cymaint o sylw o'r tirlun, anifeiliaid fferm, byd natur, llefydd hanesyddol ac yn y blaen. Soniwyd llynedd am *"No Mow May"*/ "Dim torri yn ystod mis Mai" ac eto eleni mae cyrff fel Plantlife wedi bod yn annog pobl i beidio â thorri lawntiau yn ystod mis Mai er mwyn i flodau gael cyfle i flodeuo a hadu. Hefyd bydd annog pobl i adael llonydd i blanhigion fel dant y llew gan bod hwn yn un o'r planhigion mae gwenyn yn dibynnu arno fel ffynhonnell neithdar yn y gwanwyn pan nad oes fawr arall ar gael fel bwyd iddynt. Da yw gweld carped o feillion coch *(red clover)* yn cael llonydd ar ochr y ffordd fawr rhwng Dolgellau a Llanelltyd ac yn yr un modd, pys y ceirw *(bird's-foot trefoil)* ar hyd llwybr Mawddach.



*Carpiog y gors neu blodau'r brain*



*Iris felen*

Drwy gerdded yn hamddenol o gwmpas, ceir cyfle i werthfawrogi gwaith ffermwyr, nid yn unig yn magu anifeiliad o safon ond hefyd yn edrych ar ôl byd natur. Yma ceir enghreifftiau o gynefinoedd pwysig yr ardal a'r planhigion sydd yn tyfu ynddynt.


J S Jones IFA Ltd

Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol

Ffôn: 01341 423500
Ffacs: 01341 423113
E-bost: jjones7665@aol.com

6 Rhes Eldon, Sgwâr Eldon,
DOLGELLAU, LL40 1PY

Mae J S Jones IFA Cyf wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

# Cyngor Gwynedd yn gwarchod bywyd gwyllt ymyl ffordd

**Mae Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno newidiadau i'w dull o ymdrin ag ymylon ffyrdd yn y sir er mwyn gwarchod a hybu bioamrywiaeth.**

Meddai'r Cynghorydd Catrin Wager, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros Briffyrdd a Bwrdeistrefol: "Yn ôl adroddiad diweddar mae 41% o rywogaethau Cymru wedi gweld lleihad yn eu poblogaeth ers y 70au, ac mae 8% o'n rhywogaethau yn wynebu cael eu colli am byth (https://nbn.org.uk/stateofnature2019/).

"Mae gwarchod amgylchedd a rhywogaethau arbennig ein sir yn



bwysig. Drwy newid y ffordd yr ydym yn rheoli'r tyfiant ar ochr ein ffyrdd, gallwn gael dylanwad positif ar fioamrywiaeth.

"Mae'n bosib i ymylon ffyrdd weithredu fel coridorau o gynefinoedd pwysig i gefnogi bob math o greaduriaid; o famaliaid bychain i wenyn a gloÿnnod byw."

Yn draddodiadol, mae tuedd wedi bod o dorri ymylon ffyrdd yn gynnar yn y gwanwyn sydd yn cael effaith ar eu gwerth fel llecynnau i gefnogi ein bioamrywiaeth. Eleni, bu oedi yn y toriad cyntaf, sydd yn rhoi cyfle i blanhigion flodeuo a hadu cyn torri'r gwair. Mae hyn yn hybu twf mewn blodau gwyllt, sydd nid yn unig yn edrych yn dlws, ond sydd hefyd yn ffynhonnell fwyd a chynefin i nifer o rywogaethau.

Lle mae'n bosib, bydd y toriad cyntaf yma ond yn ymestyn 1 fedr o'r ffordd, gan adael y gweddill fel cynefin. Bydd toriad llawn yn ystod diwedd yr haf / hydref unwaith mae'r blodau gwyllt wedi hadu ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Fel rhan o'r ymgais i hybu bioamrywiaeth ar ochr ein ffyrdd, bydd y Cyngor hefyd yn lleihau ar ei ddefnydd o chwynladdwyr ac edrych ar ddulliau gwahanol o reoli tyfiant a chwyn.

Meddai Lea Connelly, Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd: "Mae'r coridorau yma mor bwysig i fioamrywiaeth Gwynedd. Mae'r blodau gwyllt yma nid yn unig yn hardd i'w gweld ar ochor y ffordd, ond yn ffynhonnell bwysig o fwyd i wenyn a pheillwyr eraill. Maent yn cefnogi cymaint o wahanol greaduriaid a phlanhigion ac yn cysylltu cynefinoedd gyda'i gilydd."

Meddai Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd: "Mae hwn yn gam mawr o ran hybu bioamrywiaeth ein sir, ac rwy'n falch ein bod yn gweithredu ar hyn. Wrth gwrs mae hefyd yn bwysig fod ein ffyrdd sirol yn saff, ac felly



mae'n werth nodi y bydd trefniadau gwahanol mewn lleoliadau megis cyffyrdd, ger rhai cylchfannau ac mewn lleoliadau lle mae llwybrau cerdded."

Ychwanegodd y Cynghorydd Wager: "Mae wedi bod yn hyfryd gweld blodau gwyllt ar ein ffyrdd dros yr wythnosau diwethaf, gan wybod eu bod nid yn unig yn edrych yn dlws, ond hefyd yn cefnogi pob math o fywyd gwyllt. Rwy'n gobeithio y bydd trigolion y sir yn cytuno y bydd y trefniadau newydd yn llwyddo i gadw cydbwysedd rhwng gwarchod natur arbennig ein sir, a chadw defnyddwyr ein ffyrdd yn ddiogel."

Bydd cefnffyrdd a mannau trefol, ble mae cyfyngiad 30 neu 40 milltir yr awr hefyd yn gweld patrymau torri gwahanol.

Mae'r drefn eisoes wedi dechrau yn ardal Dwyfor a bydd yn dechrau yn Arfon a Meirionnydd tua chanol mis Mehefin. Mae torri ymylon cefnffyrdd wedi dechrau ym mhob ardal ers dechrau Mehefin.

# Hybu Cig Cymru

**Mae'r argyfwng Covid-19 wedi bod yn newid byd i'r diwydiant cig coch, fel pob sector arall bron.**

Fel gweithwyr allweddol, bu cynhyrchwyr bwyd yn parhau i weithio wrth gwrs, a'u cyfraniad yn fwy pwysig nag erioed – o ffermwyr i weithwyr prosesu a siopwyr. Bu'r martiau ar agor hefyd, ond fel ym mhob man arall gyda newidiadau o ran patrwm gwaith a rheolau i rwystro lledaeniad y feirws.

O ran Hybu Cig Cymru bu'n gyfnod heriol, ond mewn ffordd, un tra gwahanol i'r arfer. Mae staff yn gweithio o gartref, ac yn lle cynnal digwyddiadau hyrwyddo a mynychu ffeiriau masnach mae'r pwyslais wedi symud i greu cynnwys ar gyfer hysbysebu radio, papurau newydd a'r cyfryngau cymdeithasol.

A mawr oedd yr angen am hyrwyddo'n cynnyrch, wrth i'r mesurau i atal Coronafeirws arwain at gau gwestai, tai bwyta, tafarndai a gweithleoedd – cyrchfannau pwysig iawn ar gyfer cig oen ac eidion, ac yn enwedig felly'r toriadau mwy drud sydd mor bwysig i gydbwyso gwerthiant y carcas.

Y dasg felly yw perswadio cwsmeriaid i brynu stêcs a darnau rhostio ac i roi cynnig ar goginio prydau tai bwyta yn eu cartrefi.

Mae'r cymorth wedi dod gan gogyddion a fu'n helpu creu fideos yn eu ceginau gartref i roi ysbrydoliaeth – gyda *chefs* mor amrywiol â Bryn Williams a Chris Roberts yn ceisio tanio'r dychymyg.

Buon ni'n cymryd rhan mewn ymgyrch debyg ar y cyd ar draws Prydain hefyd, ac mae'r canlyniadau hyd yn hyn wedi bod yn addawol, gyda chynnydd sylweddol ym mhryniant stêcs yn ail hanner y gwanwyn mewn archfarchnadoedd a siopau cigydd lleol.

Dydy'r peryg ddim wedi pasio i'r diwydiant cig coch. Araf deg y bydd y sector arlwyo yn ailagor, yma ac yn Ewrop, felly bydd angen i ni barhau i ysbrydoli'r cyhoedd i fwynhau ryseitiau newydd o Gig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru a dibynnu ar gefnogaeth y cwsmer i fwyd lleol o safon.





Llygad y Dydd MEHEFIN 2020

# O ben Marian Llwyd

**Ffaith o'r Chwedegau**

**John Fitzgerald Kennedy (1917-63), Arlywydd yr Unol Daleithiau rhwng 1961-3, yr ieuengaf i'w ethol a'r arlywydd Catholig cyntaf. Yn adnabyddus yn fyd-eang, yn rhoi ymdeimlad o bwrpas i drigolion America wrth wynebu oes wyddonol, gwrthwynebai hiliaeth. Cynhaeaf ei bolisi tramor oedd Rhyfel Fietnam. Cafodd ei lofruddio, a hefyd ei frawd, Robert, pan oedd hwnnw'n ymgyrchu i gael bod yn arlywydd yn 1968.**

**Ffaith arall**

Martin Luther King (1929-68) - gweinidog yn America a gŵr oedd yn gwrthwynebu hiliaeth. Cyflwynwyd Gwobr Nobel Heddwch iddo am hybu yn ddieithriad ddulliau di-drais wrth brotestio, gan ymdrechu i ennill hawliau sifil i'r gorthrymedig tywyll eu croen. Lladdwyd ef ym Memphis, Tennessee yn 1968.

**George Floyd**

Do, bu farw cyn bod yn hanner cant oed, a rhan helaeth o boblogaeth y byd yn gwylio. Does dim modd cuddio drwgweithredu yn nyddiau'r cyfryngau cymdeithasol - mae ychydig fodfeddi o blastig yn medru ffilmio sŵn a llun.

A dyma ni, yn ôl yn y Chwedegau. Does dim wedi newid, a chymaint o ragfarn a chamwri ag erioed. Ydan ni'n well pobol? Choelia i fawr!

**Rhagfarnau eraill**

Hawliau merched - cyflogau cyfartal? Ynteu cytundebau byrion a chuddio'r gwir? Mae llawer o le i wella.

Rhagfarn oed - Pawb dros 70 i hunan-ynysu? Wel, o leiaf mae'r criw yma'n cofio sut i 'ymdopi' cyn y Chwedegau a'r 'bywyd moethus', ac yn ddigynnwrf o'r herwydd. Ond mae pawb yn crygu wrth ganu 'Pen-blwydd hapus!" - hyd yn oed i'r gath a'r ci! Oes felly ydi hi.

**Statws i'r Iaith**

Pobol yn mynd i'r carchar yn y Chwedegau? Dros yr iaith? Do, ddegau ohonyn nhw - ac yn ddiweddarach, hefyd. Cafodd y Gymraeg statws cyfartal, ond sigledig ydi'r sefyllfa o hyd ac un o'r ieithoedd sy'n dirywio ydi hi, er gwaethaf ymdrechion di-ildio unigolion, athrawon a chymdeithasau.

**Pa obaith, felly?**

Gwelwyd arwyddion gobeithiol yn ystod cyfnod y pla Corona -feirws diweddaraf, ac arwyddion fod Dyn yn sobri ac yn ymroi i ddelio'n greadigol â'r sefyllfa, greda i. A chafwyd hoe i ddysgu ychydig mwy am y blaned hon.

**Y ffordd ymlaen**

Trwy ddysgu sut i fyw hefo'r salwch y mae ei goncro, mae'n debyg. (Ac mae'n rhaid rhoi 'os' yn y frawddeg, yn rhywle.) Ond y neges a gawn yw "addaswch eich ffordd o fyw - a hynny'n sydyn" . (Ac mae'n rhaid rhoi "neu" bygythiol yn y frawddeg yna, hefyd.)

**Mor lwcus oeddem**

Pan oedd myfyrwyr y Chwedegau yn mwynhau addysg am ddim trwy gyfrwng grantiau, byddai rhai darlithoedd ar gampws Coleg y Brifysgol, Bangor yn cael eu dangos i fyfyrwyr trwy gyfrwng teledu mewnol os oedd dau bwnc yn gwrthdaro ar yr amserlen. (Doedden' nhw'n' flaengar', deudwch?) Gwrando ar y teledu roeddech chi, cofiwch, a'r darlithydd yn ei ŵn du o'ch blaenau. A darlithiai mewn un iaith bwyllog, er mwyn i chi glywed a deall. Dim is-deitlau, hyd y cofiaf, ond pe byddai'r rheiny'n rhan o'r system, gallaf eich sicrhau y bydden nhw wedi bod mewn Cymraeg neu Saesneg cywir, heb gymysgu'r ddwy iaith! Da gweld fod y teledu'n cael ei ddefnyddio i ddiwyllio ac addysgu gwrandawyr, erbyn hyn, yn lle 'diddanu' yn ddiddiwedd!

# Y Diweddar Fred Rees Williams

**Teyrnged Y Parch Iwan Llewelyn Jones**

**Collwyd Fred o'n plith ar y 26ain o Fai, 2020 yn 85 mlwydd oed, ac ar fore Llun y cyntaf o Fehefin daeth aelodau o'i deulu ynghyd i Fynwent Tabor i ddathlu ei fywyd, a'r gwasanaeth o dan ofal ei Weinidog, y Parch Iwan Llewelyn Jones.**

Roedd Fred yn un o unarddeg o blant, a phob un wedi dilyn eu llwybr eu hunain. Felly Fred. Bydd llawer ohonom yn ei gofio'n gweithio am flynyddoedd fel gofalwr yng Ngholeg Meirionnydd, a chyn hynny, yn Ysgol Dr Williams, a chyn hynny roedd ar staff Y Glyn. Pe byddai rhywun yn ceisio dod o hyd i ansoddeiriau i ddisgrifio Fred - dyma nhw: cymwynasgar, bonheddig, triw. Roedd yn arbennig o driw i'w ffrindiau, bob amser yn gwrtais tuag at bobl eraill, ac yn fwy na pharod i roi ar bob achlysur.

Roedd o hefyd yn ŵr oedd a chryn dipyn o ddiddordebau. Cai'r ardd sylw manwl ganddo; cai'r ceir sylw manylach wedyn oherwydd roedd ei geir bob amser yn lân a phopeth yn ei le ynddyn nhw. Roedd gweld ceir Fred yn codi cywilydd ar amryw ohonom! Roedd ganddo hefyd ddawn gerddorol, yn arbennig ei ddawn i chwarae organ geg *(mouth organ)*, ac yn medru rhedeg i fyny ac i lawr y graddfeydd cerddorol ar honno'n hollol ddi-drafferth, a'r un pryd yn medru defnyddio'i glust i godi gwahanol alawon, ac eraill yn cael mwynhad o wrando arno.

Roedd Fred y ddyn diddorol. Mae yna fwlch ar ôl pobl fel hyn; bwlch mewn cymdeithas a bwlch mewn teulu. Estynnwn i Eirlys ac Emlyn, y ddau o'r un ar ddeg sydd ar ôl, ein cydymdeimlad dwysaf, a diolchwn i Dduw am fywyd Fred.


Siop, Caffi, Swyddfa Bost, Papurau, Siop Drwyddedig a Phetrol

a Llygad y Dydd

Garej


**Mallwyd**

Ar agor o 7:30yb - 7:00yh

Bwyd da am bris rhesymol

8:00yb—5:00yh

Ffôn: 01650 531210




Cyflenwyr ffrwythau a llysiau ffres, o safon

Neuadd Idris, Sgwâr Eldon, Dolgellau, LL40 1FY

Ffôn: 01341 423484

Siop, Hufen iâ, Papurau, Petrol

a Llygad y Dydd

**Cwt Gwyn**

ORIAU NEWYDD

Llun - Gwener

07:30yb hyd 1:30yp

Sadwrn a Sul

08:00 hyd 1:00yp

Ffôn: 01341 422828

# Colofn Natur Rhys Gwynn

**Mae'n siwr y bydd nifer ohonoch wedi sylwi mwy eleni ar liwiau a phatrymau, arogleuon a theimlad y byd naturiol o'n cwmpas – mae wedi bod yn gyfnod i ailddarganfod y synhwyrau y mae bywyd beunyddiol yn tynnu'r min oddi arnynt. I mi, yn aml nid lliw amlwg creaduriaid ond yn hytrach eu cuddliw yw un o'r rhyfeddodau mwyaf.**

Fe ddisgrifiodd John Clare, y bardd gwlad o swydd Northampton (y swydd y gyrrwyd miloedd o wartheg Meirionnydd iddi gan borthmyn ers talwm), dyn sylwgar o'i gynefin fel ein Dic Jones ni ond ddim mor athrylithgar, yr ysgyfarnog fel hyn – fel talp o bridd na chyffyrddwyd gan bigau'r og. Dweud syml ar un olwg, ond y math o ddweud na fedrai dim ond rhywun a gafodd y profiad o syllu dros gae wedi ei aredig ei fynegi, a dim ond symudiad lleiaf ysgyfarn (yr hen air am glust) yn bradychu presenoldeb y ceinach (gair arall am ysgyfarnog). Bydd llawer ohonoch yn gyfarwydd â'r teimlad yna o syndod o fod wedi methu gweld creadur oedd yna o dan eich trwynau, boed lwynog yn gorwedd mewn rhedyn cringoch neu elain bwchadanas *(fallow deer fawn)* yn diflannu yng nghysgodion smotiog dail y fedwen.

Ond i mi, ymhlith teulu'r gwyfynod y gwelir cuddliw ar ei anterth. Yn wir mae un gwyfyn, y Gwyfyn brith *(Peppered moth)*, yn ganolog i ddatblygiad theori fawr esblygiad Darwin a'r Cymro Alfred Russell Wallace o Frynbuga, Gwent. Cyn y chwyldro diwydiannol, gwyfyn golau ei liw oedd hwn, yn ymdoddi'n llwyddiannus i liwiau'r cen ar y coed. Gyda dyfodiad llygredd y chwyldro, fe newidiodd lliw'r gwyfyn i fod yn bygddu, y cuddliw newydd yn erbyn y budreddi oedd yn gorchuddio pob arwynebedd, ac a fyddai wedi lladd y cen ar y coed. Y gwyfynod yn y boblogaeth oedd yn naturiol flewyn yn dywyllach, oedd y gorau am osgoi sylw'r adar o dan yr amodau hynny, ac a lwyddai felly i oroesi i genhedlu. Dyna ydy hanfod y dethol naturiol – *natural selection*, sydd wrth wraidd esblygiad. Drwy ailadrodd y broses yna dros sawl cenhedlaeth, y genynnau oedd yn rhoi cyfarwyddiadau am adenydd tywyll ddaeth i oruchafu yn y boblogaeth. Bellach, wedi cyfnod y diwydiannau trwm, mae'r gwyfynod yn troi'n oleuach eto. Tybed ai tra'n aros ym Mhlas Caerdeon, Bontddu, y bu Darwin yn cnoi cil ar y pethau yma?



Mae'n hawdd denu gwyfynod er mwyn rhyfeddu at eu lliwiau drwy hongian lliain gwyn mawr ar lein ddillad a disgleirio golau cryf arno wrth iddi dywyllu ar noson gynnes. Dydy'r syndod o weld y creaduriaid anhygoel yma'n ymddangos o'r tywyllwch yn eu holl ogoniant byth yn pylu. Rhowch gynnig arni. Dyma un enillai wobr gyntaf am guddliw yn fy marn i – y Blaen brigyn *(Buff tip)*. Mae'n anhygoel mor debyg yw hwn i hen frigyn bedwen wedi torri. Fedrwch chi ei weld yn y llun tybed?

Wrth gwrs, y mae rhai creaduriaid wedi mynd i gyfeiriad cwbl groes – yn llachar eu lliw neu'n swnllyd fel rhybudd eu bod yn wenwynig neu'n blasu'n ddrwg, fel ambell wleidydd efallai!

# Yr Ardd



**Gan fod gennym amser ar ein dwylo y dyddiau yma beth am fynd ati i greu silff bwrpasol ar gyfer planhigion mewn potia. Yn y llun fe welwch enghraifft o be mae Jon y gŵr wedi'i gynllunio ar gyfer ei Auriculas. Cafodd y syniad wedi i ni ymweld â Calke Abbey yn swydd Derby (gweler safle we'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol) lle mae theatr Auricula urddasol i'w gweld.**



Pwrpas y theatr yw arddangos y planhigion ar eu gora'. Yn wreiddiol cafodd Auriculas eu bridio o dri math gwyllt o primula a 400 mlynedd yn ddiweddarach mae miloedd o hybridau gwahanol ar gael. Er mwyn arddangos y blodau a'r dail sydd â *farina* llwyd arnynt (powdwr fel blawd sy'n cael ei ddifetha gan ddŵr) ar eu gora' mae'n rhaid eu diogelu rhag y gwynt a'r glaw. Hefyd nid ydynt yn ddioddefgar o dywydd poeth a sych. Felly dyma darddiad y theatr- i rhoi iddynt yr amodau sy'n ffafriol ar gyfer eu tyfu a'u harddangos.

Felly sut mae mynd ati i greu theatr neu set o silffoedd?

**Beth fydd ei angen:**

- Coed addas
- Paent
- Potia *terracotta* neu blastic (*terracotta*'n edrych yn well)
- Dril a scriws
- Wal neu ofod priodol
- Planhigion
- Plwm neu bren i roi gorffeniad i'r to

**Beth i'w wneud:**

1. Dechra drwy fesur y gofod sydd ar gael (yn y llun gweler ein bod wedi gorchuddio hen ddrws sied).
2. Penderfynu sawl silff fydd yn ffitio'r gofod dan sylw.
3. Penderfynu beth fydd uchder bob silff (mae hyn yn ddibynnol ar eich dewis o botiau).
4. Torri'r pren i'r maint priodol.
5. Defnyddio scriws i ddod â'r silff at ei gilydd.
6. Mesur a gosod y to.
7. Unwaith y bydd y silff yn gyflawn, ei phaentio.
8. Gosod y silffoedd yn eu cartref newydd gan ddefnyddio scriws i'w gwneud yn ddiogel.
9. Llenwi'r silffoedd gyda phlanhigion addas.

Drwy ddewis eich blodau'n ofalus fe allwch gael arddangosfa dros gyfnod hir. Dechra' er enghraifft gyda bylbiau'r gwanwyn megis Cyclamen, Eirlysiau a Chenin Pedr. Yna Auriculas, Geraniums, Osteospermums a Rhodohypoxis i ymestyn y tymor blodeuo. Chi biau dewis beth nesa!

Byddaf hyd yn oed yn gosod potia gwag ar y silffoedd dros y Nadolig ac yn eu hamgylchynu gydag addurniadau Nadoligaidd. Mwynhewch!

***Shân Lea***

# Y Golofn Farddol

**Mae'r Gofid Mawr, sy'n ddisgrifiad mor dda o argyfwng Covid-19, yn effeithio ar bob rhan o'n bywydau, ac er bod rhai'n ddigon prysur yn ei ganol mae eraill yn eu segurdod anorfod wedi troi at ddiddordebau newydd fel garddio, crefftau neu farddoniaeth. Yn wir, efallai bod rhai ohonoch wedi gwrando ar Dalwrn y Beirdd am y tro cyntaf eleni?**

Cyn i gyfyngiadau'r cyfnod dan-glo ddod i rym ym mis Mawrth, a thymor y Talwrn wedi hen gychwyn, cynhaliwyd gornest gyntaf tîm Gwylliaid y Llew Coch a Thegeingl yn Llanrwst fis Chwefror, ac i mi mae thema gyffredin yn gweu drwy'r detholiad isod o dair cerdd, sef dianc neu fethu â dianc, rhywbeth y gallwn i gyd mae'n debyg uniaethu â fo mewn gwahanol ffyrdd ar hyn o bryd. Testun y cywydd oedd "Festri", ac i Tegwyn Pugh Jones, y ffarmwr o Fallwyd, ei festri ef yw ffriddoedd a bryniau ei gynefin lle mae'n gallu dianc ac anghofio'r byd a'i helyntion -

***Y Festri***

*Af drwy'r ffridd, af i dir ffraeth*
*i wisgo fy nghynhysgaeth,*
*diosg y byd, sgubo baw*
*heddiw, eistedd; mae'n ddistaw*
*i'm henaid grwydro'r mynydd,*
*i gael uwch fy mawnog gudd*
*oriau byw; ffoi o'r buarth*
*magu ŵyn, anghofio'm gwarth;*
*yma bwyda'r dychymyg*
*a chael gras yng nghochliw grug.*
*O'm capel rhaid dychwelyd*
*Drwy'r sgwâr budr i wisgo'r byd.*

Testun y delyneg yn yr ornest hon oedd "Diogelwch" (heb fod dros 18 llinell) ac yn y gerdd isod mae Mari Lisa'n sôn am fam a'i merch fach yn aros am drên i'w cludo i un o wersyll-garcharau y Natsïaid yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac artaith y fam ar y tu allan yn meddwl am ei phlentyn yn wynebu ei marwolaeth yn y siambr nwy -

*Gafaelais yn dy law ar y platfform*
*rhag iti ddiengyd, neu ddisgyn neu gael*
*dy ddamsang.*

*Gafaelais yn dy law*
*fel y gafaelais ynddi pan sefaist ti yn y*
*bath y tro cyntaf*
*(roedd yn gas gen ti wlychu dy wallt)*
*a'r diwrnod cyntaf yn yr ysgol,*
*a'r synagog,*
*a bob tro wrth groesi'r ffordd,*
*ac o dan y llygaid meinion yn y siop,*
*ac yn nos y stormydd gwydr.*

*Ac yna, y mis Ionawr hwnnw, gafaelais yn*
*esgyrn fy nyfodol*
*y tu hwnt i'r arbeit macht frei,*
*gan wybod y byddai fy myw*
*yn fy maeddu, yn fy maglu, yn fy mhwnio*
*hyd y dydd na fydd*
*ac yn fy holi, holi, holi, o hyd*
*tybed, afaelodd rhywun yn dy law*
*pan gefaist ti gawod?*

Yn nhelyneg Alun 'Cefne' Jones, ffarmwr arall o ochrau Llanfyllin (mae timau'r Llew Coch yn llawn o ffarmwrs!), mae'n sôn am lwynoges a'i chenawon yn dianc rhag cŵn yr helfa –

*Cododd sŵn y cŵn o ddistawrwydd y cwm*
*yn gresendo bygythiol;*
*a throdd ei sylw at y c'nawon,*
*yn chwarae dan yr haul.*

*Anelodd, unwaith eto,*
*am ddyfnder y goedwig ddu osodwyd gan*
*ddyn*
*ond a fyddai, am y tro,*
*yn lloches iddi ohono.*

*Diflannodd y miri i gyfeiriad y ffridd,*
*a sleifio wnaeth a'i theulu bach*
*dros garped o nodwyddau mân*
*at fan a adnabu o'r blaen,*

*a chael yno hedd o'r helynt—*

*hyd ni chlywai bellach*
*ond murmur diderfyn y nant,*
*a bref dafad am ei hoen.*

Tan tro nesa'

***Gwerfyl***











# Dysgwyr y Mis

## Dafydd a Maggi Bebb



**Mi gaeth Dafydd ei fagu yng Nghastell Caereinion ger Y Trallwng yn ystod y rhyfel a magwyd fi, Maggi, yn Llundain. Mi gwrddon ni yn Ninas Mawddwy pan oedd y ddau ohonon ni yn aros mewn cwt dringo yng Nghwm Cywarch dros y penwythnos. Mi wnaethon ni ddarganfod bod y ddau ohonom yn hoffi cerdded a dringo. Y penwythnos hwnnw mi gerddon ni i gopa Aran Fawddwy ac Aran Benllyn; edrychon ni ar y sêr a gwelson ni bryfed tân. Rhamantus iawn. I dorri stori hir yn fyr, mi briodon ni yn 1963.**

Roedden ni'n gweithio yn Llundain, ond roedd rhaid i ni ddianc o'r ddinas i fynyddoedd Cymru pan oedden ni'n medru. Yn ystod yr wythnos pan oedd hi'n bosib roedden ni'n hwylio ar gronfa ddŵr.

Mi symudon ni i Lanelltyd pan oedden ni wedi ymddeol a phenderfynu yn syth i ddysgu Cymraeg achos bod ein cymdogion yn siarad Cymraeg. Roedd o'n bwysig i ni i ddysgu am y diwylliant hefyd.

Er bod gan Dafydd gefndyr yn Nolgellau, ro'n i'n poeni pan symudon ni yma oherwydd mae mor bell oddi wrth deulu a chyfeillion ac nid oeddem yn nabod neb; ond roedd y cymdogion yn ein croesawu ni, a theulu a chyfeillion yn dod i'n gweld ni ac yn aros efo ni.

Mae ein bywydau yn brysur iawn. Dan ni'n mwynhau hwylio ar Lyn Tegid ond dim syrthio i mewn iddo! Dyna sy'n digwydd pan mae hi'n wyntog iawn. Dim ond yn ddiweddar y dysgon ni hwylio. Dan ni'n mwynhau cerdded, garddio, darllen, cerddoriaeth ac mae Dafydd yn Warden Eglwys Llanelltyd a finnau'n chwarae'r organ yn yr eglwys ac yn drysorydd Merched y Wawr. Rydan ni'n rhan o grŵp sy'n ymweld â thair ysgol, gyda thîm Agor Y Llyfr, i actio a dweud straeon o'r Beibl.

Mae gynnon ni saith dafad sy'n anifeiliad anwes. Maen nhw'n gymeriadau, yn nabod eu henwau a bwydo allan o'n dwylo. Dan ni'n mwynhau ŵyna; mae o'n amser arbennig iawn i ddod â bywyd newydd i'r byd.

Hoff air Cymraeg Dafydd ydy "cynefin" achos mae o'n teimlo mor gartrefol yma. Fy hoff air i yw "cwtch" oherwydd mae o mor gynnes a chroesawus.

Dan ni ddim yn hoffi'r gair wenglish "joyo". Beth sy'n bod ar "mwynhau"?

# Llyfrau ac ati Bethan Gwanas

**Dwi'n falch o ddeud bod Mam wedi darllen 'Pwy ti'n feddwl wyt ti?' gan Eirlys Wyn Jones erbyn hyn, ac wedi mwynhau'n arw. Roedd hi'n anghytuno efo fi am yr ail ran ac yn ei gweld yn gyffrous iawn. Felly dyna ni, ylwch: awdures sy'n wraig ffarm dros ei 70 sydd wedi sgwennu nofel am wraig ffarm dros ei 70 yn taro deuddeg efo gwraig ffarm dros ei 70. Sy'n f'atgoffa o rywbeth ddywedodd Alan Bennett:**

"Wrth ddarllen, yr adegau gorau yw pan fyddwch chi'n dod ar draws rhywbeth – syniad, teimlad, ffordd o edrych ar bethau – roeddech chi wedi credu oedd yn arbennig ac yn unigryw i chi. Rŵan dyma fo, wedi ei sgwennu gan rywun arall, person na wnaethoch chi eu cyfarfod erioed, rhywun sydd efallai wedi hen farw. Ac mae o fel pe tae llaw wedi dod allan a chydio yn eich llaw chi."

Does dim rhaid i'r darllenydd fod â'r un cefndir a phrofiadau â'r awdur wrth gwrs, ond mae'n hyfryd pan fydd yr uchod yn digwydd tydi? Ac mae synnwyr cyffredin yn dweud ei bod hi'n haws pan fydd rhyw fath o debygrwydd rhwng awdur a'i ddarllenydd, neu o leiaf un o'i gymeriadau a'r darllenydd. Dwi'n ymwybodol iawn mod i'n mwynhau darllen am gymeriadau tebyg i mi – neu'n debyg i'r hyn y byddwn i wedi hoffi bod. Dechreuodd hynny'n ifanc: Heidi, Anne of Green Gables, Luned Bengoch, George y tomboi yn y Famous Five. Meddyliwch chithau am ba gymeriadau oedd/yw eich ffefrynnau chi; oes 'na wirionedd yn fy honiad?


Dwi'n gwadu'n llwyr mod i'n debyg i wrach wrth gwrs, ond ew, mi fyddai wedi bod yn handi ar adegau! Dyma gyfle rŵan i'ch hysbysu y bydd y dilyniant i 'Gwrach y Gwyllt' ar werth o Fehefin 20fed ymlaen. Mae hi wedi cymryd oes i mi sgwennu 'Merch y Gwyllt' a dwi'n nerfus ynglŷn â be fydd y farn;




dwi'n nerfus bob tro y bydd llyfr newydd yn ymddangos, ond oherwydd bod 'Gwrach y Gwyllt' wedi bod mor boblogaidd, dwi'n teimlo mwy o bwysau tydw! Doedd pawb ddim yn ei hoffi wrth gwrs, a fyddan nhw ddim yn hoffi hon chwaith; os ydach chi o natur sensitif a ddim yn hoffi darnau erotig mewn llyfrau, peidiwch â'i chyffwrdd!

Ta waeth, gan y bydd y lansiad (a'r ddawns, drapia unwaith) roedden ni wedi ei threfnu ar gyfer y Sesiwn Fawr yn amhosib rŵan, mi fydd Branwen Rhys Dafydd yn fy holi am y nofel newydd ar lein drwy wefan AMAM.cymru ar Fehefin 20fed am 8.00 (Dwi newydd archebu siswrn torri gwallt miniog neu mi fydda i'n llawer rhy debyg i wrach...). Dim ond rhyw 20 munud o sgwrs fydd hi gan fod cadw sylw pobl ar sgrin am fwy na hynny'n anodd. Wedyn ar Orffennaf 27, bydd Manon Steffan Ros yn fy holi fel rhan o arlwy ar lein yr Eisteddfod Genedlaethol: AmGen.

Bydd modd archebu llyfrau (£8.99, Gomer) drwy Awen Meirion, ond mae Peter, perchennog newydd Siop y Cymro hefyd wedi trefnu y bydd swp o gopïau yn fanno, ac mae'n bwysig cefnogi busnesau lleol tydi? Rhowch wybod os fyddwch chi am i mi bicio yno i lofnodi ambell lyfr.




Nofel newydd sbon danlli ar gyfer yr arddegau sydd wedi fy mhlesio'n arw ydi 'Heb Law Mam' (£5.99, Y Lolfa) gan Heiddwen Tomos. Ro'n i'n gwybod y byddai'n un dda oherwydd:

1. Mae hi'n gallu sgwennu.

2. Mae'n athrawes uwchradd ers blynyddoedd, ac yn gwybod yn iawn be sy'n apelio at bobl ifanc 11-14, a sut maen nhw'n siarad ac ati.

Mae'r nofel fer hon yn llawn hiwmor, emosiynau/angst a chynnwrf y cariad cyntaf, problemau teuluol a'r cyfeillgarwch ffug sy'n anffodus yn gymaint rhan o fywyd disgyblion ysgol – wel, merched o leia.

Dywedodd Heiddwen mai ei phrofiad mewn ysgol oedd yr "ysbrydoliaeth fwyaf ar gyfer ysgrifennu'r nofel hon. Neges y stori yw bod cyfnodau ym mywydau pawb yn gallu bod yn anodd, ond daw eto haul ar fryn."

Neges bwysig, achos mae cyfnodau anodd yn eich arddegau yn gallu teimlo fel diwedd y byd.

Efa ydi'n harwres ni, ac mae'n cael amser caled gan Gwen (sy'n hen ast) a rhai o'i 'ffrindiau' eraill. Mae hi hefyd yn dechrau ffansïo bachgen am y tro cyntaf. Ar ben hyn oll, mae mam Efa yn yr ysbyty yn disgwyl babi – a thriniaeth am gancr. Dwi ddim isio deud mwy am y plot rhag i mi ddifetha'r stori i chi.

Fel llyfrau eraill Heiddwen, mae hi'n ddeheuol iawn ac yn llawn ymadroddion gwych ardal Llanbedr Pont Steffan, ffor'na. Do'n i ddim yn deall pob un, a dwi wir yn meddwl y byddai rhestr yn y cefn yn egluro rhai ohonyn nhw o help mawr. Mi wnes i holi Heiddwen drwy Facebook be oedd ystyr "O's sgrwb arnot ti?" a dyma'r ateb ges i: "Pan ti wedi ymarfer dy gorff nes bod y muscles yn tynnu bore rôl 'ny."

Tydi o'n ymadrodd gwych? Mae gen i awydd ei fabwysiadu, fel y gair 'lapswchan'. Ond does gen i'm clem be mae "yn mynd i ga'l hwp" yn ei feddwl. Gorffen efo rhywun? Cael slap? Rhoi tacl dda i rywun? Darllenwch y llyfr a phenderfynwch chi!

Does dim rhaid i chi fod rhwng 11-14 i fwynhau hon, gyda llaw. Mae'n ffordd wych o dreulio pnawn neu noson neu ddwy, yn dibynnu pa mor gyflym dach chi'n mynd drwy nofel fer.

Gyda llaw, os dach chi isio argymell llyfr da i mi, rhowch wybod: llythyr, ebost, gair wrth basio wrth wneud ein siopa neu fynd am dro; dwi wastad yn hapus i glywed am lyfrau difyr. Dwi ar ganol 'Becoming', Michelle Obama ar hyn o bryd. Diddorol tu hwnt...


**Siop-y-Cymro**

**Dolgellau**

**PAPURAU NEWYDD**

**PAPUR YSGRIFENNU**

**MELYSION**





# Ysgol Bro Idris

**Dyma waith rhai o ddisgyblion Ffês 1 Ysgol Bro Idris sydd wedi bod yn brysur iawn yn ystod y misoedd diwethaf, a hefyd bortread gwych gan ddisgybl Blwyddyn 2.**


Gan fod y drefn wedi newid oherwydd Covid-19 mae'r disgyblion yn 'dysgu o bell' drwy gael mynediad i ddosbarth *Google Classroom.* Mae'r athrawon yn gosod gwaith ar gyfer y dosbarth bob wythnos - trefn sy'n hollol wahanol i'r arfer.


"Rydym wedi bod yn lwcus iawn o'r tywydd braf a mae llawer o'r tasgau wedi eu cwblhau yn yr awyr agored. Mae'r disgyblion wedi bod yn frwdfrydig iawn gan wneud y tasgau i safon uchel, ac mae'r rhieni wedi bod yn gefnogol iawn," meddai Nia Wyn Thomas, Pennaeth Ffês 1 yn yr Ysgol.




























*1. Addurno ffenest*
*2. Anifeiliaid yr ardd mewn clai*
*3. Cyfri tatws*
*4. Gwesty trychfilod*
*5. Brownies*
*6. Peintio carreg*
*7. Model o'r môr*
*8. Enfys*
*9. Mesur blodau*
*10. Lluniadu*
*11. Origami*
*12. Mwgwd bwci bo*
*13. Peintio cerrig*
*14. Supertaten ar y cyfrifiadur*
*15. Poster diolch gweithwyr allweddol*
*16. Supertaten*
*17. Portread o Taid*




Rydw i wedi dewis Taid fel fy arwr i. Mae Taid yn ddyn clyfar a gwybodus iawn. Mae Taid yn gwybod llawer am drwsio pethau. Fo wnaeth fy llofft i. Os oes rhywbeth yn torri yn tŷ ni mae Taid wastad yn barod i helpu a trwsio. Mae o yn giamsdar am adeiladu pethau. Mae Taid yn ddyn cyfeillgar iawn oherwydd ei fod yn chwarae efo fi lot. Hoff gem fi efo Taid ydi Carwyn y ceffyl. Taid ydi Carwyn a fi sydd yn ei farchogaeth. Rydan ni yn cael llawer o hwyl.

Mae Taid yn gallu gwneud hud a lledrith lle mae o'n gwneud i tedi bach ddiflannu. Pan oeddwn yn fach fe wnaeth Taid ddysgu fi reidio beic heb sdeiblaisyrs. Bob gwyliau mae Taid yn mynd a'r garafan i Cheshire Oaks i fi a mam gael gwyliau a rydan ni wrth ein bodde. Rydym ni yn lwcus iawn.

Mae Taid yn dda am chwarae cuddio hefyd. Ond rwan oherwydd y Corona feirws de ni'n chwarae cuddio yn yr ardd a chwarae pellter.

Mae Taid wedi fy nysgu am fyd natur. Mae o'n adnabod llawer o adar, coed a planhigion. Pan oedd Taid yn 70 oed, trefnodd mam a fi a Nain sypreis iddo. Aeth ar y wifren zip yn chwarel Penrhyn ac roedd o yn wych. Felly dyma chi hanes Taid - fy arwr i, ac mae o werth y byd i gyd yn grwn a dwi'n ei garu.

17 ***Disgybl Blwyddyn 2***
















# Coleg Meirion-Dwyfor

### Gair gan Bennaeth y Safle:

**Hoffwn sôn am ein cyrsiau gradd y mis yma. Mae'r Coleg yn cynnig sawl cwrs gradd ar ein safle yn Nolgellau ac yma cawn hanes rhai o'n myfyrwyr ar y cyrsiau hynny. Bydd diwrnod agored rhithiol yn cael ei gynnal cyn bo hir a chroeso i chwi ymuno yn y diwrnod ar ein gwefan os oes gennych ddiddordeb yn ein cyrsiau.**

Yng nghanol y pandemig yma, mae rhai o'r myfyrwyr ar y cwrs Iechyd a Gofal wedi bod yn awyddus i gymryd rhan mewn her i'n galluogi i gefnogi ein hysbytai lleol ac i ddiolch iddynt am eu gwasanaeth. Gelwir yr her yma yn - 'Mil mis Mehefin'. Mi fydd myfyrwyr a staff Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y coleg yn anelu i gyrraedd targed o 1000 cilomedr rhyngddynt gyda'r gobaith o godi £1000 erbyn diwedd mis Mehefin.




Un o'r prosiectau yr hoffwn ei gychwyn yn Nolgellau yw creu arddangosfa o gwmpas cerflun Syr O M Edwards sydd ar y safle. Mae eleni yn coffáu 100 mlynedd ers ei farwolaeth yn 1920. Buaswn yn hynod ddiolchgar os oes gan rai o ddarllenwyr Llygad y Dydd unrhyw hanes am y cerflun, iddynt gysylltu gyda'r Coleg ar dolgellau@gllm.ac.uk . Gwerthfawrogir unrhyw gyfraniad yn fawr iawn. ***Bryn Hughes Parry***

### Profiad Leah Ward o astudio Gradd mewn Busnes

Ar ôl gorffen fy Astudiaethau Busnes lefel 3 yng Ngholeg Meirion-Dwyfor, roeddwn yn ansicr o'r syniad o fynd i brifysgol. Yna cefais fy nghyflwyno i gwrs Gradd Sylfaen mewn Rheolaeth a Busnes yn y coleg. Astudir y cwrs hwn yn lleol un diwrnod yr wythnos ac roedd y cwrs yn apelio gan nad oeddwn eisiau symud i ffwrdd i'r brifysgol. Gan mai un diwrnod yr wythnos roeddwn yn astudio'r cwrs, roeddwn hefyd yn gallu



gweithio llawn amser, sy'n bwysig i mi, gan fy mod i'n gallu ennill wrth weithio tuag at fy ngradd. Dewisais y cwrs hwn gan fy mod wedi astudio Busnes yn yr ysgol a'r coleg ac mae'n rhywbeth y gallwch ei ddefnyddio mewn amryw o swyddi gwahanol. Dyma oedd y penderfyniad iawn i mi oherwydd pan ddechreuais nid oedd gen i unrhyw syniad pa yrfa yr oeddwn am ei dilyn. Mae'r tiwtoriaid cwrs yn wych, yn esbonio'r gwahanol fodiwlau yn glir ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno mewn ffordd y gall pawb ei deall. Trwy ymuno â'r cwrs hwn, cefais y gefnogaeth yr oeddwn ei angen i ddod o hyd i'r llwybr gyrfa iawn i mi, ac mae'r cwrs hwn hefyd wedi agor cyfleoedd gwaith newydd i mi fy hun cyn i mi dderbyn fy ngradd. O fewn y cwrs, mae yna wahanol fodiwlau sy'n ymdrin ag amrywiaeth fawr o agweddau ar fusnes, mae nhw'n ddiddorol ac yn cynyddu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o redeg busnes a'r hyn sydd ei angen i oroesi ym myd busnes. Os ydych chi'n gweithio yn y maes rheoli neu'n ystyried hyn yn y dyfodol, mae'r cwrs hwn yn berffaith i chi. Rwyf wedi mwynhau gweld fy sgiliau yn datblygu, fel fy ngwaith ysgrifenedig, trwy'r ddwy flynedd ar y cwrs. Mae hyn oherwydd y gefnogaeth ychwanegol a gynigir o'i gymharu â dosbarthiadau mawr mewn prifysgolion a thrwy'r aseiniadau ysgrifenedig yr oedd angen eu cwblhau o fewn y cwrs. Rwyf wedi mwynhau ymchwilio ar gyfer gwahanol aseiniadau ac mae hyn wedi dysgu mwy i mi am sut mae busnesau'n gweithio, a all fy mharatoi i agor fy musnes fy hun yn y dyfodol. Gyda'r gefnogaeth ychwanegol o fewn dosbarth llai, mae hyn wedi fy ngalluogi i ennill graddau uchel yn gyson trwy gydol y cwrs. Mantais arall y cwrs yw bod gennych amser i ddefnyddio cyfrifiaduron mewn sesiynau gweithdy; mae hyn yn help mawr i leihau eich llwyth gwaith gartref a helpodd hefyd i ostwng fy lefelau straen yn ystod y cwrs. Nawr bod dwy flynedd fy ngradd sylfaen wedi dod i ben, rydw i'n paratoi fy hun i ddechrau astudio ar gyfer y radd BA mewn Rheolaeth a Busnes ym mis Medi. Mae hwn yn opsiwn dilyniant a byddaf yn parhau i astudio hwn yn Nolgellau gyda'r un tiwtoriaid. Erbyn hyn, rydw i'n gweithio yn y maes cyllid. Hon oedd fy swydd ddelfrydol erioed ac rwy'n teimlo bod y radd hon wedi fy helpu i gyflawni hyn. ***Leah Ward***

### Mil mis Mehefin

Rwyf yn hynod falch o gael bod yn rhan o'r her hon, am sawl rheswm. Yn bendant mae hi'n ffordd i mi ddiolch i'r holl weithwyr allweddol yn enwedig o fewn ein cymunedau bach gwledig, trwy geisio gwneud cyfraniad tuag at yr achos. O ystyried hefyd ein bod yn fyfyrwyr Iechyd a Gofal efallai ein bod yn teimlo bod gofyn i ni ddarganfod ffordd o gyfrannu yn ystod y pandemig hwn mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Yn ogystal mae wedi bod yn ffordd wych o allu cadw pawb o fewn ein cwrs mewn cysylltiad yn yr amser rhyfedd yma. Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn rhai ansicr iawn, ac mae'n bosib dweud nad oedd neb wedi ein paratoi at orfod cyflawni ein misoedd olaf o goleg o gartref, ac felly mae gweithgareddau fel hyn lle rydym yn gallu cydweithio gyda'n gilydd a chadw mewn cysylltiad mewn ffordd ychydig gwahanol i'r arfer trwy rannu'r gwahanol deithiau rydym wedi bod yn eu gwneud er mwyn cadw'n hunain yn brysur, yn ddifyr iawn.



Er mwyn cyfrannu tuag at yr her rwyf wedi bod yn cadw cofnod o'r holl filltiroedd rwyf yn eu gwneud ar fy meic, yn ogystal ag ar ddwy droed, un ai drwy redeg neu gerdded. Mae rhain yn weithgareddau rwyf yn eu mwynhau'n fawr (efallai ddim rhedeg gymaint). Mae'n rhyfedd meddwl ei bod wedi cymryd pandemig fel hyn i mi ail ddarganfod fy mwynhad o fewn y gweithgareddau. Rwy'n meddwl y basai'n deg i mi ddweud hefyd bod Lola fy nghi wedi gwirioni gyda'r holl deithiau yr awn arnynt, ac yn darganfod llwybrau newydd bob tro.

Yn ogystal â mwynhau bod yn rhan o'r prosiect yma, rwyf wedi cael budd o'r her hon mewn sawl ffordd, trwy ddarganfod dulliau newydd o glirio mhen, cadw'n heini yn ogystal â mwynhau'r ardal rwyf yn byw ynddi. Cyn y pandemig roeddwn â diddordeb mawr mewn rygbi, yn chwarae ac yn hyfforddi gwahanol dimau o bob oedran, ac felly mae wedi bod yn golled fawr i mi

*Trosodd →*

dros y cyfnod hwn ond trwy gymryd rhan mewn heriau fel hyn rwyf wedi llwyddo i gadw'n heini ac yn "rygbi ffit". Credaf fod y cyfnod hwn yn ogystal â heriau fel hyn wedi rhoi cyfleoedd i mi wella fy hun mewn sawl ffordd.

Felly rydym bron hanner ffordd drwy ein her ac mae'n bosib i mi ddweud fy mod wedi mwynhau bron pob eiliad, yn ogystal â dysgu llawer, gan gynnwys y ffaith fy mod yn byw ar dop allt anferth (dydi hynny ddim yn hwyl!) Ond mi ddaliwn ati!

Hwyl am y tro, ***Tirion Thomas***

**Gradd Sylfaen Gwyddor Chwaraeon**

Ar Fawrth 19eg, 2020 mi wnaethon ni, y myfyrwyr ar y cwrs Gradd Sylfaen Gwyddor Chwaraeon (Gweithgareddau Awyr Agored) gynnal digwyddiad ym Mhortmeirion fel rhan o'n hastudiaethau ar gyfer y modiwl cyflogadwyedd. Enw ein digwyddiad oedd 'Art Venture' gan chwarae ar y geiriau celf ac antur, a phenderfynom mai digwyddiad ar gyfer myfyrwyr BTEC Lefel 2 Celf a Dylunio



ydoedd. Mi benderfynom hyn oherwydd yr oeddem yn teimlo y byddai'n syniad da i hyrwyddo bywyd iach a hefyd y manteision o fod allan yn yr awyr agored gan ddefnyddio dulliau o gelf. Ar ôl penderfynu i bwy yr oeddem am gynnal yr digwyddiad, roedd rhaid dewis lleoliad ar ei gyfer ac mi ddaethom i gytundeb a'i gynnal ym Mhlas Brondanw a Phortmeirion. Dewiswyd y lleoliadau yma oherwydd prydferthwch a hanes y ddau leoliad a hefyd gan y byddai'r ddau leoliad yn addas ar gyfer y myfyrwyr i wneud gwaith celf. Roedd rhoi pwyslais ar hanes y ddau leoliad yma yn holl bwysig i lwyddiant y digwyddiad a chyfraniad Sir Clough Williams-Ellis i'r lleoliadau yma yn un pwysig i'w adrodd i'r myfyrwyr.

Yn anffodus oherwydd y pandemig, roedd rhaid i ni ail gynllunio'r diwrnod, ac felly cafwyd y cyfle i fynd i Bortmeirion yn unig am ychydig oriau. Ond, ni wnaeth y sefyllfa hon ein rhwystro rhag cynnal digwyddiad llwyddiannus. Ar y diwrnod, aeth y trefniadau'n esmwyth a gwnaethom gwblhau y rhan fwyaf o'r tasgau oedd wedi eu cynllunio ar gyfer y diwrnod. Gwnaeth y myfyrwyr fwynhau'r digwyddiad a hefyd roeddynt yn fwy ymwybodol o'r budd o fod allan yn yr awyr iach. Mi ddwedodd un o'r myfyrwyr ar ôl y digwyddiad "Mi wnes i fwynhau ymweld â Phortmeirion gan nad oeddwn wedi ymweld â Phortmeirion o'r blaen, hefyd roedd y tasgau grŵp yn hwyliog ac yn ffordd dda o ymarfer!" ***Dyfed Williams***

## Ysgoloriaeth gwerth £1,500 ar gael i bawb fydd yn astudio rhywfaint o'u cwrs prifysgol yn Gymraeg

**Mae Prifysgol Bangor wedi croesawu'r cyhoeddiad y bydd pob myfyriwr fydd yn dechrau yn y Brifysgol fis Medi, ac yn astudio o leiaf 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg, yn derbyn ysgoloriaeth o £1,500 dros dair blynedd (£500 y flwyddyn)**

Daw hyn yn sgil y cyhoeddiad gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol eu bod yn ymestyn y Cynllun Ysgoloriaeth Cymhelliant.

Fel arfer mae'r Coleg yn cynnig ysgoloriaeth cymhelliant i hyd at 200 o fyfyrwyr bob blwyddyn ond mewn ymateb i argyfwng Covid-19, mae'r Coleg wedi penderfynu ymestyn y cynllun ar gyfer pob myfyriwr cymwys, gan dargedu o leiaf 500 o fyfyrwyr, a hynny ar gyfer pa bynnag bwnc y maent yn dymuno ei astudio, gan gynnwys y Gymraeg a chyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon is-raddedig.

Gobaith y Coleg yw y bydd y cymhelliad ariannol hwn yn cefnogi mwy o siaradwyr Cymraeg i ddewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn mis Medi ac yn cefnogi prifysgolion, sy'n wynebu heriau sylweddol yn sgil yr argyfwng, i ddarparu cyrsiau Cymraeg ar gyfer cynifer o fyfyrwyr â phosib.

Bydd hyn yn ychwanegol i'r cymorth sydd eisoes yn cael ei gynnig gan Brifysgol Bangor sef bwrsariaeth gwerth £250 y flwyddyn i gynorthwyo'r rheini sy'n dewis astudio mwy na 40 credyd y flwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg.

Meddai'r Athro Andrew Edwards, Dirprwy Is-Ganghellor, Prifysgol Bangor: "Astudir mwy o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mangor nag yn unman arall yng Nghymru a bellach gellir astudio elfennau o bob maes academaidd trwy gyfrwng y Gymraeg yma – o fodiwl unigol hyd at radd gyfan. Oherwydd hyn mae cymuned fywiog a gweithgar yma, sy'n gwneud Bangor yn lle delfrydol i astudio."

Mae'r cynllun wedi derbyn cefnogaeth eang ar draws y sector Addysg Uwch. Meddai Lleucu Myrddin, Llywydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Prifysgol Bangor: "Mae'n wych gweld ymrwymiad y Coleg i annog mwy o fyfyrwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac i roi cefnogaeth ychwanegol i brifysgolion a myfyrwyr mewn cyfnod mor ansicr. Gobeithio'n wir y bydd nifer dda o bobl ifanc yn manteisio ar y cyfle arbennig hwn ac ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wych sydd ar gael ar eu cyfer."

Wrth groesawu'r cynllun meddai'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams: "Mae'n newyddion gwych bod y Coleg yn ehangu'n sylweddol ar y nifer o ysgoloriaethau i fyfyrwyr ar gyfer mis Medi, gan gynnwys Addysg Gychwynnol Athrawon is-raddedig a Chymraeg. Rydym angen llawer rhagor o athrawon hyderus ddwyieithog i ddiwallu'r twf mewn addysg Gymraeg ac i gefnogi'r cwricwlwm newydd o 2022 ymlaen."

Am ragor o wybodaeth ac i ymgeisio am ysgoloriaeth, dylai myfyrwyr ymweld â gwefan y Coleg a llenwi ffurflen gais.

Mae mwy o wybodaeth am y Bwrsariaethau a gynigir gan Prifysgol Bangor yma: https://www.bangor.ac.uk/studentfinance/info/welshbursary.php.cy

DYLANWAD
Rydym ar gau ond yn cludo o amgylch Dolgellau a phellach i'r gogledd a'r de.
Ffoniwch yn ystod yr oriau canlynol i archebu neu ebostio.
**Llun – Gwener 9yb-12prynhawn**
Mae'r rhestr win a bwydydd ar ein safle we.
**www.dylanwad.co.uk**
Gwin Wine
01341 422870

**Rebecca Thomson**
MCFHP MAFHP
Aelod Cofrestredig o'r
British Association of Foot Health Professionals
Cefn y Maes, Brithdir,
DOLGELLAU, LL40 2RP
Ffôn: 07976 350538
E-bost: beebeebexter@hotmail.com
Apwyntiadau Clinigol drwy Drefniant

Siop negesau leol
EUROSPAR
DOLGELLAU
gan ein teulu ni i'ch teulu chi

# Newyddion Syrjeri Caerffynnon

**Rydym yn hapus i gyflwyno gwasanaeth newydd yn y Feddygfa i'n cleifion, sef eConsult.**

Ydych chi'n teimlo'n sâl, neu oes gennych chi gais ar gyfer y Feddygfa?

Cychwynnwch eConsult ar-lein yn rhad ac am ddim ar "patients.econsult.health" neu ar ein gwefan www.dolgellaudoctors.org. Dewiswch yr adran sy'n berthnasol i'ch cais. Cyflwynwch eConsult i'r Feddygfa.

'Rydym yn arolygu pob eConsult a gyflwynir i'r Feddygfa, ac os bydd angen apwyntiad arnoch ar ôl eich ymgynghoriad byddwn yn gofyn i chi gysylltu â'r practis i drefnu un, i ymateb gyda chyngor neu bresgripsiwn.

YN ANFFODUS NID YW'R GWASANAETH eCONSULT AR GAEL DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG.




Er Gwybodaeth - Oriau Agor

Mae'r Feddygfa yn dal i fod yn weithredol fel arfer, ac rydym yn derbyn galwadau ffôn rhwng 8yb a 6.30yp o ddydd Llun i ddydd Gwener. Rydym yn rhagweld mai dim ond apwyntiadau ffôn a fideo y byddwn yn eu cynnig gyda'r Meddygon yn y dyfodol. Byddwn yn delio â'ch angen meddygol dros y ffôn yn y lle cyntaf, yna os bydd angen cynigir apwyntiad wyneb yn wyneb i chi. Ar gyfer y cleifion sydd angen dod i'r Feddygfa, gwnewch yn siwr eich bod yn cadw at yr amser penodol a pheidiwch â chyrraedd yn gynnar. Curwch ar ffenestr gefn y dderbynfa, lle bydd un o'r tîm yn eich cynorthwyo ymhellach. Byddwch yn ymwybodol o bellter cymdeithasol a gwnewch yn siŵr eich bod yn golchi eich dwylo wrth gyrraedd y Feddygfa.

Mae'r tîm nyrsio yn parhau i gynnig ychydig o apwyntiadau ar gyfer profion a gwasanaethau cyfyngedig. Gofynnwch i'r derbynnydd am ragor o wybodaeth pan fyddwch chi'n ffonio.

Bydd ceisiadau am apwyntiad brys ar y diwrnod yn dal i gael eu prosesu gan alwad ffôn gan un o'r tîm meddygol.

'Rydym ni yma i helpu ac os oes gennych chi unrhyw bryderon, ffoniwch y Feddygfa ar 01341 422 431.

# Nodau Eirian Owen

**CANU CORONA**

**"Ti awydd rhoi gwersi piano ar-lein i'r plant 'ma?" Y-hy. "Nagoes, 'sgen i ddim clem sut ma' gneud a dim llawer o awydd trio chwaith". Rydw i, wrth gwrs, yn gallu trin cyfrifiadur yn ddigon da i drefnu ambell ddarn o gerddoriaeth, i fancio, i sgwennu, i brynu pethe, i chwilota a busnesa, i ddanfon a derbyn ebyst a thrin lluniau ond roedd rhoi gwersi ar-lein yn rhywbeth arall.** Perswadiwyd fi, yn y diwedd, i roi cynnig arni a tharo bawd fy nhroed yn y môr o dechnoleg rithiol sydd wedi bod mor ffasiynol yn ystod y "Clo Mawr". A diawcs mi weithiodd pethe yn well nag oeddwn yn ofni ar ôl deall ble i osod y ffôn/camera er mwyn medru gweld y disgybl a nodau'r piano yn eglur a dysgu bod yn amyneddgar pan oedd toriad yn y cyswllt WiFi yn dod â phethe i stop. Mae llwyddiant y dasg yn dibynnu llawer ar ffocws y plentyn a'i awydd i 'marfer yn gyson yn ystod yr wythnos - ond does dim yn newydd yn hynny nagoes! Sylweddoli wedyn bod trïo chwarae deuawd piano ar-lein efo disgybl yn beth mwy heriol - mae fel sgwrsio ar y ffôn efo rhywun o Awstralia - mae 'na ennyd fach o *time-lag* rhwng un pen â'r llall a dyna pam nad ydw i wedi trïo cyfeilio a rhoi gwersi canu ar-lein. Mae'n braf gweld disgyblion yn amgylchedd eu cartref a chlywed chydig o'u straeon - gwrando ar hanes Lois yn reidio beic yng Nghoed y Brenin a deud helo wrth Nanw a Tess, dwy ast y teulu ar y sgrîn; cyfarfod Cai, crwban Magi, Gweno a Cynan cyn iddo fynd ar goll am wythnosau - a rhannu eu boddhad o'i weld yn dychwelyd adre o'i "wyliau".

Roedd amryw o 'nisgyblion yn barod i sefyll arholiad piano a chanu yn Ebrill a Gorffennaf ond bu rhaid gohirio rhain tan ddiwedd y flwyddyn neu, o bosib', 2021. Roedd Cyngerdd Disgyblion hefyd wedi ei drefnu ar gyfer mis Mai yn y Tabernacl ym Machynlleth ond wêl hwnnw chwaith mo olau dydd am fisoedd lawer.

Daeth ymarferion Côr Godre'r Aran i ben cyn i'r Llywodraeth roi stop ar bob gweithgaredd a hynny am i Sion *Chemist* yn y Bala awgrymu y gallai eistedd yn glos at bobl eraill i ganu mewn côr, o bosib, fod yn beryg' o chwalu'r feirws ar yr anadl. Ers hynny mae adroddiadau gan arbenigwyr eraill hefyd wedi codi yr un amheuaeth, er na fu cyfarwyddiadau pendant i gorau. Be' ddaw o gyngherddau'r dyfodol? Fydd 'na awydd i drefnu rhai? Gofynnodd rhywun imi oeddwn i'n cynnal ymarferion rhithiol ar-lein efo Côr Godre'r Aran. Brensiach! Meddyliwch y strach fyddai trïo cael pawb i ddeall be' i 'neud - heb sôn am ganu. Mae llond dwrn ohonyn nhw'n dechnolegol anllythrennog - a dau neu dri eto heb ddysgu beth ydy ffôn symudol. Cofiwch, rydw i'n edmygu'r bobl sydd yn llwyddo i greu côr allan o dwr o unigolion ar sgrîn ac yn rhyfeddu mor unol ma' nhw'n swnio. Un peth ydy creu côr fel hyn ond nid ymarfer côr ydy hynny chwaith, nage? Be' sy'n digwydd pan mae angen deud wrth y tenoriaid am beidio gorganu, yr ail denoriaid i ganu'n fwy swynol, y baritoniaid i ganu yn diwn a'r bâs isa i beidio llusgo? Bydd rhaid i chi holi rhywun mwy clyfar na fi.

Mae 'na unigolion, cantorion dawnus, sydd yn gallu creu wythawd neu bedwarawd yn gyfangwbl ar eu pen eu hunain trwy ganu pob llais yn ei dro ac yna asio'r cwbl yn gywrain ar gyfrifiadur. Rhyfeddol! Daeth Côr-Ona i'r adwy ar ddechrau y Clo gan roi llawer o bleser i ni ac mae nifer o'r cyfraniadau wedi bod yn wirioneddol werth chweil. Mae peryg y gwnaf bechu yn erbyn rhai ond, erbyn hyn, mae posib bod y ci (gast) yma yn dechrau tagu ar ôl cael gormod o bwdin Côr-Ona. EisteddfodT wedyn - syniad ardderchog a chyfle i blant a phobl ifanc gael hwyl yn paratoi a pherfformio mewn awyrgylch lai ffurfiol a rhaid llongyfarch y rhai gafodd y weledigaeth. Roedd graen arbennig ar lawer o'r perfformiadau - ond doedd gen i fawr i ddeud wrth y taid yn iodlo, y nain a'i hwla-hŵp na'r fam yn dawnsio ac, i mi, roedd y mân siarad yn y stiwdio yn syrffedus. Pawb a'i farn - a beryg mai fi sy' rhy styffi - ond rydw i'n gobeithio yn arw daw y Steddfod go iawn yn ei hôl gynted â phosib.

## Cystadleuaeth: Blodau'r Gwanwyn



**Ar dudalen 21 Llygad y Dydd mis Mai roedd cystadleuaeth enwi blodau gwyllt. Gan mai'r 6ed Gorffennaf ydy'r dyddiad cau, mae gennych gyfle i anfon eich ymgais i mewn. Gwobr i'r gorau!**

***Bydd y rhifyn nesaf ar gael Gorffennaf 23***

# Gair o'r Cyngor

## Black Lives Matter

**Roedd llofruddiaeth George Floyd yn Minneapolis yn ysgytwad i'r holl fyd a thristwch yw meddwl fod hiliaeth yn dal i fodoli hyd yn oed yn ein cymdeithas honedig wâr ni yma yng Nghymru. Da oedd gweld pobl dda Penygroes yn dod at ei gilydd i gefnogi teulu Ogunbanwo i lanhau'r arwydd atgas ac i ganu eu cefnogaeth.**

Wrth weld yr hynod Angela Davis yn cael ei chyfweld yn ddiweddar fe'm hatgoffwyd o'm ieuenctid llawn delfrydiaeth diniwed, a hyder y gellid newid y byd pan oeddwn i'n ymgyrchydd brwd gyda Chymdeithas yr Iaith - ers talwm iawn! Roedd Martin Luther King yn ddylanwad mawr ar y mudiad iaith gan fabwysiadu ei ddull o weithredu uniongyrchol di-drais. Fe safodd Muhammad Ali a gwrthod mynd i ymladd yn Fietnam gan ddweud "Why should they ask me to put on a uniform and go ten thousand miles from home and drop bombs and bullets on brown people in Vietnam while so-called Negro people in Louisville are treated like dogs and denied simple human rights?" Roedd nid yn unig yn eilun fel bocsiwr heb ei ail ond yn eilun fel ymgyrchydd huawdl dros hawliau'r gorthrymedig dros y byd.

Fe'm hysbrydolwyd hefyd ym 1968 gan y ddau redwr Olympaidd, Tommy Smith a John Carlos, a wnaeth y weithred syml o godi'r dwrn mewn maneg ddu wrth i anthem yr UDA gael ei chanu yn seremoni gwobrwyo Gemau Olympiad Mecsico. Adleisir hyn heddiw gan y weithred urddasol o blygu glin sy'n symboliaeth mor bwerus.

"In a racist society it is not enough to be non-racist. We must be anti-racist." - Angela Davis



Ym 1971 fe brynais ddau lyfr sef *If they come in the morning* gan Angela Davis, a *Soledad Brother* gan George Jackson – hanes trist a dewr y chwyldroadwyr Black Power. Bryd hynny 'roeddwn yn teimlo ein bod yn rhan o'r un frwydr dros gyfiawnder ac er fod y dulliau wedi newid, mae'n debyg fod y profiadau gefais yn y cyfnod cyffrous hwnnw wedi lliwio fy meddylfryd gwleidyddol hyd y dydd hwn. Yr hyn sy'n drist yw nad yw'r anghyfiawnder wedi ei orchfygu ac mae agweddau hiliol yn wir ar gynnydd.

Mae'r digwyddiadau diweddar yn ein gorfodi i gyd i ystyried a oes hiliaeth yn llechu dan yr wyneb ym mhob un ohonom. Fel Cyngor mae gennym ddyletswydd i sicrhau nad yw rhagfarn cudd a hiliaeth yn codi ei ben ac fe atgyfnerthwn ein rhaglen hyfforddiant i'r perwyl hwnnw ar gyfer y dyfodol. Mae bywydau du yn cyfrif ac fe safwn ochr yn ochr â'n cymrodyr gorthrymedig ble bynnag y bont.

**Covid-19**

Yng Nghymru 'ryn ni dal dan glo ond mae arwyddion fod pwyll ac amynedd yn llwyddo wrth weld y clwy ar drai. Mae ein Prif Weinidog yn disgleirio wrth iddo fesur bron at syrffed pob gair yn bwyllog a chadarn. Mae geiriau gwag a rhagrith Prif Weinidog Lloegr yn wrthgyferbyniad clir ac ni fu'r ffin rhyngom a Lloegr erioed mor amlwg ag y mae wrth i'n polisïau wahaniaethu. Er hyn mae Llywodraeth Lloegr yn parhau i drin y dair cenedl fel rhai eilradd ac mae diffyg cyd-drafod yn gyson. Ni fu erioed y fath gydweithio a thrafod rhwng awdurdodau lleol a gweinidogion Llywodraeth Cymru er fod ambell anghytundeb a diffyg cynllunio 'mlaen.

Y drafodaeth fawr i mi oedd ystyried pryd a sut y byddem yn dat-gloi ein hardaloedd gwledig. Mae'r diwydiant twristiaeth, sydd mor bwysig i ni yma, ar ei liniau ac yn crefu am gael cynllun i ailagor. Ar y llaw arall, nid yw'r haint wedi diflannu ac mae'r achosion niferus ar Ynys Môn yn peri dychryn. Datganwyd y bydd siopau yn cael agor, ac y bydd y cyfyngiad teithio pum milltir yn dod i ben ddechrau Gorffennaf ac os bydd lefel yr achosion yn parhau'n isel, cawn weld nifer o letyau gwyliau yn cael agor unwaith eto. Gobeithio y bydd ein hymwelwyr yn parchu'r rheolau ac yn parchu ein cymunedau hefyd.

Mae'n her sylweddol i'r Cyngor i geisio cael trefn ar strydoedd ein prif drefi ac mae

*Parhad ar dudalen 28*

Gwyndaf Evans Motors
www.gwyndafevans.net
Dolgellau: 01341 423441
Porthmadog: 01766 549280

2016 Ford Ranger Xlt 4X4 Dcb Tdci

£14,495 + VAT neu £210 y mis

2019 Ford C-Max Titanium

£6,000 i Ffwrdd - Nawr £20,795

2015 Ford Transit Connect

£7,995 neu £122 y mis

2019 Suzuki Vitara Sz-T Boosterjet

£17,495 neu £239 y mis

2018 Suzuki Swift Sport Boosterjet

£12,995 neu £178 y mis

Ceir Newydd ac Ail Law Gwasanaeth & Rhannau. Pob mêc a model
www.gwyndafevans.net

Ford SUZUKI

2019 Ford C-Max Titanium Automatic • Diesel • 50 miles • MPG ........ £20,795 £6,000 i FFWRDD
2016 Ford Edge Sport Tdci Automatic • Diesel • 33,606 miles • 47.9 MPG ........ £20,495 / £265 y mis
2019 Ford Tourneo Courier Titanium Tdci Manual • Diesel • 100 miles • 51.4 MPG ........ £14,995 / £179 y mis
2016 Ford Ranger Xlt 4X4 Dcb Tdci Manual • Diesel • 32,375 miles • 41.5 MPG ........ £14,495+VAT/ £210 mis
2016 Ford Transit Custom 300 Limited P/V Ecoblue • Diesel • 54,000 miles • 44.1 MPG ........ £12,850 / £249 mis
2015 Ford Kuga Titanium Tdci Manual • Diesel • 27,500 miles • 54.3 MPG ........ £12,750 / £172 mis
2019 Ford Ka+ Active Manual • Petrol • 5 miles • 43.5 MPG ........ £11,490 / £157mis
2011 Ford Ranger Thunder 4X4 Dcb Tdci Manual • Diesel • 96,160 miles • 31.7 MPG ........ £8,350+VAT
2015 Ford Transit Connect 200 P/V Manual • Diesel • 26,950 miles • 58.9 MPG ........ £7,995 / £122 mis
2017 Ford Ka+ Zetec Manual • Petrol • 25,756 miles • 57.7 MPG ........ £6,995 / £102 mis
2013 Ford Focus Titanium X Tdci Manual • Diesel • 64,000 miles • 56.5 MPG ........ £6,895 / £133 mis
2013 Ford Fiesta Zetec Manual • Petrol • 69,847 miles • 65.7 MPG ........ £5,495 / £106 mis

2019 Suzuki Vitara Sz-T Boosterjet Manual • Petrol • 13,822 miles • 43.5 MPG ........ £17,495 / £239 mis
2018 Suzuki Swift Sport Boosterjet Manual • Petrol • 5,900 miles • 47.1 MPG ........ £12,995 / £178 mis
2018 Suzuki Vitara Kuro Manual • Petrol • 19,116 miles • 53.3 MPG ........ £12,995 / £174 mis
2019 Suzuki Swift Attitude Dualjet Manual • Petrol • 400 miles • 51.4 MPG ........ £12,495 / £176 mis
2018 Suzuki Ignis Sz5 Shvs Manual • Petrol • 3,200 miles • 65.7 MPG ........ £11,750 / £150 mis
2019 Suzuki Ignis Sz-T Dualjet Manual • Petrol • 11,125 miles • 53.3 MPG ........ £9,975 / £120 mis
2019 Suzuki Baleno Sz-T Boosterjet Manual • Petrol • 20,365 miles • 47.1 MPG ........ £9,795 / £139 mis
2017 Suzuki Swift Sz-T Boosterjet Manual • Petrol • 21,383 miles • 61.4 MPG ........ £8,295 / £121 mis
2013 Suzuki Swift Sz-L Manual • Petrol • 79,500 miles • 56.5 MPG ........ £4,395 / £85 mis
2008 Suzuki Swift Glx Manual • Petrol • 77,000 miles • 46.3 MPG ........ £2,750

2017 Mazda Mazda 6 Se-L Nav Automatic • Petrol • 15,120 miles • 47.9 MPG ........ £13,995 / £205 mis
2017 Vauxhall Mokka X Elite S/S Automatic • Petrol • 35,140 miles • 43.5 MPG ........ £12,995 / £181 mis
2016 Mazda Cx-3 Se-L Nav Manual • Petrol • 26,200 miles • 47.9 MPG ........ £12,350 / £157 mis
2018 Skoda Fabia Se Tsi Manual • Petrol • 10,750 miles • 51.4 MPG ........ £11,495 / £151 mis
2017 Renault Captur Dynamique Medianav Energy Dci S/S, 29,605 miles • 76.4 MPG ... £9,895 / £191.83 mis
2017 Citroen C4 Cactus Puretech Ripcurl S/S Manual • Petrol • 32,416 miles • 65.7 MPG .... £9,495 / £134 mis
2014 Nissan Qashqai Acenta Dig-T Manual • Petrol • 29,000 miles • 50.4 MPG ........ £9,250 / £179 mis
2016 Ssangyong Korando Sports Ex • Diesel • 65,400 miles • 37.7 MPG ........ £8,995+VAT / £150 mis
2015 Volkswagen Caddy C20 Tdi Startline Manual • Diesel • 59,396 miles • 48.7 MPG ........ £6,995 / £135 mis
T&C Apply. Example APR 7.9%

# Dolgellau

**Profedigaethau**

Fred Rees Williams - Yn dawel yng Nghartref Emral, Wrecsam bu farw Fred Rees Williams (gynt o Ddolgellau) ar y 26ain o Fai, 2020 yn 85 mlwydd oed .

Cynhaliwyd ei angladd ym mynwent Tabor ar y cyntaf o Fehefin a daeth aelodau o'i deulu ynghyd i ddathlu ei fywyd, a'r gwasanaeth o dan ofal ei Weinidog, Y Parch Iwan Llewelyn Jones. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r teulu yn eu profedigaeth.

Doreen Owen - Gyda thristwch daeth y newydd am farwolaeth Doreen Owen - 'Dot' neu' Dotte' fel roedd ei theulu a'i ffrindiau yn ei hadnabod. Bu farw ar y 23ain o Ebrill 2020 yn Ysbyty Gwynedd yn 85 oed. Roedd wedi profi llawer o dristwch yn ystod ei hoes o golli saith o frodyr a chwiorydd, a'r ddiweddaraf, Patricia (Pat) oedd hefyd yn byw yn Nolgellau, ddwy flynedd yn ôl. Roedd hyn yn ergyd drom iddi hi a'i chwaer Yvonne, sydd hefyd yn byw yn lleol. Bu'n fodryb garedig i 17 o blant ei brodyr a'i chwiorydd. Yn aml, fe welwyd Doreen a Sue Roberts, merch ei chwaer Pat a'i gŵr Edwin Roberts, yng nghwmni ei gilydd o gwmpas y dref. Bu Doreen yn gweithio drwy gydol ei hoes bron yng nghegin yr ysbyty leol yn paratoi bwyd. Cynhaliwyd gwasanaeth yng ngofal Y Parchedig Patrick Slattery yn yr amlosgfa yn Aberystwyth ym mhresenoldeb aelodau o'i theulu ar y 4ydd o Fai. Trefnwyd i aelodau o'r teulu oedd ddim yn bresennol fod yn rhan o'r gwasanaeth drwy'r cyfryngau digidol.

Shirley Clough - Yn dawel yn ei chartref yn Nant y Gader bu farw Shirley Clough, gwraig y diweddar Peter Clough a mam a mam wen i Ian a Susie; Michael, Martin a Sally, a Nain gariadus i Kayleigh ac Amanda.

Fel ardal cydymdeimlwn gyda'r teulu yn eu profedigaeth.

Bydd rhoddion er cof yn mynd tuag at Bapur Llafar y Deillion drwy law Gareth Roberts.

Margaret Llewelyn Evans - Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at Medwyn a Helen Evans a'r teulu estynedig ym marwolaeth Margaret Llewelyn Evans, Porthmadog, sef gwraig annwyl a ffyddlon i Ellis, mam ofalus i Bethan, Medwyn, Trefor, Ruth a John a mam-yng-nghyfraith hoffus i Helen, Anwen a Richard. Nain gariadus i Iona, Nia ac Awel, Swyn, Megan a Catrin, Siôn ac Iwan a hen nain Gethin a Cai.

**Ysbyty**

Deallwn fod Iola Davies, Prendy wedi bod yn yr ysbyty am rai wythnosau, ac wedi bod yn bur wael. Braf yw deall ei bod bellach adre. Rydym fel ardal a ffrindiau yn cofio amdani ac yn dymuno gwellhad buan iddi.

**Penodiad**

Yn dilyn ymddeoliad Rona Lewis yn mis Ebrill, Bryn Hughes Parry yw'r Pennaeth Cynorthwyol yng Ngoleg Meirion-Dwyfor a Choleg Menai sydd â chyfrifoldeb am safle Dolgellau. Mae'n edrych ymlaen yn eiddgar i ymgymryd â'r gwaith ac i barhau gyda'r cyswllt agos gyda'r gymuned. Magwyd Bryn ym Mhen Llŷn, ond mae gwreiddiau ei deulu ym Meirionnydd ac Eryri. Treuliodd rai blynyddoedd yn dysgu Lefel A ar safle'r coleg yn Nolgellau cyn symud ymlaen i wahanol gyfrifoldebau yn y coleg ac yn ddiweddarach, y Grŵp. Ffiseg yw ei bwnc, gan astudio gradd a doethuriaeth ym Mhrifysgol Caerdydd ac ef yw Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Gwyddoniaeth a Thechnoleg Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2022.

**Y Byd Meddygaeth**

Yn ystod y mis hwn bu i Robin Gwyn Roberts, mab Huw a Gwyneth Roberts, Porthmadog ac ŵyr i Mary Roberts a'r diweddar William John Roberts, gymhwyso'n feddyg o Ysgol Feddygaeth Caerdydd.

Diddorol yw nodi fod tair cenhedlaeth o'r teulu wedi graddio yn feddygon o Brifysgol Caerdydd, sef y diweddar annwyl Dr Richard William Edwards - llawer ohonom yn ei gofio yn feddyg yma yn Nolgellau am flynyddoedd maith; a thad i Mary, ac yna mab i Mary a'r diweddar William John sef David Edward Roberts a fu tan ei ymddeoliad yn Ymgynghorydd Radiograffeg yn Ysbyty Treforus.

Mae Robin erbyn hyn wedi ei benodi yn aelod o staff Ysbyty Singleton Abertawe.

Llongyfarchiadau i Robin a phob dymuniad da i'r dyfofol.

**Genedigaethau**

Llongyfarchiadau calonnog i Iwan Rhys a Mari Fflur, sydd yn byw yn Nghaernarfon erbyn hyn, ar enedigaeth eu cyntafanedig. Ganwyd merch fach, Gwenfair Haf yn Ysbyty Gwynedd ar 24ain o Fai. Wyres fach i Dwyryd a Bethan Williams, Bryn Golau, a nith fach i Iwan Rhys, brawd Mari. Brysied y dydd pan fyddant yn gallu mynd i gofleidio Gwenfair fach.

Anfonwn ninnau ein dymuniadau gorau i'r teulu bach.

Yn yr un modd anfonwn ein llongyfarchiadau at Sean ac Elin, Ardd Fawr ar enedigaeth eu cyntafanedig, Etta Magi, wyres fach i Dilys a Mike, Pencoed a Maggi Y Torrent gynt, gorwyres i Blodwen Jones, Hen Felin. Dymuniadau gorau i'r teulu bach yma hefyd, gan obeithio y cânt hwythau weld y fechan yn fuan iawn.

Unwaith eto, ein llongyfarchiadau i Tomos ac Elliw, hwythau erbyn hyn yn byw yng Nghaernarfon, ar enedigaeth mab bach cyntafanedig, Mabon Llwyd, ŵyr bach i Gareth a Sarah, Bontnewydd. Gobeithio y caiff y teulu bach yma gwrdd yn fuan iawn.

**Radio Cymru**

Braf oedd cael gwrando ar Ania Wyn Parry yn trafod gyda Dewi Llwyd ar y rhaglen 'Dros Ginio' yr wythnos hon.

Roedd Ania yn cael ei holi am ei barn ynglŷn â'r ffaith fod y byd rasio ceffylau wedi ailgychwyn, wedi'r oedi oherwydd y Covid-19. Ac yn wir roedd rhai ceffylau o'r fridfa wedi cael cryn lwyddiant yn barod y mis hwn. Mae Ania wrth gwrs yn gofalu am y ceffylau ym Mridfa Chasemore yn Cobham, Surrey, lle maent, o adnabod Ania, yn siwr o fod yn cael gofal ardderchog.

**S4C**

Braf oedd gwylio Siân Meinir yn canu fel unawdydd ar y rhaglen 'Dechrau Canu Dechrau Canmol' yn ystod y mis hwn, yn canu un o Emynau yr Ynysu gan Euryn Ogwen Williams. Mae hon y drydedd gân i Siân ganu yn y gyfres Emynau yr Ynysu. Os nad ydych eisoes wedi eu clywed, cewch wylio'r gweddill ar Youtube.com

Dyma'r cyfnod pan mae ein myfyrwyr yn derbyn eu graddau o'n prifysgolion. Rydym yn sicr fod yna lwyddiant wedi dod i amryw ohonynt. Byddem yn ddiolchgar pe gallech gysylltu â ni, er mwyn i ni gael rhannu eich llwyddiant gyda'n darllenwyr.

### Dolgellau a'r OK Corral

Cyrhaeddodd yr hanes uchod yma gan Ywain Myfyr (a ymddangosodd yn rhifyn 20 o Lygad y Dydd fis diwethaf) raglen foreol Radio Cymru fore llun y 15fed o Fehefin. Cafodd Ywain ei holi am y stori - oedd yn sôn am ferch o Ddolgellau sef Annie Ellis, adawodd y dref fel plentyn amddifad 12 oed, yn 1868 efo'i brawd. Gadawyd hi yn Kansas City mewn cartref plant a thros y blynyddoedd, mae'n ymddangos iddi fyw bywyd anturus a llwyddiannus, yng nghwmni pobol y bydd rhai ohonom yn gysylltu gydag enwau mawr y gorllewin gwyllt - Wyatt Earp a Doc Holliday. Y Plaza, sef yr hen sinema leol, a'r ffilmiau cowbois du a gwyn a welsom yno roddodd yr addysg yma i rai ohonom!

Mae hi'n stori ardderchog, a byddai'n gneud ffilm wych! Pwy a ŵyr na fydd hanes y ferch o Ddolgellau yn ymddangos mewn ffilm - rhyw ddydd! (Cofiwch y gallwch ddarllen y fersiwn ddigidol o rifyn 20 wrth fynd ar Bro360.)

# Llanelltyd

**Llwyddiant**

Mewn cyfnod pan ydym i gyd mor ddyledus i'n gweithwyr iechyd, braf yw cael llongyfarch un ohonynt sef Mathew Cliffe BM BS, ŵyr Margaret Thomas, ar ei lwyddiant yn pasio SRCS mewn llawdriniaeth orthopedeg. Llongyfarchiadau mawr iddo.

# Llanfachreth

**Profedigaethau**

Cydymdeimlwn gyda Ceinwen Owen a'r holl gysylltiadau teuluol, ar farwolaeth ei chwaer, Megan Tudor Griffith, Llangwnadl (gynt o Gefnclawdd, Trawsfynydd).

Cydymdeimlwn hefyd gyda Medwyn Evans, Penycefn a'r teulu oll, ar farwolaeth ei fam, Margaret Llewelyn Evans, Porthmadog.

# Rhyd-y-main

**Siôn Emlyn**

Llongyfarchiadau i Siôn Emlyn, ar gael ei gynrychioli gan Ryder Management, asiantaeth sydd â swyddfa yng Nghaerdydd a Llundain. Enillodd Siôn radd dosbarth cyntaf mewn Perfformio fis Gorffennaf diwethaf yng Nghanolfan Berfformio Cymru, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, yng Nghaerdydd a bellach mae'n dilyn cwrs MA yno. Edrychwn ymlaen at ddilyn ei yrfa fel actor a dymunwn bob llwyddiant iddo.



**Profedigaeth**

Cydymdeimlwn ag Eirlys Williams, a'r holl gysylltiadau teuluol, ar farolwaeth ei brawd, Fred Rees Williams, Cwm Bwlch Coch.

Yn sgil yr ymbellhau cymdeithasol, mae newyddion yn dal yn brin y mis hwn. Cofiwch, os oes gennych bwt o newydd yr hoffech ei gynnwys yng ngholofn Rhyd-y-main, gallwch gysylltu â Rhianwen drwy e-bost (rhianwen.evans@btconnect.com) neu ar *Messenger*. Os yw'n well gennych, gallwch anfon newyddion yn uniongyrchol at y golygydd ar golygydd@llygadydydd.cymru. Gwerthfawrogir pob cyfraniad.

# Clwb Ffermwyr Ifanc Dinas Mawddwy

**Cawsom gwis ar *'Zoom'* hefo Trefnydd y Sir, Elain Fflur, ar yr 13eg o Fai. Roedd hwn yn gyfle i ni sgwrsio ar ôl cyfnod hir o beidio gweld ein gilydd a chael ychydig o hwyl. Llongyfarchiadau i Arwen am ennill y cwis, a diolch yn fawr i Elain am gynnal y cwis i ni.**



Rydym hefyd yn brysur yn cystadlu yn Rali Rithiol y sir. Cafodd Ruth gyntaf yng nghystadleuaeth 'dywediad neu idiom mewn unrhyw gyfrwng' a chafodd Elen gyntaf ar gystadleuaeth ffotograffiaeth ar y thema 'Adre'.

Mae pwyllgor prif swyddogion sir Feirionnydd hefyd wedi lansio cyfrif Snapchat sef 'cffimeirionnydd' gyda rhywun o'r pwyllgor yn gyfrifol amdano bob wythnos. Mae'n rhywbeth hwyliog sydd yn gadael i chi gael sbec ar fywyd aelodau'r sir!

Byddai'r clwb hefyd yn hoffi llongyfarch Mared Fflur Jones, sydd yn aelod gweithgar o'r clwb am ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth ryddiaith yr Urdd, Eisteddfod T eleni. Da iawn ti Mared, rydyn ni i gyd yn falch iawn ohonot ti!

# Gronyn o'r Odyn

**MEHEFIN**

***Glasach yw nef Mehefin - eleni***
***Melynach yw'r eithin,***
***Yn ein bro 'does neb yn brin***
***A chymaint ar ei chomin.***

***Machraeth***

Gwelwyd coed ceirios yn llawn blodau, ac yn hynod o dlws. Dylai'r gwenyn fod wedi cryfhau eu niferoedd erbyn hyn ac fe fyddant yn gwledda ymysg y perllannau.

Daeth dant y llew yn ei ogoniant ac yn arbennig o bwysig i wenyn a phryfaid eraill. Bu newid yn y boblogaeth adar, ac mae nifer o ymwelwyr yn y gwrychoedd, heb sôn am ar hyd y glannau.

Dyma'r cyfnod pan fydd côr y wawr ar ei orau, ac yn werth gwrando arno, ond bydd angen codi'n gynnar iawn.

Mae'r tymor nythu wedi dod i ben tua chanol Mehefin. Cyfnod magu cywion sydd yn dilyn ac mae angen gofal arbennig gan y rhieni, gan fod adar ysglyfaethus yn rheibio cywion.

***Mair C Jones***

# Mudiad Meithrin

**Cyhoeddi Rhestr Fer**
**Pumed Seremoni**
**Gwobrau Mudiad Meithrin**

**Mae Mudiad Meithrin wedi cyhoeddi rhestrau'r tri uchaf ar gyfer ei Seremoni Gwobrau flynyddol sy'n cydnabod a dathlu'r gwaith da sy'n cael ei wneud ar lawr gwlad yn ei ddarpariaethau.**

Bwriedir cynnal y Seremoni Gwobrau yn Theatr y Werin, Aberystwyth ar 17eg o Hydref eleni, yn ddibynnol ar ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gynnal digwyddiadau yn sgil Covid-19.

Torrwyd pob record o ran niferoedd gan i dros 450 o enwebiadau gael eu cyflwyno ar gyfer deg categori; Ardal Tu Allan, Gwirfoddolwr, Arweinydd, Cylch Ti a Fi, Cynhwysiant, Cynorthwy-ydd, Dewin a Doti, Meithrinfa Ddydd, Cylch Meithrin a Phwyllgor.

Mae ychydig o newid i'r drefn o ddyfarnu'r enillwyr i'r categori Cylch Meithrin eleni – cafodd y tri uchaf eu dewis o bob 4 talaith gydag enillydd ym mhob talaith ac yna byddwn yn cyhoeddi un o'r enillwyr yma'n enillydd cenedlaethol.

Meddai Leanne Marsh, Pennaeth Datblygu Gwasanaethau Mudiad Meithrin:

"Mae'r Seremoni Gwobrau'n rhoi cyfle i Mudiad Meithrin gydnabod a diolch i'n staff a'n gwirfoddolwyr ar lawr gwlad. Cafodd bawb gyfle i enwebu unigolion o Gylch Meithrin; Cylch Ti a Fi neu feithrinfa ddydd am wobr mewn deg gwahanol gategori."

Cyfarfu'r panel gwobrwyo yn ddigidol ar ddiwedd mis Mai a dewiswyd y tri uchaf ym mhob categori.

Meddai Dr Gwenllïan Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin:

"Roedden ni'n gobeithio y byddai pobl yn manteisio ar y cyfle i enwebu cylch lleol neu feithrinfa sy'n haeddu cydnabyddiaeth ac rydym wedi gwirioni ein bod wedi derbyn cannoedd o enwebiadau! Mae'n ffordd hyfryd i staff a gwirfoddolwyr gael eu cydnabod trwy gael eu henwebu gan rieni'r plant sy'n eu gofal."




# Teyrnged i Shirley Clough
## gan ei merch Susie



**Daeth Mam i Dolgellau tua 1989-1990 i fyw gyda Peter Clough. Roedd wedi ei adnabod ers blynyddoedd maith pan oedd hi'n byw yn Sale, Swydd Caer. Symudodd Peter i Ddolgellau pan adeiladwyd ystad Nant y Gader tua 1987 ac ymgartrefodd y ddau yn fuan iawn, gan ymroi i fywyd ac amryw fudiadau yn y dref.**

Roedd Mam a Peter yn hoff iawn o chwarae bowls a golff, ac felly roedd ganddynt fywyd cymdeithasol prysur. Priodwyd y ddau yn Chwefror 1996 yn y Gofrestrfa yn Nolgellau.

Roedden' nhw'n bâr cymdeithasol iawn, gan ymwneud â'r RSPCA, gyda Peter yn Drysorydd a Shirley yn Ysgrifennydd. Roedd y ddau yn giamstars ar ddal cathod strae ac yna gwneud yn siŵr eu bod yn cael yn eu meicrosglodio *(micro chipped)*. Cefais i un o'r cathod gafodd ei mabwysiadu ganddynt, gan iddi fynd dros amser yn rhy hyderus ac yn ymosod ar eu cathod hwy; fe dosturiais drosti, a bu yn byw hefo mi am ddwy flynedd ar bymtheg.

Bu Mam yn Gownselydd gyda Cyngor ar Bopeth am bymtheg mlynedd, ac yn arbenigo mewn materion ariannol a dyledion. Yr hyn oedd yn rhoi mwyaf o bleser iddi oedd cael canlyniad boddhaol i'w chleientau. O edrych drwy rhai o sylwadau ei chyd gynghorwyr wrth iddi ymddeol yn 2001, rwy'n credu iddi gael cryn lwyddiant yn y maes hwn.

Un arall o diddordebau y ddau oedd Papur Llafar y Deillion. Bu mam wrthi'n recordio yn gyson gydag amryw o bobl eraill, er mwyn cael dosbarthu y CD i'r deillion a'r rhannol ddall yn yr ardal. Eisteddais gyda hi mewn un sesiwn, a fedrwn i ond chwerthin yn ddistaw bach wrth iddi siarad yn ei llais *"posh"*. Yn ystod y cyfnod hwn, bu hefyd yn recordio gwerslyfrau ar gyfer merch ddall a oedd yn astudio'r gyfraith mewn Prifysgol. Mae'r ferch hon erbyn hyn yn fargyfreithwraig, ac rwyf yn hynod o falch o'r cymorth a roddodd Mam i'r ferch.

Mewn amser, dirywiodd iechyd Mam a Peter, ac yn drist i ni bu farw Peter yn 2013. Yn 2012 cafodd Mam ddiagnosis o *Vascular Dementia* yn dilyn strôc rhyw flwyddyn ynghynt. Yn 2014 daeth Ian fy mrawd a'i wraig Steph yn ôl o Sbaen i Gymru er mwyn bod yn agosach at Mam a bod o gymorth iddi. Yn 2016 fe benderfynais innau ddod yn ôl o'r *West Indies* i aros gyda hi oherwydd bod ei hiechyd wedi dirywio. Yn ddiweddarach, cawsom gefnogaeth ardderchog gan dîm Gofal Cymdeithasol yma yn Nolgellau, ond yn drist bu i'm hannwyl fam farw'n dawel yn Nant y Gader ar y 8fed Mehefin.

Byddwn yn gweld ei cholli'n fawr.


GLYN REES A'I FAB
TREFNWYR ANGLADDAU SEF. 1880

CAPEL GORFFWYS PREIFAT
GWASANAETH ANGLADDAU CYFLAWN

5 RHES ELDON, SGŴAR ELDON,
DOLGELLAU, LL40 1PY
FFÔN: 01341 422322

GLASFRYN, STRYD FAWR, Y BERMO,
GWYNEDD, LL42 1DS
FFÔN: 01341 280321

TREMYNFA, DINAS MAWDDWY,
MACHYNLLETH, POWYS, SY20 9JD
FFÔN: 01650 531240

Gwefan - www.glynreesfunerals.co.uk
Ebost - info@glynreesfunerals.com

National Association of Funeral Directors Est 1905

Ymwelwch â ni ar Facebook



I. B. Williams a'i Fab Cyf.



Gwaith Cerrig
Canolbarth Cymru
LLANBRYNMAIR
SEFYDLWYD 1918

Arbenigwyr mewn gosod cofebau gwenithfaen a llechfaen yng Nghymru

01650 521250

*Hefyd Ystafelloedd Arddangos:*
Dolgellau, Bermo a Machynlleth
*trwy apwyntiad*

www.ibwilliams.co.uk

# Oedfaon

***Oedfaon Gofalaeth Eglwysi Annibynwyr Dinas Mawddwy, Dolgellau a Llanelltyd***

*Oherwydd pryderon am ledaeniad feirws Covid-19 mae pob gwasanaeth yn addoldai'r Ofalaeth wedi ei ohirio am gyfnod amhenodol. Bydd trefniadau amgen yn cael eu gweithredu. Mae adnod y dydd, myfyrdodau a gwasanaethau byr i'w gweld ar dudalen Facebook yr Ofalaeth. Paratowyd myfyrdod ar Gryno Ddisg ar gyfer aelodau sydd heb fynediad i'r dudalen Facebook.*

*Pan fo angen cymorth ymarferol neu ysbrydol, cysylltwch gyda'r Gweinidog, 01678 540545.*

*Ni chynhelir oedfaon yng Nghapel y Tabernacl; Bethesda, Llanymawddwy; Bethsaida, Mallwyd; Ebeneser, Dinas Mawddwy.*

*Ni chynhelir oedfon chwaith yn y canlynol- Capel Salem, Dolgellau. Capel Ebeneser, Dolgellau. Capel Rhyd-y-main. Capel yr Annibynwyr, Brithdir.*

***Yr Eglwys Yng Nghymru – Ardal Weinidogaeth Bro Cymer***

*Oherwydd y Coronafirws, mae pob addoliad cyhoeddus yma ac yng ngweddill yr Eglwys yng Nghymru wedi'i atal am y tro a'n hadeiladau eglwys ar glo, gwaetha'r modd. Ond mae Eglwys yr Arglwydd Iesu Grist yn dal ar agor, achos mae o wedi atgyfodi, mae o'n fyw ac mae o gyda ni heddiw, lle bynnag rydyn ni! Cewch chi ymuno â ni i'w addoli ac i wrando ar ei air trwy ein tudalen Facebook 'Bro Cymer – Eglwysi / Churches' neu @brocymerdolgellau.*

*Atgyfododd Crist! Atgyfododd yn wir - Alelwia!*

*Y Parch Tim Webb*
*Ficer ac Arweinydd Tîm, Ardal Weinidogaeth Bro Cymer*

## Neges Heddwch ac Ewyllys Da Urdd Gobaith Cymru 2020

**Cafodd Neges Heddwch ac Ewyllys Da'r Urdd ei chyhoeddi ar y 18fed o Fai eleni. Cyfeirio at y pandemig Coronafeirws oedd y Neges y tro hwn a'i diben oedd ysbrydoli pobl o amgylch y byd ac i ysgogi gweithgarwch dyngarol a rhyngwladol. Mae'r Neges wedi ei chyhoeddi yn ddi-dor bob blwyddyn ers 1922 i bobl ifanc ar hyd a lled y byd, a hi yw'r unig neges o'i math yn y byd!**

Dechreuwyd y Neges gan y Parchedig Gwilym Davies o Gwm Rhymni, oedd yn heddychwr ac yn flaenllaw yn sefydlu UNESCO. Dros y blynyddoedd mae'r Neges wedi cynnwys nifer o bynciau amrywiol megis y bom atomig, ffoaduriaid, rhyfel a chynhesu byd eang. Cafodd y Neges eleni ei chyfieithu i 57 iaith er mwyn cyrraedd mwy o bobl o amgylch y byd.

Cefais i'r fraint eleni o fod yn rhan o'r Neges gyda nifer o bobl ifanc eraill. Gan ein bod yng nghanol cyfnod clo yn recordio'r Neges roedd hi'n broses wahanol i'r arfer. Cawsom gopi o'r Neges dros e-bost, ac yna roedd rhaid i ni ddewis darnau penodol i'w hadrodd ac yna ffilmio ein hunain (cefais fy nhad i fy helpu i ddal y camera). Yna gyrru'r clip yn ôl i swyddfa'r Urdd lle roedd yn cael ei olygu gyda chlipiau pawb arall gan sicrhau bod y darnau yn llifo i'w gilydd. Yna cafodd ei chyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol.

***Swyn Melangell Hughes, Dinas Mawddwy***




## Newyddion Betsi Cadwaladr

**Bydd olrhain cysylltiadau yn ein helpu i fyw a gweithio ochr yn ochr â'r feirws tra bod gwaith ymchwil yn parhau i ganfod triniaethau mwy effeithiol a brechlyn.**

Dyma sut fydd y broses yn gweithio ⬇

> Cael prawf os oes gennych symptomau

> Mae un o'n swyddogion yn eich ffonio

> Rhowch eich cysylltiadau diweddar iddynt

> Maent yn gofyn i'ch cysylltiadau ynysu

> Rydym yn atal coronafeirws

Gwnewch gais am brawf: https://llyw.cymru/gwneud-cais-i-gael-prawf-coronafeirws

Byddwch yn wyliadwrus am unrhyw arwyddion o darfu ar seiberddiogelwch, ffug-negeseuon, gwe-rwydo neu dwyll.

Ni fydd neb yn gofyn i chi am unrhyw wybodaeth ar wahân i restr o'ch cysylltiadau. Os oes gennych unrhyw amheuon yna ni ddylech roi'r wybodaeth.

## Unwaith yn unig fyddwch chi'n marw.........

**Heb ewyllys, mae eich ystad yn atebol i'r gyfraith. Mae'r Rheolau Marwolaeth Heb Ewyllys yn rhestru mewn trefn benodedig y perthnasau gwaed hynny a fyddai'n etifeddu. Mae'r rhestr hon yn gymharol gyfyng ac os nad oes unrhyw un o'r perthnasau a benodir yn y rhestr wedi eich goroesi yna aiff eich holl eiddo i'r Goron.**

Heb ewyllys, os ydych chi'n briod a bod gennych blant a bod gwerth eich ystad yn fwy na £270,000, ni fydd eich gŵr neu wraig yn etifeddu popeth. Byddant yn etifeddu £270,000 a rhennir y gweddill yn gyfartal rhyngddyn' nhw a'ch plant. Os yw gwerth eich cartref yn fwy na £270,000 nid yw hyn yn ddelfrydol ac fe all achosi trafferthion mawr.

Mae ewyllys yn rhoi'r cyfle i chi benodi gwarchodwyr ar gyfer plant ifanc. Heb benodiad fel hyn gallai fod anghytuno mawr ynglŷn â phwy fydd yn gofalu amdanyn nhw ar ôl eich marwolaeth.

Heb ewyllys, oni bai eich bod yn briod gyda'ch partner neu mewn partneriaeth sifil gyda nhw, fydden nhw'n cael dim byd. Chaiff llys blant nad ydych wedi'u mabwysiadu ddim byd 'chwaith os nad oes ewyllys. Mae gwneud ewyllys yn rhoi'r cyfle i chi ddarparu ar gyfer teuluoedd estynedig.

Mae ewyllys hefyd yn eich galluogi i nodi dymuniadau penodol ar gyfer eich angladd. A ydych am gael eich claddu neu i'ch corff gael ei losgi? Efallai bod gennych gyfarwyddiadau penodol ynglŷn â lle y dymunwch gael eich claddu neu lle y dymunwch i'ch gweddillion gael eu gwasgaru.

Mae gwneud ewyllys gan wybod eich bod wedi nodi eich dymuniadau yn dod â thawelwch meddwl, ac yn sgil yr argyfwng presennol, mae hi efallai yn bwysicach nag y bu hi erioed i wneud ewyllys.

***Ruth Ceri Jones LL.B. Cyfreithwraig***

Os hoffech drafod llunio ewyllys yn y Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar ruthcjones25@aol.com

Ruth Ceri Jones LL.B.

Aelod o Gymdeithas Ysgrifenwyr Ewyllysiau


**Ruth Ceri Jones LL.B.**

***'Yr wyf i yn datgan mai hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf'***

Os oes gennych ddiddordeb mewn cael ewyllys yn yr iaith Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar:
**ruthcjones25@aol.com**

(Aelod o Gymdeithas Ysgrifenwyr Ewyllysiau)

# Ewro 2021?

**Un o'r rhwystredigaethau mawr oedd gennyf yn ystod fy ngyrfa fel athro ac wedyn fel pennaeth oedd nad oedd yn hawdd dilyn fy nghariad tuag at dîm pêl-droed Cymru ar eu teithiau ar draws Ewrop. Pan oedd y plant yn tyfu fyny prin iawn oedd y gemau cartref a fethwyd yng Nghaerdydd, ond roedd teithio i gemau oddi cartref fel arfer yn golygu colli diwrnod o waith, ac roedd hynny wrth gwrs yn amhosib.**



*Aled, Erfyl, Emyr a Ceirion uwchben Budapest*

Wedi ymddeol ychydig yn fuan, roedd dilyn Cymru yn un o mhrif fwriadau. Wrth gwrs bûm yn hynod ffodus o ddilyn Cymru trwy'r gemau rhagbrofol yn Israel, Gwlad Belg a Chyprus ac wedyn treulio mis yn Ffrainc yn Ewro 16. Roedd cyrraedd rowndiau terfynol cystadleuaeth yn freuddwyd nas gwireddwyd ers 1976, a gan fy mod o fewn ychydig fisoedd o ymddeol, roeddwn yn cael bod yn rhan o'r hanes.

Roedd Ffrainc yn brofiad a fydd yn byw gyda mi am byth. O Bordeaux i Lens a Toulouse. Ymlaen wedyn i Paris, Lille a Lyon yn rhan o'r 'Wal Goch' chwedlonol. Gwneud ffrindiau newydd, ail-gynnau cyfeillgarwch ag eraill, a chael ein croesawu ymhobman. Cofiaf i Faer Bordeaux estyn croeso mawr i'r Cymry ddychwelyd i'r ddinas, gymaint oedd yr argraff ffafriol a wnaed yno gan y Cymry.



*Croeso i'r Cymry yn Bordeaux*

Yn wir roedd ceir yn canu cyrn, yn cymeradwyo'r Cymry ble bynnag yr aem. Doedden nhw ddim yn deall pam fod y Cymry mor wahanol i gefnogwyr Lloegr a oedd wedi codi twrw yn Marseille ar ddechrau'r gystadleuaeth.

Gallwch ddyfalu felly bod edrych ymlaen mawr ar gyfer Ewro 20! Wedi bod yn y gemau rhagbrofol yn erbyn Hwngari, Croatia a Slovakia gan brofi wythnos yng ngwres Budapest, noson yn ninas hyfryd Zagreb ac wedyn pedair noson yn yr anhygoel Bratislava, roedd edrych ymlaen mawr. Wedi i'r enwau ddod allan o'r het gwelwyd fod Cymru i chwarae dwy gêm yn Baku, Azerbeijan, ac un yn Rhufain.

Mae cefnogwyr Cymru yn teithio dramor mewn amrywiol ffyrdd. Mae rhai yn mynd ar deithiau sydd wedi'u trefnu, ond mae'r mwyafrif llethol yn ffeindio'u ffyrdd amrywiol eu hunain i'r gemau. Dyna fydd y sgwrs gyntaf yn aml wedi cyrraedd – 'Sut gyrhaeddaist ti 'ma?' Mae'r atebion yn rhyfeddol – *trains, planes and automobiles*- hwnna dio!

Mae sawl grŵp gwahanol yn teithio'n gyson o Ddolgellau ar gyfer gemau tramor. Erbyn hyn, mae profiad wedi ein dysgu bod sawl ffordd i gyrraedd gwlad dramor a byddwn yn ceisio gwneud hynny yn y ffordd rataf bosib. Bellach mae grŵp ohonom yn tueddu i deithio efo'n gilydd i'r gemau, a bu tipyn o drafod sut y byddem yn cyrraedd Baku. Ystyriwyd y trên a fyddai'n mynd â ni drwy'r Almaen a Gwlad Pŵyl, ymlaen drwy Rwsia i Azerbaijan. Cyfuniad o'r trên ac awyren, ond yn y diwedd gwelwyd mai'r ffordd rataf oedd hedfan o Fanceinion i Kiev, treulio deuddydd yn y ddinas hyfryd honno cyn hedfan ymlaen i Baku. Roeddem hefyd wedi trefnu fflat foethus i wyth am ddeng diwrnod yn Baku drwy Air B&B.

Y cam nesaf oedd trefnu mynd o Baku i Rufain, a'r bwriad oedd dal trên dros nos o Baku i Tiblisi yn Georgia, ac wedyn hedfan oddi yno i Athen gan ddal awyren rad oddi yno i Rufain. Ond cyn i ni gadarnhau'r trefniadau hyn fe ddaeth Covid-19 i chwalu'n cynlluniau. Wrth reswm mae'n siom na fyddwn yn Baku ym Mehefin, ond gyda lwc cawn fentro yno'r flwyddyn nesaf.

O ran y pêl-droed dydy hyn ddim yn beth drwg o gwbwl. Mae gennym dîm


*Y dathlu wedi curo Hwngari i gyrraedd Ewro 2020*

ifanc a fydd wedi cael blwyddyn arall o brofiad erbyn haf nesaf. Bydd hyn o fudd mawr i Ampadu, Matondo a James ymysg eraill. Roedd nifer o'n chwaraewyr allweddol wedi cael anafiadau - Joe Allen "yw fy mugail" yn mynd i golli'r gystadleuaeth a David Brooks, Joe Rodon a Chris Mephan yn dychwelyd ar ôl anafiadau. Doedd Gareth Bale ddim wedi chwarae llawer i Madrid ac Aaron Ramsey yn sefydlu'i hun gyda Juventus yn ogystal. Wrth


*Y Wal Goch yn Osijek, Croatia*

gwrs ar y llaw arall, gall blwyddyn arall fod yn rhy hwyr i Ashley Williams.

Mae cefnogwyr Cymru wedi hen arfer gweld ein tîm yn methu, yn colli ar y cam olaf un, a dydy'n disgwyliadau ni erioed wedi bod yn uchel. Ond rhaid dweud bod addewid y bydd tîm 2021 yn un gwell na 2016 ac y gallem greu ambell sioc arall yn y gystadleuaeth. Does dim disgwyliad, dim pwysau, dim hawl - byddwn yn derbyn beth ddaw i'n rhan gyda gwên ac yn symud ymlaen yn hapus gan edrych ymlaen yn eiddgar at ble fydd y gystadleuaeth nesaf yn mynd â ni!

***Ywain Myfyr***


ELEANOR DAVIES OPTOMETRIST LTD
Stryd Plas yn Dre
Dolgellau, LL40 1AD
01341 423773
www.edoltd.cymru
Trwy'r cyfnod ansicr hwn, yr ydym yn parhau i ddarparu cyngor a gofal i'r rhai sydd gyda problemau llygaid. Peidiwch oedi cysylltu â ni gyda unrhyw bryderon.
Prawf llygaid i bawb
Gofal llygaid mewn argyfwng
Asesiadau golwg gwael
Gosod a Darparu lensys cyffwrdd
Fframiau Dylunwyr a steiliau ar gyfer pawb
Mae Eleanor, Malcolm, Helen, Gwen, Delyth, Clare a Holly yn edrych ymlaen at eich gweld.
Partridge Opticians

# Criced

### Haf gyda haul ond dim criced

**Gyda'r dechrau gorau, o ran tywydd, ers 1929 mae'r ffaith nad ydym yn gallu chwarae criced yn un anodd i aelodau Clwb Criced Dolgellau. Er bod dim criced swyddogol ar gaeau'r Marian, mae llawer o waith da wedi bod yn digwydd o fewn y clwb.** Mae'r pwyllgor wedi bod yn cynnal cwis a nosweithiau cymdeithasol gyda dros 40 yn mynychu dros ddwy noson. Mae hefyd noson Bingo ar y gweill yn ogystal â nosweithiau eraill. Yn ogystal mae'r clwb wedi bod yn mynd yn bellach trwy broses sydd yn cydnabod safon o fewn chwaraeon i bobl ag anableddau. Ar ddechrau'r cyfnod hunan-ynysu roeddem fel clwb yn ffodus i ennill rhuban Insport. Ar ddechrau mis Mehefin rydym wedi clywed bod y clwb wedi bod yn llwyddiannus yn ennill gwobr Efydd ac Arian Insport. Braf yw cael cydnabyddiaeth o'r gwaith sydd wedi digwydd yn y maes yma.

Mae ein hyfforddwr hefyd wedi bod yn gweithio'n galed i gadw criced ym meddyliau ein haelodau. Mae nifer o'r hyfforddwyr wedi bod yn rhannu fideos hyfforddi gyda'r aelodau, ieuenctid, dynion a menywod, yn wythnosol ers i'r hunan-ynysu ddechrau. Yn ogystal â rhain rydym wedi bod yn rhoi sialensau i'r bobl ifanc. Fel y nodwyd uchod, er nad oes criced ar y Marian, mae nifer o ardal Dolgellau wedi bod yn chwarae criced gartref. I gyd-fynd gyda hyn, mae rhai hyfforddwyr allanol wedi bod yn rhannu eu harbenigedd gyda'n chwaraewyr. Hefyd, mae'r holl aelodau wedi cymryd rhan mewn criced rhithiol lle mae aelodau yn bowlio, batio a maesu yn erbyn ei gilydd.




*Joel Eynon yn mwynhau cyfranogi yn y criced rhithiol*


Edrychwn ymlaen at weld criced ar y Marian yn y dyfodol agos, pan mae'n ddiogel i chwarae. Os ydych, yn ystod y cyfnod yma, wedi ystyried chwarae criced neu wirfoddoli yn y clwb, cysylltwch â ni ar clwbcriceddolgellau@gmail.com. Gobeithio bod pawb yn ddiogel yn y cyfnod heriol yma.

# Pêl-droed

**Efallai i'r tymor pêl-droed ddod i ben nôl ym mis Mawrth, ond mae aelodau clwb pêl-droed Dolgellau wedi gwneud y defnydd gorau o'r cyfnod segur yma drwy weithio'n ddygn ar wella'r adnoddau lawr ar y Marian.**



Mae pêl-droed yng Nghymru yn cael ei weddnewid dros yr haf yma wrth i gynghreiriau gael eu trefnu o'r newydd. Bydd y clybiau yn cael eu gosod mewn haenau ar ffurf pyramid, gyda'r Uwch Gynghrair yn yr haen uchaf. Mae Dolgellau yn awyddus i gyrraedd y drydedd haen, ac er mwyn sicrhau hynny roedd gwelliannau i'w gwneud. Roedd 'eisteddle' lawr ar y Marian ers rhai blynyddoedd wrth gwrs, ond doedd dim seddau ynddo! Sicrhawyd 56 o seddau a'u gosod yn yr eisteddle.




I gyrraedd y drydedd haen mae'n rhaid cael system sain yn ogystal, a bellach mae honno wedi'i gosod yn ei lle a chaban i reoli'r cyfan yn ystod gemau. Wrth gwrs gwnaed yr holl welliannau gan ddilyn canllawiau ynysu a phellter cymdeithasol.

Pan fyddwch yn mynd am dro ewch heibio'r cae; mae o'n werth ei weld ac yn barod i'ch croesawu i gefnogi'r hogia' pan a phryd y bydd y tymor nesaf yn cychwyn.

Gellir prynu sedd a rhoi eich enw arni am £80 drwy gysylltu â'r clwb. Y nôd yw cael 100 sedd erbyn Ebrill 2021. Adeiladwyd ffens o amgylch y cae, a chwblhawyd ffens arall ar hyd ochr y cae ynghyd â llwybr concrid. Gosodwyd cawodydd ychwanegol yn yr ystafelloedd newid yn ogystal.








# Cyfweliad ag Elen Evans

*Lluniau: Rod Davies*

**Yn ôl at Rygbi am y rhifyn yma, a siawns i holi un o sêr amlwg y gamp i ferched trwy Gymru gyfan! Elen Evans o Ddinas Mawddwy. Dyma grynodeb byr o'i gyrfa lewyrchus a llwyddiannus.**

Wedi dechrau yma yn ei harddegau, buan iawn y datblygodd ei gyrfa i chwarae i dîm rygbi merched yn Waterloo, Caernarfon, Y Scarlets, Cymru dan 19, Cymru 7 bob ochr, Tîm Rygbi Merched Cymru, tîm Merched y Barbariaid, a thîm cyntaf erioed Merched RGC.



*Tîm merched Dolgellau yn erbyn Merched yr Anan - Mis Medi 2009*

Derbyniodd ei chap rhyngwladol cynta erioed yn 2004 i ffwrdd yn erbyn Iwerddon gyda Chymru yn ennill o 14-0. Wedi cynrychioli Cymru mewn 3 Cwpan y Byd a 73 Cap yn ddiweddarach daeth y cyfan i ben yn Belfast yn 2017, yn erbyn Yr Iwerddon eto, lle dechreuodd ei gyrfa 13 mlynedd ynghynt.

I gloi'r cyfan fe ddewiswyd Elen i gynrychioli Tîm Merched y Barbariaid cyntaf erioed yn ôl ym mis Hydref 2017 yn erbyn Munster yn Limerick. Cydnabyddiaeth ryngwladol hollol haeddiannol o'i gyrfa rygbi.

Yn Ionawr 2018 cafwyd noson i ddathlu gyrfa Elen yn y Clwb Rygbi yng nghwmni ei ffrindiau a gwesteion o bell ac agos, gan gynnwys Dennis Gethin, Llywydd yr Undeb a Rupert Moon, cyn fewnwr i Lanelli a Chymru.

Ond doedd dim stop ar y rygbi i Elen. Wedi cyfnod yn cynrychioli merched RGC, mae Elen wedi bod yn rhan allweddol o dîm hyfforddi'r tîm cyntaf yma yn Nolgellau ac mae ei hymrwymiad i'r Clwb a'r gamp yn gyffredinol yn glodwiw o hyd.

Yng nghanol y prysurdeb mae hi wedi llwyddo i ddod yn fam i Tiaan Evans Hughes a anwyd ym mis Medi 2019, felly dyma holi ychydig arni hi!

C1 : Cychwyn gyda chwestiwn amlwg. I'r darllenwyr hynny sydd ddim yn dilyn Rygbi Gogledd Cymru a rygbi yn America yn fanwl, efallai gelli esbonio sut y dewisodd Steve a thithau yr enw Tiaan? Ti'n meddwl bydd *pedigree* rygbi Ty'n Celyn ganddo ?

Ie,Tiaan, 'da ni'n cael y cwestiwn yma'n aml i fod yn deg. Roeddan ni'n edrych am enw gwahanol ond eto ddim yn sowndio yn rhy Seisnigaidd. Dwi wedi clywed yr enw Tiaan drwy rygbi lawer gwaith ac yn ei hoffi. Bues yn Ne Affrica ar daith efo Cymru yn 2004 a chlywed yr enw draw yno a hefyd fel da chi'n sôn, roedd Tiaan Loots yn chwarae i RGC yn ddiweddar. Efo'r enw a'r gwaed rygbi, gobeithio bydd na rhyw siap arno rhyw dydd os na fydd Dad wedi gael o fewn i fotorbeics gynta!!!

C2 : Mae yna si dy fod ar y ffordd yn ôl i'r byd rygbi yma yn Nolgellau, er gellir dadlau dy fod heb adael. Mae'n amlwg fod ymrwymiad yn bwysig i ti i ddelio gyda gwaith, teulu, a rygbi! Faint mor bwysig ydi ymrwymiad i ti?



*Hyfforddwraig Dolgellau v Drenewydd - 2019*

Ydw, dwi wedi sôn fy mod yn dod nôl i helpu efo'r hogiau. Mae hyfforddi a helpu Clwb Rygbi Dolgellau yn bwysig iawn i fi. I fod yn onest roeddwn yn meddwl yn syth ar ôl cael Tiaan fyddwn i'n ôl, ond mae cael plentyn yn newid eich ffordd o edrych ar fywyd. Doedd dim byd arall yn bwysig am y misoedd cynta ond bod efo Tiaan, ond rwan dwi'n meddwl bod hi'n amser dod yn ôl. Roeddwn hefyd wedi bod yn ymarfer yn weddol galed fy hun y misoedd diwethaf ma i ddod yn ôl i chwarae chydig o 7's dros yr haf ond yn anffodus ma coronavirus wedi rhoi stop ar bopeth!



*Hyfforddwraig Dolgellau - Gêm Goffa Pat Jefferson - Medi 2018*

C3 : Faint oedd dy oed di'n cychwyn chwarae rygbi, ac yn lle oedd hynny ?

Heb ddeud fy oedran yn union, dw i'n mynd nôl dipyn bach pan ddaru fi ddechre! Yr adeg honno doedd dim rygbi iau i ferched ac yn anffodus roedd rhaid aros nes yn 16 i ymuno â thim merched hŷn Dolgellau. Dwi o hyd yn meddwl fod merched a bechgyn Clwb Dolgellau yn lwcus iawn o'r system sydd yn ei lle ar hyn o bryd iddyn nhw. Mae rygbi ar gael iddynt o 5 oed fyny at oedran hŷn. Mae'n wych ac yn glod i'r clwb.

C4 : Sut le oedd yna adra yn Ty'n Celyn ar gychwyn penwythnos cyn i ti a dy frodyr, Dylan a Geraint, baratoi i fynd allan i fan hyn a fan acw i chwarae rygbi.

Mam, y graduras, roedd hi'n 'full go' am rai blynyddoedd acw! Roedd Dad yn dal i chware rhyw chydig pan ddechreuais i hefyd. Felly y bechgyn wrthi dydd Sadwrn a finna dydd Sul. Roedd na lwythi o olchi i neud a rhedeg tacsi i ni gyd. Dwi'n siwr bod hi'n cael llond bol gwrando ar y *debrief* rownd y bwrdd bwyd ar ôl bob gêm hefyd!

C5 : Heblaw am Justin Kelly, pa hyfforddwyr, neu chwaraewyr eraill sydd wedi dylanwadu fwyaf arnat yn ystod dy yrfa?

Kylie Wison. Pan ddechreuais chware rygbi, hi oedd capten Cymru ar y pryd ac rwy'n falch o ddeud mai Gog arall oedd hi. Roedd hi'n hyfforddwr dan 19 Gogledd Cymru i mi a hi oedd yn fy annog i ymarfer a dilyn y llwybr i'r tîm rhyngwladol. Roedd hi'n chwaraewraig anhygoel hefyd a dwi mor falch i mi gael y cyfle i chware efo hi i dîm Cymru yn y diwedd hefyd.

*Ewch i dudalen 28*

*Isod: Gwylio Dolgellau v Rhuthun gyda Tiaan - Ionawr 2020*



*Parhad o dudalen 27*

C6 : Yn fras beth fyddai trefn y diwrnod cyn gêm fawr ‘adra’ yn ystod dy yrfa ryngwladol ?

Cyn pob gêm ryngwladol roeddan ni'n cael ein crysau wedi eu cyflwyno y noson cyn y gêm ond roedd ein shorts a sanau yn y stadiwm yn barod at y gêm. Ond am rhyw reswm ers pan dwi’n cofio dwi wedi bod yn cael fy sanau hefo’r crys achos roeddwn yn teimlo fod rhaid i fi gael y sanau amdanaf ar y ffordd i'r gêm. Roedd pob rheolwr trwy fy ngyrfa yn gwybod hyn ac roedd fy mhâr o sanau i'n barod bob tro efo'r crys

C7 : Sut oeddet yn delio gyda nerfau cyn gêm fawr ?

Doeddwn ddim yn cael nerfau i fod yn onest. Y nerfau mwyaf oedd aros i'r tîm gael ei enwi ac unwaith ro'n i’n gweld fy mod yn y tîm roeddwn yn edrych mlaen wedyn mwy na dim. Yn dibynnu os oedd




*Hyfforddwraig Dolgellau v Bridgend Sports - 2019*

Dad yn dod i weld y gêm mi fasa lefel y nerfau trwy’r to yn disgwyl am y 'review' ar y ffordd adre neu bore wedyn!

C8 : Be ydi uchafbwynt dy yrfa, neu dy hoff atgof , gyda Cymru / Barbariaid ...ac yn y blaen ?

Does dim un yn sefyll allan achos dwi'n meddwl mod i mor lwcus o fod wedi cael llawer o dyddiau da efo rygbi..... Cais cyntaf i ferch yn Stadiwm y Mileniwm, chware mewn tair Cwpan y Byd, chware ddwywaith i’r Barbariaid, chware yn y gêm gyntaf i ferched RGC. Dwi’n ddiolchgar o hyd.

C9 : Tips i rai ifanc sydd yn dechrau chwarae ?

Dydi o ddim yn dod yn hawdd, ond os ydech am ddilyn eich breuddwyd, gweithio’n galed, mwynhau a gwneud yn siwr fod ganddoch chi deulu a ffrindiau da tu ôl i chi yn eich annog chi fel oedd gen i. Ro'n i'n lwcus.

Diolch yn fawr Elen, a phob lwc i ti eto ar weddill dy yrfa, ac i’r teulu newydd

# Gwybodaeth hygyrch ar wefan Cyngor Gwynedd

**Am fod rheoliadau cenedlaethol Coronafeirws yn golygu newid i rai gwasanaethau, mae'n bwysicach nag erioed fod pobl yn cael gafael ar yr wybodaeth gywir am eu cyngor lleol ar adeg fel hyn. Oherwydd hynny, mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn addasu tudalennau Covid-19 ar eu gwefan i wneud y siŵr fod yr wybodaeth ar gael mewn ffordd sydd fwyaf hwylus i drigolion y sir.**

Yn gyntaf, mae clipiau sain mewn Cymraeg a Saesneg wedi cael eu hychwanegu ar dop rhai o'r prif dudalennau; mae'r rhain yn cynnwys ‘datganiad y prif weithredwr’ a gwybodaeth am ‘gwirfoddoli’.

Mae’r Cyngor hefyd wedi bod yn gweithio gyda chwmni Recite er mwyn sicrhau fod yr wybodaeth sydd ar y wefan ar gael i drigolion yn y fformat mwyaf addas iddyn nhw. I wneud y tudalennau'n fwy hygyrch, mae’n bosib yn awr newid maint y testun, newid ei liw, a chyferbyniad y testun a'r cefndir, a hefyd mae darllenydd sgrin mewn sawl iaith wahanol.

Mae hyn ar gael ar gyfer y dudalen ‘help i bobl a chymunedau’ a ‘newidiadau i wasanaethau Cyngor Gwynedd’.

Hefyd, mae modd agor fersiwn ‘hawdd ei ddarllen’ er mwyn egluro’r newidiadau i wasanaethau dros gyfnod yr argyfwng.

Meddai’r Cynghorydd Nia Jeffreys, yr Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sy’n gyfrifol am y maes: “Rydan ni eisiau sicrhau fod pob gwasanaeth rydym yn ei ddarparu ar gael i holl bobl Gwynedd – a hynny mewn ffordd sy’n hwylus iddyn nhw.

“Drwy gyflwyno’r meddalwedd Recite a chynnwys fformatau hygyrch ar ein tudalennau gwybodaeth Covid-19 rydym yn gobeithio y byddwn yn darparu'n fwy addas ar gyfer ystod o bobl gan gynnwys pobl dyslecsig, pobl sy’n ddall neu’n rhannol ddall, pobl sydd ddim yn siarad Cymraeg a Saesneg fel iaith gyntaf, pobl efo anabledd dysgu a phobl awtistig.

“Dwi’n annog unrhyw un sy’n cael trafferth i ddarllen testun arferol ar wefannau i fynd i weld beth sydd ar gael.”

Ewch i www.gwynedd.llyw.cymru ar wefan Cyngor Gwynedd a chlicio ar y bocs piws ar dop y dudalen.

*Parhad o dudalen 20*

cynlluniau arwyddo yn cael eu paratoi ac ymgynghori â chynghorau tref.

Hefyd, mae gennym dîm yn ei le i ymgymryd â’r Cynllun Profi ac Olrhain ar draws y Gogledd ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd. Mae hwn yn faes pwysig i ni fedru olrhain hynt y Clwy ac ymateb iddo pan fydd raid

Dyna gipolwg ar rai o’r materion sydd dan sylw ar hyn o bryd ond cyfran fychan iawn o’r gwaith yw hwn ac mae cynnal y gefnogaeth i’n hoedolion a phlant yn mynd yn ei flaen wrth gwrs, a minnau heb grybwyll Addysg eto. Mae trafodaethau yn dechrau ar sut y byddwn yn adfer rhywfaint o’n trefn flaenorol ond bydd y dyfodol yn bur wahanol. Mwy o gyfarfodydd o fore gwyn tan nos ar Zoom neu Teams nes mod 'y mhen i’n troi! O am gael cyfarfod â phobl wyneb yn wyneb wir, a byddai’n bleser diodde f y ciwio yn Bontnewydd er mwyn cael gwneud hynny!

Nôl at y ddesg am y tro....!!

Cofion atoch i gyd

***Dyfrig***



# Michael John Jones
## 10.9.1950 – 8.4.2020

**M.J., Michael John neu Mike, felly yr oeddem yn adnabod Michael John Jones, plentyn canol Cyril a Violet Jones, Tŷ Min, Hermon ar y pryd. Brawd bach i Evelyn a brawd mawr i Helen. Symudodd y teulu i Ddolfrwynog ynghanol 1954 a dyna lle treuliodd ei fachgendod nes priodi â Nerys Wyn yn Chwefror 1974.**



Ysgol Rhydygorlan yng nghwm Abergeirw oedd ei ysgol gyntaf. Un swil iawn oedd Mike bryd hynny ac ni hoffai fynd i'r ysgol heb gwmni Evelyn a Helen, ond erbyn cyrraedd ei arddegau yn Ysgol y Gader, un sylw oedd ar adroddiad yr ysgol oedd…..”tueddu i fod yn uchel ei gloch”, ac felly 'rydym yn ei gofio. Gwaith llaw a phynciau ymarferol oedd ei ffefrynnau yn yr ysgol - gwaith coed, rygbi a mabolgampau. Cynrhychiolodd yr ysgol ym mabolgampau'r sir yn y rasus rhedeg trac a thraws gwlad sawl tro, ac roedd yn aelod o dîm rygbi'r ysgol. Hoffai arlunio yn fawr iawn hefyd, ac roedd yn gartwnydd gwych, ond nid oedd yn rhy hoff o arlunio fel pwnc yn yr ysgol – rhy gyfyngedig. Roedd ganddo barch mawr at Maldwyn Thomas, ei athro gwaith coed a Mr Davies addysg corfforol. Dangosodd ddiddordeb mewn gwyddoniaeth a hanes trwy gydol ei oes.

Roedd yr Eglwys yn bwysig iawn ym mywyd y teulu yn ystod ei fagwraeth a mynychai Mike Eglwys Machreth Sant yn Llanfachreth yn rheolaidd a bu'n aelod o'r côr bechgyn oedd yno ar y pryd, ond i Ysgol Sul Capel Hermon aeth gan ei fod yn nes. Yn Eglwys Machreth Sant y priodwyd ef a Nerys.

Gadawodd yr ysgol yn 1967. Roedd ei fam wedi'i orfodi i aros i wneud ei arholiadau, a bu'n ffodus o gael prentisiaeth fel mecanic ceir ym modurdy M&K Dolgellau, cwmni uchel ei barch yn y byd moduron ar y pryd, oedd â sawl modurdy yng ngogledd Cymru ac yn brif asiant i British Leyland. Fel prentis, mynychai gwrs coleg ddiwrnod yr wythnos yng Ngholeg Technegol Wrecsam am dair blynedd a llwyddodd yn yr arholiadau *City & Guilds* Llundain gyda theilyngdod. Yn ei gyfnod yn M&K profodd ei hyn yn fecanic di-guro ymhob agwedd o waith modurdy a bu'n sylfaen dda iddo am flynyddoedd. Bu'n lwcus iawn o ddysgu gan ddynion profiadol iawn, ac yntau yn ei dro yn esiampl gwych i rai iau. Roedd yna lawer o hogiau ifanc yn gweithio yno ar y pryd a llawer o hwyl a 'drygioni' a Mike yn ei chanol hi pob tro ac yn aelod poblogaidd iawn o'r tîm. Enillodd barch lawer o'r cwsmeriad hefyd a dim ond *that Michael John* oedd yn gwneud y tro gan Brigadier Vaughan, Nannau. Gwnaeth lawer iawn o ffrindiau oes yn ei swydd gyntaf, fel mewn llawer iawn o swyddi i ddilyn.

O M&K i Fodurdy Bontddu at Gwilym Evans. Roedd llawer o hwyl yn ei ddilyn yma hefyd; daeth Grenville, gŵr Evelyn i weithio yn y storfa yno yn y cyfnod yma hefyd. Un diwrnod daeth cwsmer oedd yn dipyn o 'bry clust' am y garej i gael part o'r storfa. Wrth ei weld yn dod, gofynnodd Gren yn sydyn i Mike “Be di enw hwn i mi wneud bil iddo?”. “Billy Wiggs” atebodd Mike, ac wrth iddo gyflwyno'r bil i'r cwsmer, aeth hwnnw'n lloerig a gweiddi “Nid Mr. W. Wiggs ydy fy enw i ond William Roberts” a Mike yn chwerthin wrth glywed y sŵn o'r swyddfa.

Symud wedyn i Drawsfynydd at y diweddar Brian Hughes ac ennill ei barch fel un medrus iawn yn y gweithdy. Cafwyd llawer o hanesion difyr am lawer o'r cymeriadau cefn gwlad oedd yn gwsmeriaid yno e.e. y diwrnod y daeth y diweddar Guto Bryncrwn yno gyda phroblem “….yr hardly splicer wedi mynd ar yr wfflyr shaft” ac yn chwifio ei freichiau i bob cyfeiriad yn yr awyr i ddangos hyn. Y dadansoddiad oedd mai yr *universal joint* oedd wedi gwisgo ar *prop-shaft* ei fan . 'Roedd gan Brian a Mike barch mawr at ei gilydd a'u teuluoedd. Mae Bethan wastad yn cofio Mike yn trwsio'i beic pan oedd hi'n hogan fach.

At offer amaethyddol nesaf gyda Burgess yn eu canolfan yn Nolgellau a mwynhau teithio o gwmpas y wlad yn gosod a thrwsio peiriannau. Cafodd yno brofiadau lawer eto o drin peiriannau modern ac roedd wrth ei fodd yn cyfarfod â'r ffermwyr, a hwythau'n falch o'i weld yn cyrraedd y buarth i ddatrys y broblem. Ambell i gwsmer yn gallu bod yn flin iawn os oedd peiriant newydd ddim yn gweithio fel y dylai. Un o'r cwsmeriaid yma yn nodedig am fod yn flin ac yn ymylu ar fod yn ymosodol wrth ffonio'r ganolfan mewn tymer i gwyno bod y peiriant yr oedd newydd ei brynu ddim yn gweithio'n iawn a Mike yn cael ei yrru yno i sortio'r broblem. Wedi cyrraedd y fferm, gwelai'r ffermwr yn y cae gyda'r peiriant ac yn amlwg mewn stêm. Aeth Mike i gefn y fan ac estyn *wrench* 24” i fynd gydag ef i gyfarfod ag o. Mewn ychydig iawn o amser roedd y broblem wedi ei datrys, a Mike wedi gallu darbwyllo'r ffermwr mae ei fai ei hun oedd y cyfan gan ddweud wrtho “Petaet wedi iwsio llai ar y morthwyl a mwy ar dy ben mi fasa'n iawn”, ac mae dim ond mater o sut i weithio'r peiriant oedd o. Doedd dim angen y *wrench* diolch i'r drefn a Mike wedi gallu tawelu'r dyfroedd yn ei ffordd dihafal ei hun unwaith eto a rhoi gwên ar wyneb y ffermwr. Roedd yn wych gyda phobl. Daliodd y cwsmer i brynu gan Burgess droeon wedyn.

Doedd Mike ddim am aros yn llonydd yn hir yn unman ac yn barod am yr antur nesaf. Aeth o ehangder cefn gwlad i waith aur Gwynfynydd fel ffitar, a dyma newid cyfeiriad llwyr iddo. Dyma gyfnod cynhyrfys iawn yn ei fywyd, y gwaith aur wedi ailddechrau gweithio am y tro cyntaf ers degau o flynyddoedd a'r gweithlu yn prysur dyfu at 40 o weithwyr. Ei swydd o oedd *foreman fitter* ac ambell un yn gweithio dano. Rhaid oedd dysgu sgiliau newydd yma gan bod llawer o beiriannau arbenigol mewn defnydd ac awyrgylch tra gwahanol i fodurdai a ffermydd. Roedd Mike wrth ei fodd o dan y ddaear ers pan oedd yn blentyn yn Nolfrwynog pan oedd o, Helen a'i gefnder Philip yn treulio llawer o'u gwyliau ysgol yn “ecsplorio” yn yr hen dyllau copor sydd yn frith drwy'r ardal. Byddai eu rhieni wedi cael ffit petaent yn gwybod ar y pryd. Dysgodd Mike lawer yn Gwynfynydd am fwyngloddio am aur a'r prosesau o'i echdynnu. Syr Mark Wineburg oedd perchennog y gwaith aur ar y pryd, miliwnydd oedd wedi gwneud ei arian ym myd ysiwriant yn Llundain. M.J. oedd yng ngofal Gwynfynydd tu allan i oriau gwaith a phenwythnosau gyda systemau larwm soffistigedig iawn mewn grym. Yn hwyr iawn un noson, cafodd neges ar y ffôn yn dweud bod tân yn y gwaith aur. Brysiodd yno o Dŷ Capel Hermon ar ei ben ei hun a darganfod bod generadur ar dân yno a gorfod ei lusgo allan mewn rhyw fodd cyn bod mwy o ddifrod yn digwydd i weddill yr offer. Bu'n llwyddiannus a dim ond yr un generadur hwnnw a gollwyd. Mewn peth amser, cyrhaeddodd pecyn y Tŷ Capel ac ynddo *carriage clock* reit neis a neges o ddiolch i Mike am ei wrhydri yn achub y mwynglawdd. Meddyliodd Mike ddim mwy am y peth hyd nes iddo sôn wrth fodryb iddo o Loegr am y digwyddiad a dangos y cloc iddi. Ymddengys bod y cloc yn un drudfawr iawn ac wedi dod o un o siopa gemwaith mwyaf Llundain oedd hefyd yn daparu gemwaith i'r Frenhines. Mae'n rhaid bod Mark Wineburg yn falch iawn o weithred Mike y noson honno.

Daeth Beti George i Gwynfynydd i wneud rhaglen deledu am hanes mwyngloddio aur yn yr ardal ac fe gafodd Mike a rhai eraill o'r gweithlu gyfle i gymryd rhan; roedd hyn wedi plesio, ac mi oedd gan Mike feddwl uchel o Beti ar ôl hyn. Cyfle arall ddaeth o weithio yn Gwynfynydd oedd cael hedfan am y tro cyntaf, a hynny mewn awyren fechan o Manceinion pob cam i Oban a phrofi *turbulence* go ddrwg a Mike yn gwneud hwyl mai mynd allan o betrol oeddynt uwchben Morecambe Bay a gobeithio bod pawb yn gallu nofio.

Daeth Mike i adnabod llawer iawn o arbenigwyr yn y maes mwyngloddio yng Ngwynfynydd a dysgodd lawer oddiwrthynt a arweiniodd iddo wneud llawer iawn o waith tanddareol ar ei liwt ei hun ynghyd â'r diweddar Arwel, Cwmheisien. Gwnaethant lawer iawn o waith yng Ngheudyllau'r Brenin Arthur, Corris ac i John Lloyd yn chwarel Aberllefenni. Dywedai Helen wrtho'n aml “os doi di yn ôl i'r hen fyd yma rywdro dwi'n siwr mai twrch daear fyddi di.”

Am yr 16 mlynedd diwethaf bu'n ffitar yn

***Parhad ar dudalen 30***

***Michael John Jones - parhad***

chwarel Arthog gyda Robin Meredith, ac roedd wrth ei fodd yno gyda'i gydweithwyr a hwythau yn ei gwmni o.  Gwaith caled ond boddhaol iawn. Âi i'r chwarel hyd at fisoedd olaf ei salwch i weld yr hogia a chael gwybod sut oedd pethau'n mynd.

Dyna ichi yrfa lawn a diddorol meddyliwch, ond yn ogystal â hyn oll cafodd lawer iawn o anturiaethau a phrofiadau eraill. Gallai droi ei law at unrhyw beth bron - gwaith adeiladu a chynnal a chadw, paentio ac addurno, ffermio , trin coed, gwaith trydanol, garddio yn ogystal â'r sgiliau peirianyddol a grybwyllwyd yn barod.

Cyn i'r trydan prif-lif gyrraedd pen uchaf Cwm Abergeirw, Mike oedd yn gwasanaethu llawer o'r generaduron oedd ar y ffermydd. Dywedodd un o'r trigolion yr hanes yma: "Mi fuodd Michael John yn *knight in shining armour* i ni gan ein bod yn dibynnu'n llwyr ar y generadur am ein trydan. Mi fyddwn yn ei ffonio fo gyda rhyw broblem ac fe fydda fo'n dod fel huddyg i botas. 'Roedd o fel rhyw chwa o awyr iach wrth sortio'r broblem, ac roedd na wastad ryw hwyl o'i gwmpas o – welais i erioed mohono ond yn bositif a hwyliog." Dwi'n siwr y byddai degau o bobl yn cydweld bod hwn yn ddisgrifiad cywir iawn ohono pan yn wynebu problem.  Bu am gyfnod yn rhedeg gweithdy ger Dolfrwynog yn cynnal a chadw ceir a thractorau'r ardal.

Cyfnod arall diddorol yn y 90au cynnar oedd cyfnod y coed tân. Buddsoddodd Mike mewn peiriant arbenigol i dorri a hollti coed tân a Sherpa pick-up las i'w dosbarthu. Gwaith caled iawn oedd hyn a byddai ei dad C.J. a Gren ei frawd-yng-nghyfraith yn gymorth mawr iddo. Daethant yn adnabyddus iawn gyda'r rownd coed tân drwy ran helaeth o Feirionnydd, yn enwedig yr arfordir. Mae'n rhaid fod Mike wedi gwneud peth argraff ar y dyn werthodd y *"Log Swift"* iddo gan i hwnnw ei wahodd o, Nes a John Wyn i'r Sioe Frenhinol yn Stoneleigh am yr wythnos i arddangos y peiriant yn mynd trwy'i bethau i ddarpar gwsmeriaid.

Mae hanesion y cyfnod ffermio yn ddirifedi hefyd a dyma gyffwrdd ar rai. Un tro pan oedd o a C.J. yn aredig y cae o dan y beudy yn barod i blannu tatws daeth Arthur Edward Lloyd Cox, brodor o West Sussex, perchennog tŷ haf cyfagos at y ffens i edrych beth oedd yn mynd ymlaen a gofynnodd "What are you doing Michael John?" "Looking for worms" oedd ateb sydyn Mike, ac i ffwrdd â Mr. Cox ynglŷn â'i fusnes ei hun. Wedi i'w dad ymddeol o'r fferm yn 1994, roedd  rhwydd hynt i Mike wneud fel a fynnai . Yn ychwanegol at y defaid penderfynwyd cadw moch a chael hanes hwch a baedd - Star a Rambo -yn Llanaber ger y Bermo. Y syniad oedd i'w llwytho yng ngwaelod y ffordd fach oedd yn arwain i fyny at rai tai. Daeth y ddau yn ufudd iawn ar y dechrau o'r twlc ac i'r ffordd yn dilyn bwcedaid o flawd. Ond penderfynodd Rambo nad oedd o am fynd i mewn i'r treilar a mynd i fyny'r ffordd yn lle. "Gadwch iddo, ddaw yn ôl yn y munud" oedd y consensws, a phawb yn canolbwyntio ar lwytho Star. Toc, llais o ardd un o'r tai i fyny'r ffordd i gweld bod yno gazebo yn symud o gwmpas " Hey, there's a …… pig in my garden" oedd neges y dyn. Rhaid felly oedd mynd ar ôl Rambo i'w gyrchu adref yn syth cyn iddo wneud mwy o ddifrod, a phawb yn chwerthin ar y diwedd, hyd yn oed y dyn yn yr ardd. Mike wedi tawelu'r dyfroedd unwaith eto. Bu Star a Rambo fyw am flynyddoedd yn Nolfrwynog a magu sawl torllwyth o foch bach a chadwyd rhai ymlaen i fagu wedyn. Roedd gan Mike galon feddal iawn lle roedd anifeiliaid yn y cwestiwn ac un diwrnod beth gyrhaeddodd Dolfrwynog ond Dinah, caseg wen 17 dyrnfedd *(hand)*, oedd yn mynd i oed a Mike am ei harbed. Cafodd gartref da iawn yno a phob sylw; roedd John Wyn yn ei marchogaeth o dro i dro. Arbedwyd merlen fach yno wedyn hefyd, o'r enw Millie.

Roedd rhai o ddulliau ffermio Mike dipyn bach yn wahanol, a daeth hyn i sylw neb llai na'r enwog Dai Jones a phenderfynwyd gwneud rhaglen Cefn Gwlad amdano ef a'r teulu. Rhaglen ddiddorol iawn, gallwch fentro, gyda llawer iawn o hwyl a chwerthin. Gwelwyd sut yr oedd Mike yn torri byrnau mawr silwair yn eu hanner gyda llif gadwyn a gweld yr hen Fordson Major "*Puffing Billy*" yn mygu fel trên.

Priodwyd Mike a Nes yn Eglwys Machreth Sant ar y 23ain Chwefror 1974 a'u cartref cyntaf oedd un o fflatiau Bryn Eglwys , Llanfachreth, y tro cyntaf i Mike fyw mewn pentref, a dysgodd yn fuan i agor y llenni y peth olaf cyn mynd i'r gwely rhag i weddill y pentref wybod os oedd wedi codi'n hwyr - nid bod hynny yn digwydd yn aml. Mewn tua phedair blynedd daeth Tŷ Capel Hermon yn wag a phenderfynwyd symud yn ôl i'r Cwm. Tra yn cartrefu yn Tŷ Capel, ganwyd eu hunig blentyn sef John Wyn.

Fel y dywedwyd eisoes, doedd Mike ddim yn un am fod yn ei unfan yn hir a symudwyd mewn rhai blynyddoedd i'r Hen Ardd, Nannau am ychydig cyn symud i Cae Crwth. Wedyn gan fod ei dad wedi ymddeol o Ddolfrwynog , symudwyd yno am rai blynyddoedd. Symud wedyn i'r Ganllwyd, rhif 1 Fforest Lodge a phan ddaeth Cae Crwth yn wag yn 2008 symud yn ôl yno gan mai dyma hoff gartref Mike a Nes. Pa le bynnag roeddynt yn byw roedd croeso anhygoel ar eu haelwyd gyda sgwrsio difyr a hel hen hanesion gyda llawer o hwyl a chwerthin a digon o ffags a phaneidiau te a choffi.  Roedd yna wastad anifeiliaid anwes yn y cartref hefyd, yn gŵn, o Pedro y labrador du i'r "pyps" chwedl yntau, sef dau gi defaid tlysa fuodd, a chathod a hyd yn oed cwningod ar un cyfnod a hyn oll yn dangos hoffter Mike o anifeiliaid. Un tro fe saethodd frân oedd yn dwyn bwyd yr ieir ar y fferm ond dim ond ei hanafu a wnaeth. Difarodd yn syth, a nyrsiodd y frân am ddyddiau yn ôl i'w llawn iechyd a'i gollwng yn rhydd.

Dyn ei ardal oedd Mike a heb fod yn chwennych teithio rhyw lawer o Sir Feirionnydd , ond er hynny yn hoffi mynd ar ambell i drip o bryd i'w gilydd. Âi o a Nes ar wyliau i Sir Benfro, i Southampton i ymweld â theulu, hedfan i Iwerddon i ymweld â Charlie, hen ffrind iddynt ac roeddynt ar bob trip cymdeithas rhieni ysgol Llanfachreth gyda John Wyn. Ar ôl dychwelyd o wyliau Sir Benfro yng ngwres llethol haf 1976 a'r car wedi sefyll beth wrth dŷ Dolfrwynog, roedd to'r car yn eirias



boeth ac fe gafodd Mike y syniad o ffrio ŵy arno, a gyda diferyn o saim ar y boned, llwyddodd i ryw raddau.

Un o hoff bleserau Mike a Nes oedd crwydro seli cist car gan fynd â stondin eu hunain weithiau. Er bod Mike wrth ei fodd yn trwsio cerbydau, nid oedd mor hoff o'u gyrru a Nes oedd y 'shoffyr' yn amlach na pheidio.

Mae'n siwr mai'r Nadolig oedd hoff gyfnod Mike o'r flwyddyn gyda'r teulu, a mawr oedd y paratoadau gydag addurniadau ac anrhegion lu. Byddai Mike wrth ei fodd yng nghwmni'r plant a phobol ifanc a hwythau yn gwirioni chware gydag o.

Oedd, roedd Michael John yn ŵr cymwynasgar a ffeind iawn fel y gŵyr pawb o'i gyfeillion, cymdogion, cydweithwyr a'i deulu, yn barod i helpu unrhyw un ac yn gefnogol iawn i rai roedd o'n tybio oedd yn cael cam mewn bywyd. Bu'n gymorth garw i Nerys yn tendio ar ei mam, Nel, yn ystod ei misoedd olaf.  Roedd Nel a Mike yn dipyn o fêts ac yn dallt ei gilydd i'r dim.

Rhyw  ychydig ar ôl colli Nel cafodd Mike druan, yn Hydref 2018, gadarnhad ei fod yntau yn dioddef o salwch brwnt iawn. Cadwodd Mike ei ysbryd  i fyny drwy ei salwch a chodai galon y rhai oedd yn edrych ar ei ôl a'i gydgleifion yn yr ysbytai. Tra yn Ysbyty Gwynedd un tro, ac allan wrth y brif fynedfa yn ei *dressing gown* yn cael mygyn, dechreuodd sgwrsio â chlaf arall oedd mewn cadair olwyn, yn amlwg wedi colli ei goes. 'Roedd y dyn yma awydd mygyn hefyd ond heb bapur sigaret. Penderfynodd Mike ei fowlio  yn y gadair am y siop fach oedd sbel dros y ffordd fawr.  Cafodd dynes y siop dipyn o sioc gweld y ddau yno yn eu dillad nos, cymaint nes rhoi ambell baced o Rizlas iddynt am ddim.

Derbyniodd Mike bob sylw gan feddygon a staff Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Dolgellau a'r nyrsus cymunedol er gwaethaf presenoldeb y Cofid-19,  a mawr fu gofal Nerys ohono trwy ei salwch. Ni adawodd erchwyn ei wely o ganol Ionawr hyd nes y daeth gartref ar 27ain o Fawrth. Nerys a John Wyn, gyda chymorth y nyrsus cymunedol, a ofalodd yn ddiflino amdano hyd nes hunodd yn dawel yn eu cwmni cariadus ar 8ed o Ebrill, 2020.

Bydd, bydd colled fawr ar ei ôl drwy'r ardal gyfan ond y golled fwyaf yn y cartref. Mike oedd asgwrn cefn y teulu bach, Nerys ei wraig a'i fab John Wyn a'i bartner yntau, Rowenna a'i wyrion ac wyresau Nickita, Ryan, Lucas, Joshua ac Isabella.  Derbyniodd y teulu lu o gardiau a negeseuon o gydymdeimlad atynt. Fel hyn y dywedodd Y Tad Deiniol , ffrind i'r teulu ers blynyddoedd, mewn neges:

***Parhad ar dudalen 31***

*MJJ - Parhad o dudalen 30*

"Roedd gennyf barch mawr ato a hoffwn ei gwmni pob amser – nid yn unig oherwydd ei hiwmor ffraeth ond roedd ganddo lawer iawn o synnwyr cyffredin a dirnadaeth a barn ddoeth ar faterion."

Dyma gwpled addas i gofio am M.J.
*"Yng nghanol bwrlwm bywyd,*
*Ei wên sy'n aros o hyd "*

Dymuna teulu'r diweddar Michael John ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli un oedd mor annwyl ganddynt. Hefyd diolch i'r Ficer, Y Parch Tim Webb am ei wasanaeth teimladwy ar lan y bedd ym mynwent Eglwys Machreth Sant ar Ddydd Mercher, 15fed Ebrill ac i'r Tad Deiniol a'r Parch Euron Hughes am eu cefnogaeth dros gyfnod salwch Michael, er yn absennol oherwydd y cyfyngiadau. Diolch i bawb ddaeth i ymyl y ffordd yn Nolgellau a Llanfachreth i ddangos eu parch am y tro olaf i M.J. wrth iddo wneud ei siwrne olaf i Lanfachreth ac yn arbennig i Philip Jones (cefnder) a Carwyn a Ceryl Roberts (cyfeillion) am eu gwasanaeth ar y diwrnod. Diolch i'r meddygon a holl staff Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Dolgellau a'r nyrsus cymunedol am eu gofal diflino ohono dros gyfnod hir ei salwch. Diolch i bawb a gyfrannodd at y gronfa er cof am Michael a llwyddwyd i gasglu dros £1,700 at Ymchwil Cancr y DU. Diolch diffuant iawn i Ben Thomas, Aftercare Funeral Services, Tywyn am ei drefniadau trylwyr a theimladwy iawn. ***B.G.a H.C.***

## Bywyd o dan y cyfyngiadau: Amgueddfa Cymru yn lansio apêl gyhoeddus

**Mae Amgueddfa Cymru wedi lansio apêl gyhoeddus a phrosiect arsylwi torfol digidol er mwyn casglu profiadau pobl sy'n byw yng Nghymru yn ystod cyfnod eithriadol Covid-19, a chreu cofnod a chasgliad cenedlaethol o atgofion o'r pandemig. Gofynnir i bobl fynd i wefan Amgueddfa Cymru www.amgueddfa.cymru/casglu/covid i rannu eu profiadau yn ystod y cyfnod hwn.**

Yn rhan o'r fenter gasglu newydd hon, bydd Amgueddfa Cymru yn lansio holiadur digidol torfol gan wahodd unigolion, cymunedau a sefydliadau ar draws Cymru i gofnodi eu profiadau o fyw dan y cyfyngiadau cyfredol ar symud.

Gellid olrhain y dull ymchwil hwn yn ôl i 1937. Yn ystod y cyfnod hwnnw o newid cymdeithasol digynsail (Dirwasgiad y 1930au), lansiodd yr Amgueddfa apêl gyhoeddus ac anfon cannoedd o holiaduron at wirfoddolwyr, cymunedau, sefydliadau ac ysgolion ar draws Cymru. Mae archif Sain Ffagan, Amgueddfa Werin Cymru yn cynnwys bron i 800 ymateb i'r holiadur hwn, o ddiwedd y 1930au hyd y 1980au, gyda llawer o'r gwirfoddolwyr gwreiddiol yn cadw cofnod o'u bywydau dros ddegawdau.

Yn ei lyfr, 'Amgueddfeydd Gwerin / Folk Museums', a gyhoeddwyd ym 1948, disgrifiodd Iorwerth Peate yr angen i amgueddfeydd gasglu gwybodaeth am ddiwylliant a hanes cyfoes. Roedd yn grediniol nad oedd hi'n ddigon i arddangos a chadw'r hyn a fu; a'i bod hi'n hanfodol olrhain a chofnodi'r hyn a oedd yn digwydd yn y presennol a'r dyfodol.

Yn rhan o'r fenter hon, bydd Amgueddfa Cymru yn adeiladu rhwydwaith o gasglwyr cymunedol; yn casglu hanes llafar; yn creu oriel ar-lein o ddelweddau mewn partneriaeth â Chasgliad y Werin Cymru ac ymatebion i'r holiaduron; ac yn casglu gwrthrychau sy'n berthnasol i'r pandemig yng Nghymru wedi i'r cyfyngiadau ar symud gael eu codi.

Bydd yr holiadur yn llywio datblygiad casgliad Covid-19 Cymru. Gofynnir i'r rheini sy'n cymryd rhan bennu gwrthrychau o'u cartrefi a'u cymunedau sy'n cynrychioli eu profiad nhw o fywyd o dan y cyfyngiadau ar symud. Wrth i'r cyfyngiadau godi, bydd yr Amgueddfa yn cysylltu â'r gwirfoddolwyr er mwyn casglu a dogfennu eu gwrthrychau.

Meddai David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru:

"Ni yw amgueddfa genedlaethol Cymru, ac mae gennym gyfrifoldeb i greu cofnod a chasgliad cenedlaethol o atgofion o'r pandemig yng Nghymru – dyma stori ein bywydau ar yr eiliad hon. Mae'n gyfnod digynsail ac mae'n rhaid i ni ei gofnodi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol".


Eich arbenigwyr lleol

EST. 1905
Walter Lloyd Jones
LAND & ESTATE AGENTS

Sefydlwyd yn 1905. Mae Walter Lloyd Jones yn gwmni teuluol, ac yn asiant annibynol yn ardal Dolgellau ac Abermaw ers 100 mlynedd. Rydym yn cynnig gwasanaeth gonest, cyfeillgar a phroffesiynol ar gyfer prynu, gwerthu, a rheoli eiddo, boed yn breswyl, masnachol neu dir.

Yn ogystal â'n gwasanaeth asiantaeth tai gallwn gynnig ystod o wasanaethau ymgynghorol arbenigol a phroffesiynol. Mae Walter Lloyd Jones yn cael ei reoli gan RICS ac felly yn gymwys i ddarparu a rheoli gwasanaethau eiddo ar eich rhan, all fod yn gymhleth, all achosi straen neu all fod yn gostus.

Wrth gyfuno ein harbenigedd mewn eiddo a gwerthu tir, a chyda'n gwybodaeth â'n dealltwriaeth uniongyrchol o anghenion penodol ein cymuned ffermio leol, gallwn gynnig gwasanaethau penodol a phroffesiynol i gleientau amaethyddol ar draws Canolbarth a Gogledd Cymru.

Am fwy o fanylion ewch i'n gwefan neu, gan ddefnyddio y manylion isod, cysylltwch ag aelod o'n tîm.

Dolgellau – 01341 422 278
dolgellau@walterlloydjones.co.uk

Abermaw – 01341 422 278
barmouth@walterlloydjones.co.uk

Gwasanaethau Proffesiynol
agriculture@walterlloydjones.co.uk

Rheoleiddir gan RICS

YMDDIRIEDIR YNOM YN LLEOL AC AR-LEIN
www.walterlloydjones.co.uk


### *Llythyr*

**Annwyl Ddarllenwyr,**

**Bydd y Mudiad Meithrin yn dathlu ei ben-blwydd yn 50 flwyddyn nesaf (2021). Felly heb os, rydym yn cynllunio ar gyfer nifer o ddigwyddiadau gwahanol i ddathlu'r achlysur.**

**Ein bwriad yw casglu lluniau diddorol, hanesion a digwyddiadau sydd yn gysylltiedig gyda'r Mudiad a phrofiadau unigolion dros y blynyddoedd hyd at heddiw, er mwyn ychwanegu at yr amryw o ddathliadau fydd y Mudiad yn eu cynnal.**

**Os oes gan unrhyw un ohonoch chi lun, hanes neu brofiad i rannu a fyddech cystal â chysylltu gyda ni trwy e-bostio marchnata@meithrin.cymru gan nodi'r flwyddyn, enwau'r bobl yn y llun ac ychydig o wybodaeth i gyd-fynd os gwelwch yn dda.**

**Rydym hefyd yn awyddus i glywed gan unrhyw un o'r darllenwyr sydd wedi mynychu un o'r Cylchoedd Meithrin cyntaf – y rhai oedd mewn bodolaeth cyn 1971.**

**Edrychwn ymlaen at dderbyn eich atgofion a phrofiadau.**

**Diolch yn fawr**

**Cofion**

**Helen Mai**
**Swyddog Cydgordio Dathliadau 50 Y Mudiad Meithrin**

# Rygbi

**Roedd Clwb Rygbi Dolgellau yn falch iawn o gael cefnogi Clwb Rygbi Cymry Caerdydd yn ddiweddar pan gyflwynwyd rhodd o gyfrifiadur tabled i Ysbyty Dolgellau.**

Fe aeth Clwb Rygbi Cymry Caerdydd ati dros benwythnos Gŵyl y Banc ddechrau Mai i godi arian ar gyfer achosion da, drwy gerdded 4,120 milltir. Fe lwyddodd y tîm o'r brifddinas, sydd â chysylltiad agos â chlwb y dre, i godi dros £11,500 at achosion da. Gan fod y Clwb yn tynnu chwaraewyr o bob cwr o'r wlad, penderfynwyd y byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rhoi cyfrifiaduron tabled i ysbytai cymunedol a chartrefi'r henoed ym mhob twll a chornel o Gymru. Yn cyflwyno'r tabled i staff Ysbyty Dolgellau mae Rhys Llywelyn, hyfforddwr adran iau Clwb Rygbi Dolgellau a Harri Hughes sy'n chwarae i Glwb Rygbi Cymry Caerdydd ond sydd wedi'i eni a'i fagu yn Ninas Mawddwy.



*Cyflwyno'r cyfrifiadur tabled i Ysbyty Dolgellau*

# Rygbi Iau

**Mae'r straen o beidio gallu gweld ein hanwyliaid a'n teulu yn ystod y cyfnod clo oherwydd Covid-19 yn cael ei deimlo gan bawb yn ein cymdeithas ond neb yn fwy na'r rhai sy'n gleifion mewn ysbytai neu'n byw mewn cartrefi gofal.**

Fe ddaeth i sylw'r clwb y byddai cael teledu clyfar yn galluogi y rhai sy'n byw yng Nghefn Rodyn i weld a chlywed eu hanwyliaid gan ddefnyddio'r we, a phenderfynwyd ceisio helpu. Roedd rhaid felly cael her i godi arian a phenderfynodd y tîm dan 14 ar daith rithiol o amgylch Cymru ar feic, yn rhedeg neu gerdded. Y darged oedd i gwblhau pellter cyfatebol i lwybr arfordir Cymru gan aelodau'r tîm, eu ffrindiau a theulu dros gyfnod hanner tymor. Roedd cyfanswm o 870 o filltiroedd yn swnio'n bell ofnadwy i ddechrau. Gan fod na dipyn o ddycnwch i'r tîm yma, cwblhawyd y dasg erbyn amser cinio dydd Mercher, felly penderfynwyd ymestyn yr her i gwblhau cylchdaith o amgylch Cymru drwy deithio llwybr Clawdd Offa sy'n 177 o filltiroedd ychwanegol, ac erbyn dydd Iau, roedd hyn wedi'i wneud hefyd! Y cam olaf felly oedd gweithio'n ffordd nol o Gasgwent i Ddolgellau erbyn nos Wener sef 120 o filltiroedd ychwanegol. Cwblhawyd y dasg yn gyfforddus gyda phawb yn rhoi ymdrech fawr a chyfansymiau pellter rhyfeddol yn cael eu cwblhau gan sawl unigolyn, boed ar feic neu ar droed. Curwyd y darged ariannol hefyd gyda'r £500 gwreiddiol yn cyrraedd dros £800 yn y pen draw. Hoffai'r tîm ddiolch yn fawr i bawb a fu mor hael a chyfrannu at yr achos teilwng hwn ac mae hyfforddwyr y tîm yn falch iawn o'r ymdrech a'r dyfalbarhad a ddangosodd pawb i gwblhau'r siwrne faith hon.




*Tîm rygbi Dan 14 Clwb Rygbi Dolgellau yn prynu teledu newydd i Gartre Henoed Cefn Rodyn Dolgellau*




GL Davies a'i fab
www.gldaviesaifab.co.uk
Uned 17, Marian Mawr
Stad Ddiwydiannol,
Dolgellau.
Ffôn 01341 421 814

NWYDDAU TRYDANOL
TORRI GWYDR I'W FAINT
TORRI GORIADAU
NWYDDAU DRAENIAD
NWYDDAU HAEARN
NWYDDAU PLYMIO
UNEDAU GWYDR DWBL
SILICONES & GLUDYDDION A LLAWER MWY

OX Tools · TIMco Fixings · McALPINE Plumbing Products · EVERBUILD · PLASSON · Cheshire mouldings · UniBond · FloPlast